Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SGÔR HYLENDID BWYD
FOOD HYGIENE RATING

# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
# a
# Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013:
# Canllawiau ar gyfer awdurdodau bwyd

## Mawrth 2014

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Byrfoddau | 1 |
| Cyflwyniad | 2 |
| Adran 1: Pontio – Sgoriau hylendid bwyd ar gyfer sefydliadau a aseswyd cyn cyflwyno'r Ddeddf | 5 |
| Coeden benderfynu ar gyfer pontio | 8 |
| Adran 2: Cwmpas | 10 |
| Coeden i benderfynu pa fath o sefydliadau a ddylai gael sgôr hylendid bwyd | 12 |
| Adran 3: Busnesau bwyd newydd | 14 |
| Adran 4: Rhaglen arolygu | 16 |
| Adran 5: Defnyddio Atodiad 5 o'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)* i roi sgôr | 17 |
| Adran 6: Mapio sgoriau Atodiad 5 i'r sgôr hylendid bwyd | 47 |
| Adran 7: Hysbysiad o sgôr hylendid bwyd | 49 |
| Adran 8: Apelio | 51 |
| Siart llif yn dangos y weithdrefn apelio | 54 |
| Adran 9: Hawl i ymateb | 55 |
| Adran 10: Cais am arolygiad at ddibenion ailsgorio | 56 |
| Adran 11: Arddangos sticeri sgoriau hylendid bwyd | 60 |
| Adran 12: Ceisiadau am wybodaeth am sgoriau hylendid bwyd | 65 |
| Adran 13: Defnyddio platfform TG y cynllun sgorio hylendid bwyd | 66 |
| Adran 14: Cysondeb | 74 |
| Adran 15: Gorfodi | 77 |
| Siart llif yn crynhoi'r broses Hysbysiad Cosb Benodedig | 82 |
| Atodiad 1: Templed ar gyfer adroddiad arolygiad hylendid bwyd | 84 |
| Atodiad 2: Ffurflen ar gyfer gwneud apêl | 87 |
| Atodiad 3: Hawl i ymateb | 90 |
| Atodiad 4: Ffurflen i wneud cais am arolygiad ailsgorio | 93 |

## Byrfoddau

Defnyddir yr acronymau/byrfoddau canlynol yn y ddogfen hon:

| | |
|---|---|
| y Ddeddf | Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 |
| BRDO | Swyddfa Rheoliadau Gwell |
| CIM | Hyder mewn gweithdrefnau rheoli |
| AB | Awdurdod bwyd. Yr awdurdod gorfodi. |
| CSHB | Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd – Y cynllun a sefydlwyd o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) |
| FBO | Gweithredwr Busnes Bwyd |
| FPN | Hysbysiad Cosb Benodedig |
| ASB | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd |
| Cynllun yr ASB | Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Anstatudol |
| HACCP | Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol |
| IMS | System rheoli gwybodaeth |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| LAEMS | System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol |
| LBRO | Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol |
| Gweithredwr | Yr unigolyn sy’n ymwneud â rheoli’r sefydliad |
| Rheoliadau | Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 |
| SFBB | Bwyd mwy diogel, busnes gwell |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

## Cyflwyniad

**Statws a diben y Canllawiau**

Cyhoeddir y Canllawiau hyn o dan adran 23 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) sy’n grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar gyflawni swyddogaethau awdurdodau bwyd o dan y Ddeddf hon.

Diben y canllawiau hyn yw helpu swyddogion awdurdodedig yng Nghymru i gyflwyno Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a’r rheoliadau cysylltiedig.

Mae’n rhaid i awdurdod bwyd ystyried y canllawiau hyn wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf.

Mae’r canllawiau hyn wedi’u datblygu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Llywodraeth Cymru ar y cyd â chynrychiolwyr awdurdodau lleol o Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru.

Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a’r rheoliadau a wneir oddi tani.

### Cefndir

Cyflwynwyd y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd anstatudol (“Cynllun yr ASB”) yn genedlaethol gan yr ASB mewn partneriaeth ag ALlau ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae cynllun ag amcanion tebyg yn cael ei weithredu yn yr Alban – y Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd (FHIS). Lansiwyd Cynllun yr ASB yng Nghymru ym mis Hydref 2010, ac fe’i datblygwyd i ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr i’w galluogi i wneud dewis goleuedig ynglŷn â ble i fwyta neu siopa am fwyd.

Gan mai cynllun anstatudol yw cynllun yr ASB, mae’r broses o’i weithredu gan awdurdodau bwyd, yn ogystal â’r manteision i ddefnyddwyr, fel arddangos sticeri, yn wirfoddol.

Ym mis Mawrth 2013 cafodd Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 Gydsyniad Brenhinol. Mae’r Ddeddf yn cyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd statudol newydd (“y CSHB”).

Er mwyn gweithredu’r Ddeddf yn llawn, mae Gweinidogion Cymru wedi llunio Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Daeth y Ddeddf a’r Rheoliadau i rym ar 28 Tachwedd 2013. Ymysg pethau eraill, mae’r Ddeddf a’r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd weithredu’r CSHB ac i fusnesau arddangos sgoriau hylendid bwyd.

### Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) statudol

Mae'r CSHB yn berthnasol i Gymru, ac mae'n cael ei weithredu a'i orfodi gan awdurdodau bwyd yng Nghymru.

Diben y CSHB yw galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau goleuedig am y llefydd sy'n cyflenwi bwyd a, thrwy'r dewisiadau hyn, annog busnesau i wella eu safonau hylendid. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr (ar ffurf sgôr hylendid bwyd) am safonau hylendid sefydliadau busnesau bwyd adeg eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd. Mae'r sgôr hylendid bwyd a roddir yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolygiad ac i ba raddau y mae'r busnes yn cydymffurfio â'r gyfraith bwyd.

Mae yna chwe sgôr hylendid bwyd gwahanol, o '0' i '5'. Sgôr o '5' yw'r sgôr uchaf ac mae'n adlewyrchu lefel cydymffurfiaeth 'da iawn' â'r gofynion cyfreithiol. Dylai pob busnes, waeth beth fo natur neu faint ei waith, allu cyflawni hyn. Cyhoeddir sgoriau hylendid bwyd ar-lein drwy food.gov.uk/ratings. Mae'n ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd arddangos sticer(i) yn dangos sgôr eu sefydliad mewn man lle mae'n hawdd i gwsmeriaid ddarllen y sgôr.

Mae'r CSHB yn cynnwys camau diogelu i sicrhau tegwch i fusnesau. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefn apelio, 'hawl i ymateb' i'w chyhoeddi gyda'r sgôr hylendid bwyd drwy food.gov.uk/ratings, a system i wneud cais am arolygiad at ddibenion ailsgorio os yw gwelliannau wedi'u gwneud ac amodau eraill wedi'u bodloni.

## Gwerthuso ac Adolygu

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar yr ASB i adolygu'r broses o gyflwyno a gweithredu'r CSHB a llunio adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru ar ôl y flwyddyn gyntaf o'i gyflwyno, a phob tair blynedd wedyn. Gall pob adroddiad gynnwys argymhellion ar gyfer newid ac mae'n rhaid ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'n rhaid i'r ASB adolygu sut mae'r broses apelio yn cael ei gweithredu o dan y Ddeddf hefyd. Mae'n rhaid cynnal yr adolygiad bob blwyddyn. Ar ôl pob adolygiad, mae'n rhaid i'r ASB lunio adroddiad sy'n cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer newid i'r broses, a'i gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Adolygu a diwygio'r Canllawiau

Bydd yr ASB a Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Canllawiau hyn, a'u diwygio a'u diweddaru fel sy'n ofynnol ac yn briodol.

## Gwybodaeth bellach

Cofiwch gysylltu os oes angen cyngor neu wybodaeth bellach arnoch chi – gweler y manylion cyswllt isod –

| Enw | Rhif ffôn | E-bost |
|---|---|---|
| **Swyddfa Caerdydd yr ASB** | | |
| Rob Wilkins | ☎ 029 2067 8957 | fhrs.wales@foodstandards.gsi.gov.uk |

| Enw | Rhif ffôn | E-bost |
|---|---|---|
| Delyth Murray-Lines | ☎ 029 2067 8927 | fhrs.wales@foodstandards.gsi.gov.uk |

## Adran 1: Pontio – Sgoriau hylendid bwyd ar gyfer sefydliadau a aseswyd cyn cyflwyno'r Ddeddf

### 1.1 Cyflwyniad

Mae Rheoliad 2 o Reoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) yn caniatáu "cyfnod pontio" o 18 mis i awdurdodau bwyd roi sgôr CSHB "newydd" ar gyfer sefydliadau â sgôr anstatudol a roddwyd cyn cyflwyno'r Ddeddf. Daeth y Ddeddf a'r Rheoliadau i rym ar 28 Tachwedd 2013, gyda'r cyfnod pontio yn para tan 28 Mai 2015.

Yn ystod y cyfnod pontio, bydd trefniadau pontio'n berthnasol i sefydliadau sydd o fewn cwmpas y CSHB "newydd" ac sydd wedi derbyn sgôr hylendid bwyd o dan y cynllun anstatudol. Nid ydynt yn berthnasol i sefydliadau sydd o fewn cwmpas y cynllun anstatudol nad ydynt wedi derbyn sgôr eto. Nid ydynt yn berthnasol chwaith i sefydliadau sydd y tu hwnt i gwmpas y CSHB "newydd" ac sydd wedi "dewis" cymryd rhan o bosibl o dan y cynllun anstatudol.

### 1.2 Sefydliadau sydd o fewn cwmpas y cynllun anstatudol nad ydynt wedi derbyn sgôr

Bydd sefydliadau o'r fath yn rhai risg isel gan amlaf, a dylid rhoi sgôr CSHB "newydd" iddynt adeg eu hadolygiad nesaf a raglennir. Nid yw'r trefniadau pontio'n berthnasol i'r sefydliadau hyn, a gall eu harolygiad nesaf a raglennir fod dros 18 mis ar ôl cyflwyno'r Ddeddf. Gweler Adran 4 o'r canllawiau hyn ar gyfer gwybodaeth bellach am y rhaglen o arolygiadau.

### 1.3 Sefydliadau sydd y tu hwnt i gwmpas y CSHB "newydd"

Dyma'r sefydliadau sydd y tu hwnt i gwmpas y CSHB "newydd" ond sydd â sgôr o dan y cynllun anstatudol. Mae'n bosibl bod y sefydliadau hyn wedi "dewis" cymryd rhan yn y cynllun anstatudol. Ni ddylid rhoi sgôr CSHB "newydd" i'r sefydliadau hyn. Dylid hysbysu Gweithredwyr Busnesau Bwyd bod angen iddynt dynnu unrhyw sticeri a gyhoeddwyd o dan y cynllun anstatudol er mwyn osgoi camarwain y cyhoedd, gan na fydd y cynllun anstatudol yn berthnasol i Gymru bellach.

Bydd angen i awdurdodau bwyd ystyried sut i hysbysu'r busnesau hyn eu bod y tu hwnt i gwmpas y CSHB "newydd" ac na fyddant yn derbyn sgôr o ganlyniad.

I gael rhagor o wybodaeth am gwmpas y CSHB "newydd", gweler Adran 2 o'r canllawiau hyn.

### 1.4 Sefydliadau a aseswyd cyn cyflwyno'r Ddeddf

Bydd y sefydliadau a aseswyd cyn cyflwyno'r Ddeddf yn perthyn i ddau gategori:

- **'y rhai o fewn y rhaglen'** – sefydliadau sydd ag arolygiad hylendid bwyd a raglennir o fewn y cyfnod 18 mis (i gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen o arolygiadau, gweler Adran 4 o'r canllawiau hyn)

- **‘y rhai y tu hwnt i’r rhaglen’** – sefydliadau nad oes ganddynt arolygiad hylendid bwyd a raglennir

Mae materion pontio eraill i’w hystyried yn cynnwys:

- **ceisiadau am ailsgorio a dderbyniwyd ar gyfer asesiadau a wnaed cyn cyflwyno’r Ddeddf** – mae’r gweithredwr busnes bwyd wedi derbyn sgôr o dan y cynllun anstatudol ac wedi gwneud cais am ymweliad ailsgorio er mwyn asesu’r gwelliannau a chael sgôr newydd os yn briodol

- **apeliadau a dderbyniwyd cyn cyflwyno’r Ddeddf –** mae’r gweithredwr busnes bwyd wedi derbyn sgôr o dan y cynllun anstatudol ac wedi cyflwyno apêl

### 1.4.1 Sefydliadau sydd o fewn cwmpas y rhaglen

Dylid nodi’r sefydliadau sy’n cael arolygiad hylendid bwyd a raglennir o fewn y cyfnod 18 mis ar ôl i’r Ddeddf ddod i rym yn y system rheoli gwybodaeth (cronfa ddata’r awdurdod lleol). Dylid rhoi sgôr CSHB “newydd” ar ôl yr arolygiad a raglennir, a bydd y sgôr a roddir yn dibynnu ar ganfyddiadau’r arolygiad a raglennir.

### 1.4.2 Sefydliadau sydd y tu hwnt i gwmpas y rhaglen

Dylid nodi’r sefydliadau sydd wedi derbyn sgôr hylendid bwyd o dan y cynllun anstatudol ac nad ydynt yn cael arolygiad a raglennir o fewn 18 mis i’r Ddeddf ddod i rym yn y system rheoli gwybodaeth.

Bydd y sefydliadau hyn yn derbyn sgôr CSHB “newydd” ar sail yr asesiad a ddefnyddiwyd i gyfrifo’r sgôr anstatudol (canfyddiadau’r arolygiad diwethaf). Bydd y sgôr yn seiliedig ar y meini prawf sgorio a nodir yn Adran 4 o’r Ddeddf, ac yn unol ag Adran 6 o’r canllawiau hyn.

Dylid cynllunio i gyflwyno sgoriau CSHB “newydd” ar gyfer sefydliadau sydd y tu hwnt i’r rhaglen arolygiadau hylendid bwyd. Bydd angen i awdurdodau bwyd ystyried y ffordd orau o sicrhau bod sefydliadau sydd y tu hwnt i gwmpas y rhaglen yn llwyddo i newid o’r cynllun anstatudol i’r CSHB “newydd”. Bydd y goblygiadau yn amrywio rhwng awdurdodau ac yn dibynnu, er enghraifft, ar nifer y busnesau sy’n perthyn i’r categori hwn a phroffil sgoriau busnesau yn yr ardal.

Ar ôl i fusnes gael ei hysbysu am ei sgôr CSHB “newydd”, bydd y camau diogelu newydd ar gael i’r gweithredwr. Bydd gan y gweithredwr hawl i apelio, hawl i ymateb a hawl i ofyn am gael ei ailsgorio. I gael rhagor o wybodaeth am y camau diogelu hyn, gweler Adrannau 8, 9 a 10 o’r canllawiau hyn.

Ar ôl cael ei hysbysu am y sgôr CSHB “newydd”, bydd gan weithredwr y busnes ymrwymiadau penodol. Bydd y rhain yn cynnwys arddangos y sticer a ddarparwyd gan yr awdurdod bwyd, a sicrhau bod cyflogeion perthnasol yn ymwybodol o sgôr hylendid bwyd y sefydliad. Mae’n rhaid i’r gweithredwr ac unrhyw gyflogeion perthnasol allu hysbysu pobl ar lafar am y sgôr CSHB “newydd” pan fydd pobl yn

gofyn iddynt. I gael rhagor o wybodaeth am yr ymrwymiadau hyn, gweler Adrannau 11 a 12 o'r canllawiau hyn.

Yn ystod y cyfnod pontio, gall y gweithredwr busnes bwyd ddewis arddangos sticer y sgôr a gyhoeddwyd o dan y cynllun anstatudol. Mae hyn yn dderbyniol nes bod y gweithredwr busnes bwyd wedi'i hysbysu am y sgôr CSHB "newydd" ac mae'n rhaid iddo arddangos y sticer a ddarparwyd gan yr awdurdod bwyd. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol 21 diwrnod ar ôl dyddiad derbyn yr hysbysiad (y terfyn amser ar gyfer apelio), neu os cyflwynir apêl, ar ôl cael gwybod am y canlyniad. Fodd bynnag, gall y gweithredwr busnes bwyd arddangos y sticer CSHB "newydd" cyn y cyfnod 21 diwrnod os yw'r gweithredwr wedi penderfynu peidio ag apelio. Pan fo'r gweithredwr busnes bwyd yn arddangos y sticer CSHB "newydd", mae'n rhaid iddo dynnu unrhyw sticeri a gyhoeddwyd o dan y cynllun anstatudol er mwyn osgoi camarwain y cyhoedd.

Bydd y sgôr a gyhoeddwyd o dan y cynllun anstatudol yn parhau i gael ei harddangos ar wefan yr ASB (food.gov.uk/ratings) nes bod y sgôr CSHB "newydd" wedi'i chyhoeddi ac mae'r cyfnod apelio newydd yn dilyn yr hysbysiad wedi dod i ben (21 diwrnod). Os cyflwynir apêl, bydd delwedd 'I'w gyhoeddi'n fuan' yn cael ei harddangos nes bod yr apêl wedi'i chlywed.

## 1.5 <u>Trefniadau TG ar gyfer sefydliadau sydd y tu hwnt i gwmpas y rhaglen</u>

Er mwyn gweithredu'r gofynion pontio ar wefan yr ASB a diweddaru'r wybodaeth am fusnesau, bydd angen i awdurdodau bwyd nodi'r dyddiad pan fydd busnesau'n cael eu hysbysu am eu sgôr CSHB "newydd". Bydd angen nodi'r wybodaeth hon mewn maes ychwanegol, 'Dyddiad hysbysu am y sgôr', drwy lanlwythiad yr awdurdod bwyd, neu ei chofnodi â llaw drwy borth y CSHB os nad oes modd darparu'r wybodaeth yn y lanlwythiad.

Bydd awdurdodau bwyd yn parhau i ddefnyddio'r un manylion ag a ddefnyddiwyd o dan y cynllun anstatudol i gysylltu â'r platfform TG cenedlaethol. Mae Dogfennau Defnyddwyr TG manwl ar gael drwy:

http://www.food.gov.uk/policy-advice/hygieneratings/hygienescoresresources/fhrsitguides

## 1.6 <u>Ceisiadau am ailsgorio a dderbyniwyd ar gyfer asesiadau a wnaed cyn cyflwyno'r Ddeddf</u>

Mae hyn yn berthnasol i fusnesau a dderbyniodd sgôr o dan y cynllun anstatudol lle mae'r gweithredwr busnes bwyd wedi gwneud cais i gael ei ailsgorio. Bydd y gweithredwr busnes bwyd wedi darparu tystiolaeth bod y gwelliannau gofynnol wedi'u gwneud, ond na chafwyd yr ymweliad ailsgorio cyn cyflwyno'r Ddeddf.

Dylai ymweliad ailsgorio gael ei gynnal yn unol â gofynion y cynllun anstatudol a oedd yn sylfaen i gyhoeddi'r sgôr. O dan y cynllun anstatudol, ni fyddai'r ymweliad ailsgorio yn cael ei gynnal fel arfer o fewn 3 mis i'r arolygiad lle rhoddwyd y sgôr hylendid bwyd anstatudol (y cyfnod "segur"). O dan y cynllun anstatudol, byddai'r ymweliad ailsgorio'n cael ei gwblhau o fewn 3 mis i ddiwedd y cyfnod "segur", neu o

fewn 3 mis os cyflwynwyd y cais ar ôl y cyfnod “segur”. Roedd hyn yn golygu na fyddai’r busnes yn gorfod aros mwy na 6 mis am ymweliad ailsgorio. Fodd bynnag, gallai awdurdod bwyd ddewis cynnal yr ymweliad ailsgorio o fewn y cyfnod “segur” os oedd hynny’n briodol. O dan y Ddeddf, dylai sgôr CSHB “newydd” gael ei rhoi ar ôl yr arolygiad ailsgorio. Ni ddylai awdurdodau bwyd godi tâl ar y gweithredwr busnes bwyd am yr ymweliad.

Ar ôl i fusnes gael ei hysbysu am ei sgôr CSHB “newydd”, bydd y camau diogelu “newydd” ar gael i’r gweithredwr. Bydd gan y gweithredwr hawl i apelio, hawl i ymateb a hawl i ofyn am gael ei ailsgorio. I gael rhagor o wybodaeth am y camau diogelu hyn, gweler Adrannau 8, 9 a 10 o’r canllawiau hyn.

Ar ôl cael ei hysbysu am y sgôr CSHB “newydd”, bydd gan weithredwr y busnes ymrwymiadau penodol hefyd. Bydd y rhain yn cynnwys arddangos y sticer a ddarparwyd gan yr awdurdod bwyd, a hysbysu pobl ar lafar am y sgôr CSHB “newydd” os ydynt yn gofyn. I gael rhagor o wybodaeth am yr ymrwymiadau hyn, gweler Adrannau 11 a 12 o’r canllawiau hyn.


## 1.7 Arddangos y gofynion yn ystod y cyfnod pontio

Yn ystod y cyfnod pontio, nid oes angen i’r gweithredwr busnes bwyd arddangos y sticer â’r sgôr a gyhoeddwyd o dan y cynllun anstatudol. Ar ôl cael ei hysbysu am y sgôr CSHB “newydd”, bydd yn ofynnol i’r gweithredwr busnes bwyd arddangos y sticer a ddarparwyd gan yr awdurdod bwyd. Mae’r gofyniad hwn yn berthnasol 21 diwrnod ar ôl dyddiad derbyn yr hysbysiad (y terfyn amser ar gyfer apelio), neu os cyflwynir apêl, ar ôl cyhoeddi canlyniad yr apêl. Fodd bynnag, gall y gweithredwr busnes bwyd benderfynu peidio ag apelio, ac os felly gallai ddewis arddangos y sticer CSHB “newydd” cyn i’r cyfnod 21 diwrnod ddod i ben. Pan fo’r gweithredwr busnes bwyd yn arddangos y sticer CSHB “newydd”, ni ddylid arddangos unrhyw sticeri neu dystysgrifau a gyhoeddwyd o dan y cynllun anstatudol er mwyn osgoi camarwain y cyhoedd.

Ni fydd unrhyw sgôr a gyhoeddwyd o dan y cynllun anstatudol yn cael ei harddangos ar wefan yr ASB (food.gov.uk/ratings) os oedd yn destun apêl, a bydd delwedd ‘I’w gyhoeddi’n fuan’ yn cael ei harddangos yn lle hynny. Ar ôl i sgôr CSHB “newydd” gael ei chyhoeddi ac ar ôl i’r cyfnod apelio yn dilyn hysbysiad ddod i ben (21 diwrnod), bydd y sgôr yn cael ei harddangos ar wefan yr ASB. Os cyflwynir apêl, bydd delwedd ‘I’w gyhoeddi’n fuan’ yn cael ei harddangos nes bod yr apêl wedi’i chlywed.

## 1.8 Coeden benderfynu ar gyfer pontio

Mae’r trefniadau pontio yn berthnasol i’r busnesau sydd wedi derbyn sgôr o dan y cynllun anstatudol yn unig.


Cwestiwn allweddol
A gwblhawyd yr asesiad cyn 28 Tachwedd 2013?
Naddo
Eithriwyd o bontio. Mae pob asesiad ers 28 Tachwedd wedi'i gynnal o dan y Ddeddf
Do
Cwestiwn allweddol
A yw'r gweithredwr busnes bwyd wedi'i hysbysu am y sgôr o dan y cynllun anstatudol?
Naddo
Parhau yn unol â'r cynllun anstatudol
Noder
Bydd angen ystyried y sefydliadau hyn fel rhan o'r trefniadau pontio
Noder
Os yw'r gweithredwr busnes bwyd wedi gwneud cais am ailsgôr cyn 28 Tach 2013, dylid ailsgorio yn unol â'r cynllun anstatudol
Do
Noder
Os yw'r gweithredwr busnes bwyd wedi cyflwyno apêl o fewn 14 diwrnod o dderbyn ei sgôr anstatudol, dylid ymdrin â'r apêl yn unol â'r cynllun anstatudol. Cyhoeddir sticer "newydd".
Cwestiwn allweddol
A yw'r arolygiad nesaf a raglennir i'w gynnal o fewn 18 mis (cyn 28 Mai 2015)
Nac ydy
Cyhoeddi sgôr CSHB "newydd ar sail yr asesiad a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r sgôr anstatudol
Ydy
Rhoi sgôr hylendid bwyd "newydd" ar ôl yr arolygiad nesaf a raglennir

## Adran 2: Cwmpas

### 2.1 Cyflwyniad

Mae'r cwmpas yn ymestyn i'r holl sefydliadau bwyd sydd wedi'u cofrestru gydag awdurdod bwyd yng Nghymru neu wedi'u cymeradwyo gan awdurdod bwyd yng Nghymru yn unol â Rheoliadau EC 852/2004 neu 853/2004.

Hyd at fis Tachwedd 2014 (yn amodol ar Orchymyn Cychwyn) bydd y cwmpas ond yn ymestyn i sefydliadau sy'n cyflenwi bwyd i gwsmeriaid yn uniongyrchol, ar yr amod nad ydynt wedi'u heithrio o dan Reoliad 5. Mae hyn yn cynnwys bwytai, caffis, siopau tecawê, siopau brechdanau a llefydd eraill lle mae pobl yn bwyta bwyd sydd wedi'i baratoi y tu allan i'r cartref, yn ogystal â manwerthwyr bwyd.

O fis Tachwedd 2014 ymlaen, bwriedir ymestyn y cwmpas i sefydliadau bwyd a ddefnyddir ar gyfer masnach rhwng busnesau yn unig, er enghraifft gweithgynhyrchwyr bwyd, neu fusnesau pecynnu bwyd heb safle manwerthu.

### 2.2 Eithriadau

Mae Rheoliad 5 yn nodi'r categorïau o sefydliadau sy'n esempt rhag eu sgorio, gan gynnwys:

- sefydliad lle nad yw gwerthu bwyd yn brif weithgaredd y sefydliad; a lle mae'r unig fwyd sydd ar gael i ddefnyddwyr yn fwyd sydd yn silff-sefydlog ar y tymheredd amgylchynol ac wedi ei lapio neu'i becynnu cyn dod â'r bwyd i'r sefydliad, a'r deunydd lapio neu'r deunydd pecynnu yn parhau'n seliedig drwy gydol y cyfnod cyn cyflenwi'r bwyd i ddefnyddwyr

Gallai enghreifftiau o sefydliadau o'r fath gynnwys:

  - canolfannau ymwelwyr a sefydliadau tebyg sy'n gwerthu bisgedi mewn tuniau neu nwyddau eraill wedi'u lapio ymysg amrywiaeth o nwyddau eraill
  - canolfannau hamdden sydd â pheiriannau gwerthu bwyd yn unig sy'n gwerthu diodydd neu fwydydd risg isel yn unig
  - siopau papurau newydd sy'n gwerthu melysion wedi'u pecynnu ymlaen llaw
  - fferyllfeydd sy'n gwerthu melysion wedi'u pecynnu ymlaen llaw a/neu fwydydd iach

- sefydliad a ddefnyddir at y diben o ddarparu gwasanaethau gofal, pan fo'r sefydliad hwnnw'n cael ei ddefnyddio hefyd fel annedd breifat

Nid yw'r esemptiad yn cynnwys sefydliadau a ddefnyddir gan warchodwyr plant a gofalwyr lleoli oedolion lle mae'r sefydliad yn cael ei ddefnyddio fel annedd breifat hefyd. Bydd gofynion hylendid bwyd yn parhau i fod yn berthnasol i'r sefydliadau hyn, ond byddant yn esempt rhag gorfod cael eu sgorio.

Nid yw'r esemptiad yn cynnwys arlwywyr cartref, a ddylai gael eu cynnwys yn y cwmpas.

Gall y goeden benderfynu (pwynt 2.9 isod) hefyd gynorthwyo awdurdodau lleol â phroblemau'n ymwneud â chwmpas ac esemptiad.

Os yw busnes yn bodloni'r meini prawf esemptio, nid oes darpariaeth i ganiatáu i fusnesau "ddewis" ymuno â'r cynllun. Bydd gofynion hylendid bwyd yn parhau i fod yn berthnasol i fusnesau sy'n esempt, ond byddant yn esempt rhag eu sgorio.

Bydd angen i awdurdodau bwyd benderfynu a fydd angen diwygio eu systemau rheoli gwybodaeth i adlewyrchu cwmpas y Ddeddf.

## 2.3 Masnachwyr symudol

Mae unedau bwyd symudol (unedau manwerthu ac arlwyo), stondinau marchnad a marchnadoedd achlysurol sydd wedi'u cofrestru neu eu cymeradwyo gan awdurdod bwyd yng Nghymru **wedi'u cynnwys**, a dylent gael eu sgorio oni bai eu bod yn bodloni'r meini prawf esemptio.

Cyfrifoldeb yr 'awdurdod cofrestru' yw penderfynu ar sgôr hylendid bwyd y sefydliadau hyn a'i chyhoeddi drwy food.gov.uk/ratings, clywed apeliadau yn erbyn sgoriau, ymdrin â cheisiadau am arolygiadau ailsgorio ac ymdrin â cheisiadau i gyhoeddi 'hawl i ymateb'. Bydd angen i awdurdodau bwyd gydweithio'n agos ar y materion hyn.

Bydd yn hawdd gwneud hyn mewn achosion lle mae'r sefydliad yn gweithredu yn yr ardal lle mae wedi'i gofrestru yn unig. Mewn achosion eraill, mae'n rhaid i'r 'awdurdod cofrestru' ystyried gwybodaeth a ddarparwyd gan 'awdurdodau arolygu', a all fod y tu allan i Gymru, wrth benderfynu'r sgôr.

## 2.4 Neuaddau pentref, canolfannau cymunedol a sefydliadau tebyg

Mae sefydliadau o'r fath yn amrywio'n sylweddol, felly mae'n anodd bod yn rhagnodol, a dylid ystyried pob set o amgylchiadau ar sail teilyngdod. Wrth wneud hynny, gellid ystyried y canlynol:

- A yw'r busnes wedi'i gofrestru neu ei gymeradwyo gan yr awdurdod bwyd?
- A yw'r busnes yn esempt?

Nid bwriad y CSHB yw newid pa endidau a ddylai gael eu cofrestru neu eu cymeradwyo fel busnes bwyd.

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n bosibl y bydd mwy nag un busnes bwyd yn defnyddio'r un safle. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai pob busnes bwyd sydd wedi'i gofrestru neu ei gymeradwyo gael sgôr ar wahân, oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf esemptio.

## 2.5 Sefydliadau sy'n cynnwys unedau gwahanol ar yr un safle

Dylai pob busnes bwyd sydd wedi'i gofrestru neu ei gymeradwyo gael ei sgorio oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf esemptio. Felly, os yw'r unedau unigol wedi'u cofrestru neu eu cymeradwyo fel un sefydliad busnes bwyd – e.e. archfarchnad â

siop fara neu gigydd mewnol, neu siop goffi neu orsaf betrol neu fwyty mewnol – dylid rhoi un sgôr.

Os yw'r unedau wedi'u cofrestru fel sefydliadau busnesau bwyd ar wahân – e.e. archfarchnad â siop goffi neu fwyty o dan reolaeth gweithredwr busnes bwyd gwahanol – dylid rhoi sgoriau ar wahân.

## 2.6 Sefydliadau'r Lluoedd Arfog, yr Heddlu a'r Goron

Yn union fel sefydliadau busnesau bwyd eraill, mae gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd yn berthnasol i sefydliadau'r Lluoedd Arfog, yr Heddlu a'r Goron. Cânt eu cofrestru a'u harolygu yn unol â'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd*. Mae sefydliadau sy'n cael eu meddiannu gan, neu eu defnyddio at ddiben unrhyw un o Luoedd Arfog Ei Mawrhydi, unrhyw lu heddlu neu'r Goron yn cael eu **cynnwys** yng nghwmpas y cynllun, a dylent gael eu sgorio oni bai eu bod yn bodloni'r meini prawf esemptio.

## 2.7 Llongau a chychod

Os yw cwch yn cael ei gofrestru fel busnes bwyd gan awdurdod bwyd yng Nghymru, dylai gael ei sgorio oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf esemptio.


## 2.8 Lle mae camau cyfreithiol ar waith neu'n cael eu hystyried

Oni bai bod y sefydliad yn bodloni'r meini prawf esemptio, yn gyffredinol dylai'r sefydliad gael ei sgorio. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar natur y camau cyfreithiol:

- Os yw'r sefydliad wedi'i gau oherwydd risg sydd ar fin digwydd i iechyd y cyhoedd, ni ddylai gael ei sgorio pan ei fod wedi cau, h.y. nid yw'n masnachu.
- Os yw'r sefydliad yn parhau i fasnachu a chyflenwi bwyd, dylai gael ei sgorio.

Penderfynir y CSHB ar sail yr wybodaeth a gasglwyd adeg yr arolygiad cychwynnol. Dylid hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd, yn unol ag Adran 7 o'r canllawiau hyn, a bydd yn ofynnol iddo arddangos sticer y sgôr pan ei fod ar agor am fusnes.

## 2.9 Coeden i benderfynu pa fath o sefydliadau a ddylai gael sgôr hylendid bwyd


Cwestiwn allweddol
A yw gofynion cofrestru yn berthnasol i'r sefydliad neu a yw'n sefydliad cymeradwy?
Nac ydyn
Eithriwyd o'r cwmpas - dim sgôr hylendid bwyd
Ydyn
Cwestiwn allweddol
A yw'r sefydliad yn cyflenwi bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr ei fwyta ar neu oddi ar y safle?
Nac ydy
Eithriwyd – dim sgôr hylendid bwyd tan Tach 2014
Ydy
Enghreifftiau
Bwytai, tafarndai, caffis, siopau tecawê,siopau brechdanau, llety gwely a brecwast, tai llety, gwestai, masnachwyr symudol, stondinau marchnad a marchnadoedd achlysurol, archfarchnadoedd, siopau trwyddedig, ysgolion, meithrinfeydd a chartrefi gofal preswyl, y lluoedd arfog, yr heddlu a sefydliadau'r Goron, cyfanwerthwyr neu warysau talu a chario sy'n gwerthu bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, llefydd eraill ble mae pobl yn bwyta bwyd sy'n cael ei baratoi y tu allan i'r cartref.
Cwestiwn allweddol
A yw'n wir nad gwerthu bwyd yw'r prif weithgaredd ac mae'r bwyd sy'n cael ei drin yn cael ei becynnu ymlaen llaw ac yn silff-sefydlog?
Ydy
Esempt – Dim sgôr hylendid bwyd
Enghreifftiau
Canolfannau ymwelwyr a sefydliadau tebyg sy'n gwerthu tuniau o fisgedi neu nwyddau eraill wedi'u lapio ymysg amrywiaeth o nwyddau, canolfannau hamdden â pheiriannau gwerthu bwyd yn unig (gyda diodydd neu fwyd risg isel yn unig), siopau papurau newydd sy'n gwerthu melysion wedi'u pecynnu ymlaen llaw
Nac ydy
Cwestiwn allweddol
A yw'r sefydliad yn gweithredu o annedd breifat?
Ydy
Cwestiwn allweddol
A yw'r sefydliad yn warchodwr plant neu'n darparu gwasanaeth gofal arall mewn annedd breifat?
Ydy
Dim sgôr hylendid bwyd
Nac ydy
Nac ydy
Rhoi sgôr hylendid bwyd

## Adran 3: Busnesau bwyd newydd

### 3.1 Cyflwyniad

Mae'r Rheoliadau'n nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau bwyd anfon gwybodaeth am y sgôr hylendid bwyd at weithredwr busnes bwyd busnes bwyd newydd.

### 3.2 Gwybodaeth y mae'n rhaid ei hanfon at weithredwr busnes bwyd busnes bwyd newydd

Mae'n rhaid i'r wybodaeth ganlynol gael ei hanfon at weithredwr busnes bwyd busnes bwyd newydd o fewn 14 diwrnod i'r busnes yn cofrestru gyda'r awdurdod bwyd neu'n gwneud cais am gymeradwyaeth:

- y sgoriau y gellir eu rhoi i sefydliad
- sut mae'r sgoriau'n cael eu cyfrifo, gan gynnwys pa lefelau o gyflawniad sydd eu hangen ar gyfer pob sgôr
- pwy sy'n llunio sgôr sefydliad a phryd bydd hynny'n cael ei wneud am y tro cyntaf
- yr wybodaeth am bryd, ble a sut y bydd angen arddangos y sgôr
- y ffaith y bydd gweithredwr sefydliad yn cael gwybod am y sgôr cyn ei bod yn cael ei chyhoeddi
- gwybodaeth am hawliau'r gweithredwr busnes bwyd:
  - i apelio yn erbyn y sgôr
  - i wneud cais i gael ei ailsgorio
  - i leisio barn ar sgôr ("hawl i ymateb")
- sut i gael rhagor o wybodaeth am y CSHB

### 3.3 Pryd mae angen rhoi sgôr i sefydliadau newydd?

Mae'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)* yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad bwyd gael arolygiad hylendid bwyd cychwynnol. Fel arfer, dylid cynnal yr arolygiad o fewn 28 diwrnod i gofrestru neu pan ddaw'r awdurdod bwyd yn ymwybodol bod y sefydliad yn weithredol. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysigrwydd o sicrhau bod sefydliadau bwyd yn cydymffurfio â'r gyfraith bwyd.

Dylid rhoi sgôr i sefydliad newydd yn ystod yr arolygiad cyntaf oni bai ei fod yn bodloni'r meini prawf sy'n ei eithrio.

Mewn achosion lle mae'r gweithredwr busnes bwyd yn newid, dylid cofrestru a thrin y sefydliad fel un newydd, a dylid rhoi sgôr hylendid bwyd newydd yn ystod yr arolygiad cyntaf. Ni fydd y sgôr hylendid bwyd ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd

blaenorol yn “ddilys” wedyn, a dylid hysbysu’r gweithredwr busnes bwyd newydd i beidio â’i harddangos.

Mewn achosion lle mae’r gweithredwr busnes bwyd yn symud i safle newydd, dylai’r sefydliad newydd gael ei gofrestru gan yr awdurdod bwyd priodol a chael sgôr hylendid bwyd newydd yn ystod yr arolygiad cyntaf.

## Adran 4: Rhaglen arolygu

### 4.1 Cyflwyniad

Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo Atodiad 5 o'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)* fel y materion y mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd eu hystyried wrth baratoi ac adolygu ei raglen arolygu sefydliadau busnesau bwyd at ddibenion sgorio o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Dyma'r materion y mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd eu hystyried, ac maent wedi'u cyhoeddi gan yr ASB o dan adran 14(1) (b) o'r Ddeddf.

Y rhaglen arolygu o dan adran 2 o'r Ddeddf yw'r sylfaen ar gyfer y CSHB, felly dim ond ar ôl arolygiad o dan adran 2 y gall sefydliad gael sgôr CSHB (oni bai ei fod yn destun pontio – gweler Adran 1 o'r canllawiau hyn).

### 4.2 Rhaglen Arolygu

Wrth i'r awdurdod bwyd baratoi ac adolygu ei raglen o arolygiadau yn unol ag adran 2(1) o'r Ddeddf, mae'r Ddeddf yn nodi bod angen iddo ystyried y materion a nodwyd gan yr ASB ac a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r ASB wedi nodi Atodiad 5 o'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)* fel y materion y mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd eu hystyried wrth baratoi ac adolygu ei raglen arolygu sefydliadau busnesau bwyd at ddibenion sgorio o dan y Ddeddf.

Mae Atodiad 5 yn cynnwys materion fel y perygl posibl, y dull prosesu, y defnyddwyr sydd mewn perygl, lefel y gydymffurfiaeth a'r hyder mewn gweithdrefnau rheoli, ac fe'i defnyddir i gyfrifo amlder ymyriadau hylendid bwyd a'r rhaglen arolygiadau. Mae pa mor aml y cynhelir arolygiadau sefydliadau busnesau bwyd yn amrywio o isafswm o bob 6 mis i bob 3 blynedd, ac fe'u nodir isod:

### 4.3 Amlder ymyriadau hylendid bwyd / arolygiadau sgorio

| Categori | Isafswm amlder ymyriadau / arolygiadau |
|---|---|
| **A** | O leiaf bob chwe mis |
| **B** | O leiaf bob 12 mis |
| **C** | O leiaf bob 18 mis |
| **D** | O leiaf bob 24 mis |
| **E** | Rhaglen o strategaethau gorfodi neu ymyriadau amgen bob tair blynedd |

Caiff sefydliadau Categori E eu hystyried yn sefydliadau risg isel ac nid oes angen eu cynnwys yn y rhaglen arolygu arfaethedig. Fodd bynnag, mae'n rhaid llunio strategaeth orfodi amgen ar eu cyfer o leiaf unwaith bob 3 blynedd. Ni ellir rhoi unrhyw sgôr ar sail hunanasesiad gan y gweithredwr busnes bwyd, e.e. drwy holiadur.

## Adran 5: Defnyddio Atodiad 5 o'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)* i roi sgôr

### 5.1 Cyflwyniad

Mae'r ASB wedi mabwysiadu elfennau o feini prawf sgorio Atodiad 5 at ddibenion Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, a nodir y manylion yn yr adran hon. Dyma'r meini prawf sgorio a gyhoeddir o dan adran 14(1) (c) o'r Ddeddf.

Y rhaglen arolygu o dan adran 2 o'r Ddeddf yw'r sylfaen ar gyfer y CSHB, felly dim ond ar ôl arolygiad o dan adran 2 y gall sefydliad gael sgôr CSHB (oni bai ei fod yn destun pontio – gweler Adran 1 o'r canllawiau hyn).

Ni all unrhyw sgôr gael ei rhoi na'i newid ar sail hunanasesiad gan y gweithredwr busnes bwyd, e.e. gan holiadur.

Mae'n rhaid i'r sgôr a roddir adlewyrchu'r amodau a ganfuwyd adeg yr arolygiad, ac ni ddylai adlewyrchu'r camau unioni a roddwyd ar waith gan weithredwr busnes bwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae elfennau canlynol y 'cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd' yn berthnasol i gyfrifo'r sgôr hylendid bwyd:

- lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd (gan gynnwys arferion a gweithdrefnau trin bwyd, a rheoli tymheredd)
- lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gofynion strwythurol (gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru, cyfleusterau ac ati)
- hyder mewn gweithdrefnau rheoli

Mae'r tair elfen a restrir uchod yn ystyried y darpariaethau a restrir yn Adran 4(2) o'r Ddeddf, sydd angen eu hystyried wrth benderfynu sgôr y sefydliad busnes bwyd ar sail ei safon hylendid.

Mae'r tabl isod yn nodi canllawiau'r *Cod Ymarfer* ar sgorio at ddibenion sgorio ymyriadau ar gyfer pob un o'r tair elfen, gan ganolbwyntio ar bob sgôr o 30 i 0. Mae hefyd yn cynnwys disgrifiadau o'r safonau y byddai'n rhaid i fusnesau eu cyrraedd yn ymarferol er mwyn cyflawni'r sgoriau hyn at ddibenion sgorio ymyriadau. Mae'r siart 'grynodeb' yn crynhoi'r safonau hyn.

Dylid cyfeirio at y ddeddfwriaeth hylendid bwyd ac at Atodiad 5 o'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd* yn gyntaf wrth benderfynu ar lefel y gydymffurfiaeth, a dylai'r canllawiau hyn ddarparu cymorth os oes angen. Dylid ystyried a defnyddio canllawiau eraill lle bo hynny'n berthnasol wrth benderfynu lefel cydymffurfiaeth busnes bwyd.

Mae hyn yn cynnwys ystyried canllawiau ar ddefnyddio Erthygl 5 o Reoliad 852/2004 er mwyn penderfynu a oes angen gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd wedi'u dogfennu ar y busnes, a lefel y ddogfennaeth os yn berthnasol. Bydd lefel y ddogfennaeth yn amrywio rhwng busnesau gan ddibynnu ar y mathau o weithrediadau yr ymgymerir â nhw, pa mor gymhleth ydynt a lefel y rheoliadau a weithredir.

Mae canllawiau'r *Cod Ymarfer* ar sgorio wedi'u llunio mewn ffordd sy'n cydnabod y mesurau a roddwyd ar waith gan rai busnesau sy'n rhagori ar yr ymrwymiadau cyfreithiol. Mae busnesau o'r fath yn cael y sgoriau isaf, ac o ganlyniad, yn cael ymyriadau'n llai aml. Mae'r mesurau hyn a amlygir gan sgoriau o '0' yn cael eu nodi mewn ***testun italig coch trwm***. Dylid nodi bod sefydliad yn gallu cael y sgôr hylendid bwyd uchaf drwy gael sgôr o '5' ar gyfer pob un o'r tair elfen a ddefnyddir ar gyfer y CSHB.

Mae'n bwysig nodi mai un o'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer defnyddio Atodiad 5 yw'r ffaith y dylai swyddogion ddefnyddio'r ystod lawn o sgoriau sydd ar gael o fewn y system. Y rheswm am hyn yw y bydd y system sgorio ymyriadau yn cael ei rhwystro gan farcio gofalus neu gan amharodrwydd i gydnabod systemau rheoli effeithiol.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod y *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd* yn datgan nad bwriad hyder mewn asesu gweithdrefnau rheoli yw ailystyried materion penodol a ystyriwyd wrth asesu cydymffurfiaeth â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd a gofynion strwythurol. Fodd bynnag, mae'n gofyn am farn ar y tebygolrwydd y bydd cydymffurfiaeth foddhaol yn parhau yn y dyfodol. Un o'r ffactorau i'w ystyried yw gweithdrefnau HACCP boddhaol, ac os nad ydynt yn cael eu gweithredu'n briodol, bydd sgôr y Sefydliad Marchnata Siartredig yn cael ei heffeithio. Bydd gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd a materion strwythurol sy'n adlewyrchu diffyg cydymffurfiaeth â gweithdrefnau HACCP yn effeithio ar hyder yn y sgôr ar gyfer gweithdrefnau rheoli, ochr yn ochr â'r ffactorau eraill a nodir yn y *Cod*.

Wrth ystyried hyder mewn rheoli, mae'r term 'rheoli' yn cynnwys y system yn ei chyfanrwydd. Ar gyfer busnesau â safleoedd lluosog, mae'r system a'r gweithdrefnau rheoli ledled y cwmni yn elfen allweddol o hyn, ond mae rheoli ar lefel siop leol yn bwysig hefyd gan y bydd yn dylanwadu ar sut mae'r systemau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu defnyddio.

Mae perfformiad gwirioneddol rheolwyr yn cael ei sgorio yn Rhan 2 [Lefel o gydymffurfiaeth gyfredol] ar sail y canlyniadau a gyflawnir ac sy'n cael eu harsylwi. Dylai rheolwyr sy'n cyflawni perfformiad da o ran hylendid bwyd, sy'n cael ei ddeall yn dda gan y gweithlu, fod wedi cyflawni safon dda yn Rhan 2, ac o ganlyniad, sgôr isel am y ffactor hwnnw.

Nid yw hyder mewn rheolwyr yn golygu ailystyried agweddau sydd eisoes yn cael eu hystyried dan Ran 2 [Lefel o gydymffurfiaeth gyfredol] o Atodiad 5 i'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.* Ei ddiben yw cael *barn am y tebygolrwydd y bydd cydymffurfiaeth foddhaol yn cael ei chynnal yn y dyfodol.*

Mae'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr arolygwr yn cynnwys:

- *"hanes" y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar gyngor a chamau gorfodi blaenorol, a'i hanes o ran cwynion*
- *agwedd y rheolwyr presennol tuag at hylendid a diogelwch bwyd*
- *yr wybodaeth dechnegol am hylendid a diogelwch bwyd sydd ar gael i'r cwmni (yn fewnol neu'n allanol), gan gynnwys dadansoddiad o beryglon/HACCP a rheoli pwyntiau critigol*

Wrth ystyried “hanes” y cwmni bydd angen i swyddog ystyried ystod lawn y sgoriau sydd ar gael a bydd y sgôr a roddir am hyder mewn rheolwyr ar adeg yr arolygiad yn dibynnu ar natur y materion a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

## 5.2 Prif Awdurdod

Os oes Cytundeb Prif Awdurdod yn bodoli, dylai awdurdodau gorfodi ystyried unrhyw Gynllun Arolygu Prif Awdurdod er mwyn osgoi rhagor o asesu diangen o weithdrefnau HACCP. Fodd bynnag, dylai awdurdodau gorfodi ystyried gweithredu’r gweithdrefnau HACCP yn yr un modd ag ar gyfer busnesau ‘safle sengl’ annibynnol.

O safbwynt *Canllawiau’r diwydiant ar arferion hylendid da*, mae’n bwysig nodi bod y rhain yn cynnwys canllawiau ar gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chyngor ar arferion da.

## 5.3 Sefydliadau sy’n gysylltiedig ag achosion o wenwyn bwyd neu weithdrefnau brys

Dylai’r awdurdod bwyd ganolbwyntio ar fynd i’r afael â’r achosion neu’r sefyllfa frys nes bod yr achos wedi’i ddatrys a’r risg i iechyd y cyhoedd wedi’i dileu.

O safbwynt y CSHB, os yw’r sefydliad yn parhau i fasnachu, mae’n rhaid iddo gael sgôr o hyd. Os yw’r awdurdod lleol o’r farn nad yw’r sgôr gyfredol yn berthnasol bellach, dylid ailsgorio’r sefydliad ar adeg pan fydd hynny’n briodol yn ôl yr awdurdod lleol. Dylid seilio’r sgôr newydd ar arolygiad. Dylid hysbysu’r gweithredwr busnes bwyd am y sgôr a’i chyhoeddi yn y ffordd arferol. O safbwynt y sgôr ar gyfer hyder mewn gweithdrefnau rheoli, mae’n bwysig nodi ei bod yn seiliedig ar farn broffesiynol y swyddog arolygu sy’n rhoi ystyriaeth ddyledus i’r canllawiau yn Atodiad 5 o’r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd*, a bod y penderfyniad yn cael ei gyfiawnhau a’i gofnodi.

Os yw’r sefydliad yn rhoi’r gorau i fasnachu, neu os yw’r perchenogion yn newid, ni fydd sgôr y sefydliad yn ddilys bellach. Ni ddylai gael sgôr newydd os yw’n parhau i fod ar gau, ac ni ddylid cyhoeddi unrhyw wybodaeth am y busnes. Os a phryd mae’r sefydliad yn ailagor (a phan fydd yn cofrestru neu’n gwneud cais am gymeradwyaeth yr awdurdod bwyd lle bo hynny’n briodol) mae modd iddo gael ei arolygu a chael sgôr newydd.

## 5.4 Disgrifiad o’r safonau

Nodiadau – mae ***testun italig coch trwm*** yn dynodi ‘platio aur’ posibl.

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 25 | **Canllawiau’r Cod Ymarfer**<br>**Cyffredinol**<br>Dylai’r sgôr adlewyrchu’r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â’r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o’r DU neu’r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 25**<br>Braidd dim cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol. |
| | **Disgrifiad ymarferol o sgôr o 25**<br><br>Tystiolaeth o braidd dim cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol.<br><br>Risgiau difrifol a risgiau sydd ar fin digwydd.<br><br>Camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol yn unol â’i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o ystyried gweithdrefnau gwahardd os oes risg sydd ar fin digwydd, camau gorfodi ffurfiol parhaus ac ailymweliadau o fewn amserlen dynn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Camau dilynol wedi’u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd – mae angen camau gweithredu uniongyrchol ac arwyddocaol ar gyfer pob risg ddifrifol. Mynd i’r afael â’r holl faterion eraill yn unol ag amserlen benodedig.<br><br>Arferion hylendid bwyd gwael iawn, risgiau halogi bwyd difrifol, prosesau rheoli tymheredd annigonol ar gyfer bwydydd risg uchel. Mae angen gwelliant sylweddol ym mhob maes.<br><br>Braidd dim cydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd (e.e. tystiolaeth o groeshalogi, cadw bwyd ar y tymheredd anghywir, oergell heb fod yn gweithio ar y tymheredd cywir).<br><br>Methu â gweithredu unrhyw un o’r mesurau rheoli sydd eu hangen i atal croeshalogi.<br><br>Braidd dim cydymffurfio â’r gofynion ar gyfer paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri neu storio bwyd yn ddiogel.<br><br>Tystiolaeth o braidd dim cydymffurfio ag elfennau cydymffurfio’r canllawiau i’r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi’u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd. |

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 20 | **Canllawiau'r Cod Ymarfer**<br>**Cyffredinol**<br>Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o'r DU neu'r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 20**<br>Methiant cyffredinol i fodloni rhwymedigaethau statudol – safonau yn gyffredinol isel. |
| | **Disgrifiad ymarferol o sgôr o 20**<br>Tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ac eang â'r gofynion cyfreithiol yn ymwneud â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd.<br><br>Risgiau eang a sylweddol.<br><br>Camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol yn unol â'i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o gyflwyno camau gorfodi ffurfiol, gan gynnwys ystyried gweithdrefnau gwahardd os nad yw'r mesurau rheoli gofynnol ar waith i atal croeshalogi, ac ailymweliad â'r sefydliad i sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd – mynd i'r afael â'r holl achosion a nodwyd o ddiffyg cydymffurfio ar fyrder yn unol ag amserlen benodedig.<br><br>Safon wael o drin bwyd mewn ffordd hylan, rheoli tymheredd a hylendid personol staff. Mae angen gwelliannau sylweddol.<br><br>Llawer o'r mesurau rheoli sydd eu hangen i atal croeshalogi yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd annigonol.<br><br>Diffyg cydymffurfio sylweddol ac eang â'r gofynion ar gyfer paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri neu storio bwyd yn ddiogel (e.e. amseroedd coginio annigonol).<br><br>Tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ac eang ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd. |

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 15 | **<u>Canllawiau'r Cod Ymarfer</u>**<br>**Cyffredinol**<br>Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o'r DU neu'r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 15**<br>Diffyg cydymffurfio sylweddol â rhwymedigaethau statudol – angen mwy o ymdrech i atal safonau rhag gostwng. |
| | **<u>Disgrifiad ymarferol o sgôr o 15</u>**<br>Tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio sylweddol â'r gofynion cyfreithiol yn ymwneud â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd.<br><br>Rhai risgiau sylweddol.<br><br>Camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol yn unol â'i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o gynnwys llythyr rhybudd ac ystyried camau gorfodi ffurfiol, gan gynnwys gweithdrefnau gwahardd os nad yw'r mesurau rheoli gofynnol ar waith i atal croeshalogi, ac ailymweliad â'r sefydliad i sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd – mynd i'r afael â'r holl achosion a nodwyd o ddiffyg cydymffurfio yn unol ag amserlen benodedig.<br><br>Gall enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio gynnwys cylchdroi stoc mewn ffordd wael neu lanweithdra personol gwael.<br><br>Rhai o'r mesurau rheoli sydd eu hangen i atal croeshalogi yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd annigonol.<br><br>Diffyg cydymffurfio sylweddol â'r gofynion ar gyfer paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri neu storio bwyd yn ddiogel.<br><br>Tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd. |

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 10 | **<u>Canllawiau'r Cod Ymarfer</u>**<br>**Cyffredinol**<br>Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o'r DU neu'r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 10**<br>Peth diffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a ***chodau ymarfer argymelledig y diwydiant.*** Safonau'n cael eu cynnal neu eu gwella. |
| | **<u>Disgrifiad ymarferol o sgôr o 10</u>**<br>Tystiolaeth o rai achosion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd (h.y. nid ydynt yn arwyddocaol ond gallant ddatblygu i fod yn arwyddocaol os na chânt eu hunioni). Yn gyffredinol, mae safon cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol yn foddhaol.<br><br>Annhebygol o beri risg annerbyniol i ddefnyddwyr o safbwynt trin bwyd mewn ffordd hylan, rheoli tymheredd a hylendid personol staff, ond gall wneud hynny os nad unionir y diffyg cydymffurfio.<br><br>Camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol yn unol â'i bolisi gorfodi ond yn debygol o ystyried camau gweithredu anffurfiol (adroddiad arolygu/llythyr yn nodi'r materion). Y sefydliad yn annhebygol o fod yn flaenoriaeth ar gyfer ailymweliad.<br><br>Rhai camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd (mewn perthynas â materion nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd nac yn debygol o beri risg annerbyniol i ddefnyddwyr ond sydd â'r gallu i wneud hynny os na chânt eu hunioni) mewn perthynas ag arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff neu reoli tymheredd.<br><br>Mae safonau'n cael eu cynnal neu'n gwella.<br><br>Rhai diffygion mewn gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd wedi'u nodi (e.e. mae bwyd risg uchel yn cael ei storio mewn oergell o dan 8°C fel arfer, ond mae rhywfaint o dystiolaeth bod y tymheredd yn codi'n uwch na hyn ar adegau prysur. Rhai diffygion o ran monitro pwyntiau rheoli critigol).<br><br>Mesurau rheoli digonol ar waith i atal croehalogi.<br><br>Mae arferion paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri a storio bwyd yn foddhaol yn gyffredinol, ond gall rhai diffygion ddod i'r amlwg dros gyfnodau byr.<br><br>Tystiolaeth o gydymffurfio boddhaol cyffredinol ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd. |

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 5 | **<u>Canllawiau'r Cod Ymarfer</u>**<br>**Cyffredinol**<br>Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o'r DU neu'r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 5**<br>Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a ***chodau ymarfer argymelledig y diwydiant***, ambell enghraifft fach o dorri rheoliadau hylendid bwyd. ***Mân achosion o ddiffyg cydymffurfio â*** rhwymedigaethau statudol a ***chodau ymarfer argymelledig y diwydiant***. |
| | **<u>Disgrifiad ymarferol o sgôr o 5</u>**<br>Tystiolaeth o gydymffurfio da iawn â'r gofynion cyfreithiol, a dim ond mân achosion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd.<br><br>Dim camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol ac eithrio'r adroddiad arolygu ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd. Nid oes angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a gynlluniwyd.<br><br>Dim ond mân gamau gweithredu wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd (yn ymwneud â materion nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd) mewn perthynas ag arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff neu reoli tymheredd.<br><br>Dim ond mân ddiffygion mewn gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd (e.e. nid yw rhai dillad diogelwch yn lân iawn ac mae angen eu golchi).<br><br>Mae'r holl fesurau rheoli gofynnol ar waith i atal croeshalogi. Tystiolaeth bod bwyd yn cael ei baratoi, ei goginio, ei ailgynhesu, ei oeri a'i storio yn ddiogel.<br><br>Tystiolaeth o gydymffurfio da iawn ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd. |

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 0 | **<u>Canllawiau'r Cod Ymarfer</u>**<br>**Cyffredinol**<br>Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o'r DU neu'r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 0**<br>***Safon uchel o gydymffurfio â*** rhwymedigaethau statudol a ***chodau ymarfer argymelledig y diwydiant***; ***yn cydymffurfio ag arferion da a dderbynnir yn y diwydiant***. |
| | **<u>Disgrifiad ymarferol o sgôr o 0</u>**<br>Tystiolaeth o fodloni'r gofynion cyfreithiol ***neu ragori ar y gofynion cyfreithiol***.<br><br>Dim camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol ac eithrio'r adroddiad arolygu ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd. Nid oes angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a gynlluniwyd.<br><br>Dim camau gweithredu dilynol ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff neu reoli tymheredd.<br><br>Mae'r holl fesurau rheoli gofynnol ar waith i atal croeshalogi.<br><br>Tystiolaeth bod bwyd yn cael ei baratoi, ei goginio, ei ailgynhesu, ei oeri a'i storio yn ddiogel.<br><br>***Tystiolaeth o fodloni neu ragori ar arferion da yn y diwydiant a/neu ofynion arferion da sy'n cael eu cynnwys mewn canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd.*** |

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gofynion strwythurol | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 25 | <u>**Canllawiau'r Cod Ymarfer**</u><br>**Cyffredinol**<br>Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o'r DU neu'r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 25**<br>Braidd dim cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol. |
| | <u>**Disgrifiad ymarferol o sgôr o 25**</u><br>Tystiolaeth o braidd dim cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol.<br><br>Risgiau difrifol sydd ar fin digwydd.<br><br>Camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol yn unol â'i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o ystyried gweithdrefnau gwahardd os oes risg sydd ar fin digwydd, camau gorfodi ffurfiol parhaus ac ailymweliadau o fewn amserlen dynn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd – mae angen camau gweithredu uniongyrchol ac arwyddocaol ar gyfer pob risg ddifrifol. Mynd i'r afael â'r holl faterion eraill yn ymwneud â gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru a chyfleusterau yn unol ag amserlen benodedig.<br><br>Mae'r sefydliad a'r cyfarpar yn fudr, gyda phroblemau strwythurol sylweddol.<br><br>Gofod annigonol i weithredu'n ddiogel.<br><br>Braidd dim cydymffurfio â gofynion strwythurol (e.e. problemau â'r cyflenwad dŵr poeth neu broblemau draenio, diffyg basn golchi dwylo neu sinc hanfodol, sefydliad budr â hen weddillion bwyd ar y lloriau, budreddi ar arwynebau gwaith).<br><br>Tystiolaeth o bresenoldeb plâu eang neu ddarpariaeth gwaredu gwastraff cwbl annigonol.<br><br>Braidd dim cydymffurfio ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol. |

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gofynion strwythurol | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 20 | **<u>Canllawiau'r Cod Ymarfer</u>**<br>**Cyffredinol**<br>Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o'r DU neu'r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 20**<br>Methiant cyffredinol i fodloni rhwymedigaethau statudol – safonau yn gyffredinol isel. |
| | **<u>Disgrifiad ymarferol o sgôr o 20</u>**<br>Tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ac eang â'r gofynion cyfreithiol.<br><br>Risgiau eang a sylweddol.<br><br>Camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol yn unol â'i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o gyflwyno camau gorfodi ffurfiol, ac ailymweliad â'r sefydliad i sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd – mynd i'r afael â'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn perthynas â gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru a chyfleusterau, ar fyrder yn unol ag amserlen benodedig.<br><br>Safon wael o lanhau'r strwythur a'r cyfarpar. Gwaith cynnal a chadw gwael a chyflwr gwael. Nid yw'r holl gyfleusterau priodol ar gyfer golchi dwylo a glanhau cyfarpar wedi'u darparu.<br><br>Mae'r cynllun gwael yn debygol o arwain at groeshalogi a pheryglu diogelwch bwyd.<br><br>Diffyg cydymffurfio sylweddol ac eang â gofynion strwythurol (e.e. rhai strwythurau'n dadfeilio neu arwynebau gwaith gwael, prinder basnau golchi dwylo neu sinciau, budreddi'n ymgasglu).<br><br>Tystiolaeth o bresenoldeb plâu neu ddarpariaeth gwaredu gwastraff annigonol.<br><br>Tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ac eang ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol. |

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gofynion strwythurol | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 15 | **<u>Canllawiau'r Cod Ymarfer</u>**<br>**Cyffredinol**<br>Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o'r DU neu'r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 15**<br>Diffyg cydymffurfio sylweddol â rhwymedigaethau statudol – angen mwy o ymdrech i atal safonau rhag gostwng. |
| | **<u>Disgrifiad ymarferol o sgôr o 15</u>**<br>Tystiolaeth o rywfaint o ddiffyg cydymffurfio sylweddol â'r gofynion cyfreithiol.<br><br>Rhai risgiau sylweddol.<br><br>Camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol yn unol â'i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o gynnwys llythyr rhybudd ac ystyried camau gorfodi ffurfiol, gan roi blaenoriaeth i'r sefydliad ar gyfer ailymweliad i sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd – i fynd i'r afael â'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn perthynas â gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru a chyfleusterau golchi dwylo a chyfarpar, yn unol ag amserlen benodedig.<br><br>Mae angen gwelliannau arwyddocaol o safbwynt safon glanhau, cynnal a chadw ac atgyweirio'r strwythur a'r cyfarpar, neu o safbwynt cyfleusterau golchi dwylo a chyfarpar.<br><br>Gall cynllun gwael arwain at groeshalogi a pheryglu diogelwch bwyd.<br><br>Diffyg cydymffurfio sylweddol â gofynion strwythurol (e.e. gall rhai arwynebau gwaith fod wedi'u difrodi, rhywfaint o fudreddi arwyddocaol).<br><br>Tystiolaeth o bresenoldeb/gweithgarwch plâu neu ddarpariaeth gwaredu gwastraff annigonol.<br><br>Tystiolaeth o rywfaint o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol. |

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gofynion strwythurol | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 10 | **<u>Canllawiau'r Cod Ymarfer</u>**<br>**Cyffredinol**<br>Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o'r DU neu'r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 10**<br>Peth diffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a ***chodau ymarfer argymelledig y diwydiant***. Safonau'n cael eu cynnal neu eu gwella. |
| | **<u>Disgrifiad ymarferol o sgôr o 10</u>**<br>Tystiolaeth o rai achosion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd (h.y. nid ydynt yn arwyddocaol ond gallant ddatblygu i fod yn arwyddocaol os na chânt eu hunioni).<br><br>Annhebygol o beri risg annerbyniol i ddefnyddwyr, ond gall wneud hynny os nad unionir y diffyg cydymffurfio.<br><br>Camau gweithredu dilynol ar gyfer yr awdurdod lleol yn unol â'i bolisi gorfodi ond yn debygol o ystyried camau gweithredu anffurfiol (adroddiad arolygu/llythyr yn nodi'r materion). Y sefydliad yn annhebygol o fod yn flaenoriaeth ar gyfer ailymweliad.<br><br>Rhai camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd yn ymwneud â materion nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd (ond gallent fod os na chânt eu hunioni) mewn perthynas â gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru, cyfleusterau.<br><br>Mae safon glanhau'r strwythur a'r cyfarpar yn foddhaol yn gyffredinol. Gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio cymharol dda. Mae cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ond mae rhai enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio.<br><br>Mae safonau'n cael eu cynnal neu'n gwella.<br><br>Mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o waith atgyweirio (e.e. bydd rhai teils ar y wal ger arwyneb paratoi bwyd ar goll neu wedi'u hollti, bydd tystiolaeth bod arwynebau sy'n dod i gysylltiad â bwyd yn cael eu glanhau'n drylwyr ond ni fydd y gwaith glanhau yn ddigonol ymhob man a bydd angen ei wella).<br><br>Tystiolaeth bod plâu'n cael eu rheoli yn foddhaol (efallai y bydd angen mân brofion plâu, ond nid oes tystiolaeth o weithgarwch plâu).<br><br>Tystiolaeth o ddarpariaeth gwaredu gwastraff boddhaol (biniau taclus â chaeadau a threfniadau casglu digonol).<br><br>Tystiolaeth o gydymffurfio boddhaol cyffredinol ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol. |

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gofynion strwythurol | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 5 | **Canllawiau'r Cod Ymarfer**<br>**Cyffredinol**<br>Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o'r DU neu'r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 5**<br>Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a ***chodau ymarfer argymelledig y diwydiant***, ambell enghraifft fach o dorri rheoliadau hylendid bwyd. ***Mân achosion o ddiffyg cydymffurfio â*** rhwymedigaethau statudol a ***chodau ymarfer argymelledig y diwydiant***. |
| | **Disgrifiad ymarferol o sgôr o 5**<br>Tystiolaeth o gydymffurfio da iawn â'r gofynion cyfreithiol, a dim ond mân achosion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd.<br><br>Dim camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol ac eithrio'r adroddiad arolygu ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd. Nid oes angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a gynlluniwyd.<br><br>Dim ond mân gamau gweithredu wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd (yn ymwneud â materion nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd) mewn perthynas â gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru, cyfleusterau.<br><br>Mân atgyweiriadau yn unig sydd eu hangen (e.e. ychydig o deils wedi'u hollti ar y wal mewn ardal nad yw'n gritigol i ddiogelwch bwyd, mân ddiffygion wrth lanhau ardal anodd ei chyrraedd/anhygyrch).<br><br>Tystiolaeth bod plâu'n cael eu rheoli'n foddhaol a bod y ddarpariaeth gwaredu gwastraff yn ddigonol.<br><br>Tystiolaeth o gydymffurfio da iawn ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol. |

| Lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gofynion strwythurol | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 0 | **Canllawiau'r Cod Ymarfer**<br>**Cyffredinol**<br>Dylai'r sgôr adlewyrchu'r gydymffurfiaeth a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r arweiniad a roddir isod. ***Dylid ystyried ymlyniad at unrhyw Ganllaw Ymarfer Hylendid Da perthnasol i'r diwydiant o'r DU neu'r UE wrth asesu cydymffurfiaeth. Bydd hefyd angen cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol perthnasol neu godau ymarfer argymelledig y diwydiant i gael sgôr o 0 neu 5.***<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 0**<br>***Safon uchel o gydymffurfio â*** rhwymedigaethau statudol a ***chodau ymarfer argymelledig y diwydiant***; ***yn cydymffurfio ag arferion da a dderbynnir yn y diwydiant***. |
| | **Disgrifiad ymarferol o sgôr o 0**<br>Tystiolaeth o fodloni'r gofynion cyfreithiol ***neu ragori ar y gofynion cyfreithiol***.<br><br>Dim camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol ac eithrio'r adroddiad arolygu ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd. Nid oes angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a gynlluniwyd.<br><br>Dim camau gweithredu dilynol wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd o safbwynt gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru, cyfleusterau.<br><br>Nid oes angen unrhyw atgyweiriadau ac ni nodwyd unrhyw welliannau posibl, neu mae gweithdrefnau cadarn ar waith i wneud mân atgyweiriadau yn rheolaidd.<br><br>Mae'r safle a'r cyfarpar yn lân ac mewn cyflwr da.<br><br>Tystiolaeth bod plâu'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod darpariaeth gwaredu gwastraff effeithiol ar waith.<br><br>***Tystiolaeth o fodloni neu ragori ar arferion da yn y diwydiant a/neu ofynion arferion da sy'n cael eu cynnwys mewn canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol.*** |

| Hyder mewn gweithdrefnau rheoli | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 30 | **Canllawiau'r Cod Ymarfer**<br>**Cyffredinol**<br>Mae perfformiad gwirioneddol rheolwyr yn cael ei sgorio yn Rhan 2 [Lefel o gydymffurfiaeth gyfredol] ar sail y canlyniadau a gyflawnir ac sy'n cael eu harsylwi. Dylai rheolwyr sy'n cyflawni perfformiad da o ran hylendid bwyd, sy'n cael ei ddeall yn dda gan y gweithlu, fod wedi cyflawni safon dda yn Rhan 2, ac o ganlyniad, sgôr isel am y ffactor hwnnw.<br><br>Nid yw hyder mewn rheolwyr yn golygu ailystyried yr agwedd hon. Ei ddiben yw ***cael barn am y tebygolrwydd y bydd cydymffurfiaeth foddhaol yn cael ei chynnal yn y dyfodol.***<br><br>Mae'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr arolygwr yn cynnwys:<br>• ***"hanes" y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar gyngor a chamau gorfodi blaenorol, a'i hanes o ran cwynion***<br>• ***agwedd y rheolwyr presennol tuag at hylendid a diogelwch bwyd***<br>• ***yr wybodaeth dechnegol am hylendid a diogelwch bwyd sydd ar gael i'r cwmni (yn fewnol neu'n allanol), gan gynnwys dadansoddiad o beryglon/HACCP a rheoli pwyntiau critigol***<br>• gweithdrefnau boddhaol sy'n seiliedig ar HACCP<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 30**<br>Hanes gwael o gydymffurfio. Fawr ddim gwybodaeth dechnegol os o gwbl. Fawr ddim gwerthfawrogiad o beryglon na rheoli ansawdd os o gwbl. Dim gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd. |

| Hyder mewn gweithdrefnau rheoli | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| | **<u>Disgrifiad ymarferol o sgôr o 30</u>**<br>Mae camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol yn debygol o gynnwys gweithdrefnau gwahardd os oes risg sydd ar fin digwydd ynghyd â chamau gorfodi ffurfiol parhaus, gan ddefnyddio dull gweithredu graddol yn unol â pholisi gorfodi'r awdurdod lleol. Caiff y sefydliad ailymweliad o fewn amserlen dynn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd – mae angen camau gweithredu uniongyrchol ac arwyddocaol ar gyfer pob risg ddifrifol. Mynd i'r afael â'r holl faterion eraill yn ymwneud â datblygu prosesau rheoli/gweithdrefnau diogelwch bwyd, goruchwylio, cyfarwyddyd a hyfforddiant yn unol ag amserlen benodedig.<br><br>Dim tystiolaeth o reoli diogelwch bwyd/gweithdrefnau wedi'u dogfennu fel sy'n briodol ar gyfer maint a natur y busnes (e.e. SFBB), gan ystyried yr hyblygrwydd sy'n deillio o Erthygl 5 o Reoliad (EC) 852/2004 yn ymwneud â hylendid bwyd a Dogfen Ganllaw gysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd ar *Weithredu gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a hwyluso egwyddorion HACCP mewn rhai busnesau bwyd*.<br><br>Nid yw peryglon arwyddocaol yn cael eu deall ac nid oes unrhyw reolaethau effeithiol ar waith.<br><br>Mae angen gwelliannau sylweddol mewn gweithdrefnau diogelwch bwyd/gweithredu rheolaethau.<br><br>Nid oes unrhyw weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd, neu maent yn gwbl annigonol.<br><br>Nid yw staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi ym maes hylendid bwyd ac nid ydynt yn gwerthfawrogi peryglon neu reolaethau bwyd.<br><br>Nid yw staff perthnasol wedi cael hyfforddiant digonol mewn gweithredu egwyddorion HACCP.<br><br>Hanes gwael, rhywfaint o dystiolaeth o broblemau blaenorol o bosibl. |

| Hyder mewn gweithdrefnau rheoli | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 20 | **Canllawiau'r Cod Ymarfer**<br>**Cyffredinol**<br>Mae perfformiad gwirioneddol rheolwyr yn cael ei sgorio yn Rhan 2 [Lefel o gydymffurfiaeth gyfredol] ar sail y canlyniadau a gyflawnir ac sy'n cael eu harsylwi. Dylai rheolwyr sy'n cyflawni perfformiad da o ran hylendid bwyd, sy'n cael ei ddeall yn dda gan y gweithlu, fod wedi cyflawni safon dda yn Rhan 2, ac o ganlyniad, sgôr isel am y ffactor hwnnw.<br><br>Nid yw hyder mewn rheolwyr yn golygu ailystyried yr agwedd hon. Ei ddiben yw ***cael barn am y tebygolrwydd y bydd cydymffurfiaeth foddhaol yn cael ei chynnal yn y dyfodol.***<br><br>Mae'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr arolygwr yn cynnwys:<br>• ***"hanes" y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar gyngor a chamau gorfodi blaenorol, a'i hanes o ran cwynion***<br>• ***agwedd y rheolwyr presennol tuag at hylendid a diogelwch bwyd***<br>• ***yr wybodaeth dechnegol am hylendid a diogelwch bwyd sydd ar gael i'r cwmni (yn fewnol neu'n allanol), gan gynnwys dadansoddiad o beryglon/HACCP a rheoli pwyntiau critigol***<br>• gweithdrefnau boddhaol sy'n seiliedig ar HACCP<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 20**<br>Hanes amrywiol o ran cydymffurfio. Gwerthfawrogiad gwael o beryglon a mesurau rheoli. Dim system rheoli diogelwch bwyd. |
| | **Disgrifiad ymarferol o sgôr o 20**<br>Mae camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol yn debygol o gyflwyno camau gorfodi ffurfiol, gan ddefnyddio dull gweithredu graddol yn unol â pholisi gorfodi'r awdurdod lleol, ac ailymweliad â'r sefydliad i sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd – mynd i'r afael â'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn perthynas â datblygu prosesau rheoli/gweithdrefnau diogelwch bwyd, goruchwylio, cyfarwyddyd a hyfforddiant, ar fyrder yn unol ag amserlen benodedig.<br><br>Mae rheoli diogelwch bwyd/gweithdrefnau wedi'u dogfennu yn amhriodol neu'n annigonol ar gyfer maint a natur y busnes (e.e. SFBB), gan ystyried yr hyblygrwydd sy'n deillio o Erthygl 5 o Reoliad (EC) 852/2004 yn ymwneud â hylendid bwyd a Dogfen Ganllaw gysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd ar *Weithredu gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a hwyluso egwyddorion HACCP mewn rhai busnesau bwyd*.<br><br>Nid yw peryglon arwyddocaol yn cael eu deall yn llawn ac nid yw'r holl reolaethau ar waith.<br><br>Mae angen gwelliannau sylweddol mewn gweithdrefnau diogelwch bwyd/gweithredu rheolaethau.<br><br>Nid yw rhai staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi'n briodol ym maes hylendid bwyd.<br><br>Nid yw staff perthnasol wedi cael hyfforddiant digonol mewn gweithredu egwyddorion HACCP.<br><br>Hanes amrywiol, rhywfaint o dystiolaeth o broblemau blaenorol o bosibl. |

| Hyder mewn gweithdrefnau rheoli | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 10 | **<u>Canllawiau'r Cod Ymarfer</u>**<br>**Cyffredinol**<br>Mae perfformiad gwirioneddol rheolwyr yn cael ei sgorio yn Rhan 2 [Lefel o gydymffurfiaeth gyfredol] ar sail y canlyniadau a gyflawnir ac sy'n cael eu harsylwi. Dylai rheolwyr sy'n cyflawni perfformiad da o ran hylendid bwyd, sy'n cael ei ddeall yn dda gan y gweithlu, fod wedi cyflawni safon dda yn Rhan 2, ac o ganlyniad, sgôr isel am y ffactor hwnnw.<br><br>Nid yw hyder mewn rheolwyr yn golygu ailystyried yr agwedd hon. Ei ddiben yw ***cael barn am y tebygolrwydd y bydd cydymffurfiaeth foddhaol yn cael ei chynnal yn y dyfodol.***<br><br>Mae'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr arolygwr yn cynnwys:<br>• ***"hanes" y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar gyngor a chamau gorfodi blaenorol, a'i hanes o ran cwynion***<br>• ***agwedd y rheolwyr presennol tuag at hylendid a diogelwch bwyd***<br>• ***yr wybodaeth dechnegol am hylendid a diogelwch bwyd sydd ar gael i'r cwmni (yn fewnol neu'n allanol), gan gynnwys dadansoddiad o beryglon/HACCP a rheoli pwyntiau critigol***<br>• gweithdrefnau boddhaol sy'n seiliedig ar HACCP<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 10**<br>Hanes boddhaol o gydymffurfio. ***Cyngor technegol ar gael naill ai'n fewnol, neu gan gymdeithasau masnach a/neu mewn Canllawiau Arfer Da ac yn cael ei ddilyn.*** Dealltwriaeth o beryglon sylweddol a mesurau rheoli ar waith. Gwneud cynnydd boddhaol tuag at system/gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd wedi'u dogfennu sy'n gymesur â'r math o fusnes. |

| Hyder mewn gweithdrefnau rheoli | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| | **<u>Disgrifiad ymarferol o sgôr o 10</u>**<br>Camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol yn unol â'i bolisi gorfodi sy'n debygol o ystyried camau gweithredu anffurfiol (adroddiad arolygu/llythyr yn nodi'r materion). Y sefydliad yn annhebygol o fod yn flaenoriaeth ar gyfer ailymweliad.<br><br>Rhai camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd mewn perthynas â datblygu a chwblhau gweithdrefnau wedi'u dogfennu sy'n gymesur â maint a natur y busnes a lle nad yw'r materion yn gritigol i ddiogelwch bwyd ond gallent fod os na chânt eu hunioni, ac nid ydynt yn debygol o beri risg annerbyniol i ddefnyddwyr.<br><br>Yn gyffredinol, mae rheolaethau diogelwch bwyd boddhaol ar waith sy'n briodol i faint a natur y busnes, ac mae cynnydd boddhaol yn cael ei wneud gan ystyried yr hyblygrwydd sy'n deillio o Erthygl 5 o Reoliad (EC) 852/2004 yn ymwneud â hylendid bwyd a Dogfen Ganllaw gysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd ar *Weithredu gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a hwyluso egwyddorion HACCP mewn rhai busnesau bwyd*.<br><br>Mae'r holl beryglon arwyddocaol yn cael eu deall ac mae rheolaethau ar waith.<br><br>Yn gyffredinol, mae gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn cynnwys pob gweithgaredd yn foddhaol, ond mae angen rhywfaint o waith datblygu/cwblhau pellach.<br><br>Yn gyffredinol, mae cofnodion rheoli diogelwch bwyd sy'n briodol ar gyfer maint a natur y busnes yn cael eu cadw, ond nodwyd rhai diffygion/bylchau.<br><br>Yn gyffredinol, mae staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi yn briodol ym maes hylendid bwyd, ond mae'n bosibl y bydd rhai problemau bach e.e. nid yw pob aelod o staff yn gwbl ymwybodol o'r materion.<br><br>Mae staff perthnasol wedi cael hyfforddiant digonol mewn gweithredu egwyddorion HACCP.<br><br>Hanes boddhaol, ond ni ddylai busnesau newydd neu fusnesau cyfredol y mae eu hamgylchiadau wedi newid (e.e. rheolwyr newydd) gael eu cosbi ar sail eu hanes os oes ganddynt weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd ar waith. Gall hyn gynnwys busnesau cyfredol â hanes blaenorol da ond â rhai mân ddiffygion diweddar. |

| Hyder mewn gweithdrefnau rheoli | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 5 | <u>**Canllawiau'r Cod Ymarfer**</u><br>**Cyffredinol**<br>Mae perfformiad gwirioneddol rheolwyr yn cael ei sgorio yn Rhan 2 [Lefel o gydymffurfiaeth gyfredol] ar sail y canlyniadau a gyflawnir ac sy'n cael eu harsylwi. Dylai rheolwyr sy'n cyflawni perfformiad da o ran hylendid bwyd, sy'n cael ei ddeall yn dda gan y gweithlu, fod wedi cyflawni safon dda yn Rhan 2, ac o ganlyniad, sgôr isel am y ffactor hwnnw.<br><br>Nid yw hyder mewn rheolwyr yn golygu ailystyried yr agwedd hon. Ei ddiben yw ***cael barn am y tebygolrwydd y bydd cydymffurfiaeth foddhaol yn cael ei chynnal yn y dyfodol.***<br><br>Mae'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr arolygwr yn cynnwys:<br>• ***"hanes" y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar gyngor a chamau gorfodi blaenorol, a'i hanes o ran cwynion***<br>• ***agwedd y rheolwyr presennol tuag at hylendid a diogelwch bwyd***<br>• ***yr wybodaeth dechnegol am hylendid a diogelwch bwyd sydd ar gael i'r cwmni (yn fewnol neu'n allanol), gan gynnwys dadansoddiad o beryglon/HACCP a rheoli pwyntiau critigol***<br>• gweithdrefnau boddhaol sy'n seiliedig ar HACCP<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 5**<br>Hanes rhesymol o ran cydymffurfio. ***Cyngor technegol ar gael yn fewnol a mynediad i, a'r defnydd o gyngor technegol gan gymdeithasau masnach a/neu mewn Canllawiau Arfer Da***. Mae ganddynt weithdrefnau boddhaol wedi'u dogfennu. Yn gallu arddangos rheolaeth effeithiol o beryglon. Bydd ganddynt weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol wedi'u dogfennu. Archwiliad gan yr Awdurdod Bwyd yn cadarnhau bod cydymffurfiaeth gyffredinol gyda gweithdrefnau. |

| Hyder mewn gweithdrefnau rheoli | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| | **<u>Disgrifiad ymarferol o sgôr o 5</u>**<br>Dim camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol ac eithrio'r adroddiad arolygu ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd. Nid oes angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a gynlluniwyd.<br><br>Dim ond mân gamau gweithredu dilynol (heb fod yn gritigol i ddiogelwch bwyd) wedi'u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd yn ymwneud â'r system rheoli diogelwch bwyd (e.e. mân broblemau ynglŷn â chadw cofnodion sy'n cael eu datrys gan y rheolwyr).<br><br>Mae prosesau rheoli/gweithdrefnau diogelwch bwyd ar waith sy'n briodol i faint a natur y busnes (e.e. SFBB), gan ystyried yr hyblygrwydd sy'n deillio o Erthygl 5 o Reoliad (EC) 852/2004 yn ymwneud â hylendid bwyd a Dogfen Ganllaw gysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd ar *Weithredu gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a hwyluso egwyddorion HACCP mewn rhai busnesau bwyd*.<br><br>Mae peryglon yn cael eu deall, eu rheoli a'u hadolygu yn briodol gyda thystiolaeth ategol.<br><br>Mae gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn cynnwys pob gweithgaredd yn ddigonol.<br><br>Yn gyffredinol, mae cofnodion rheoli diogelwch bwyd sy'n briodol ar gyfer maint a natur y busnes yn cael eu cadw – ond gyda rhai diffygion/bylchau.<br><br>Mae cyngor technegol ar gael yn fewnol neu fynediad i, a'r defnydd o gyngor technegol gan gymdeithasau masnach, ffynonellau eraill fel swyddog gorfodi'r awdurdod lleol a/neu Ganllawiau Arfer Da.<br><br>Mae staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi'n briodol ym maes hylendid bwyd. Mae gwybodaeth gyffredinol staff yn dda ac mae aelodau staff newydd yn cael hyfforddiant cynefino.<br><br>Mae staff perthnasol wedi cael hyfforddiant digonol mewn gweithredu egwyddorion HACCP.<br><br>Hanes da, ond ni ddylai busnesau newydd neu fusnesau cyfredol y mae eu hamgylchiadau wedi newid (e.e. rheolwyr newydd) gael eu cosbi ar sail eu hanes os oes ganddynt weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd ar waith. |

| Hyder mewn gweithdrefnau rheoli | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| 0 | **<u>Canllawiau'r Cod Ymarfer</u>**<br>**Cyffredinol**<br>Mae perfformiad gwirioneddol rheolwyr yn cael ei sgorio yn Rhan 2 [Lefel o gydymffurfiaeth gyfredol] ar sail y canlyniadau a gyflawnir ac sy'n cael eu harsylwi. Dylai rheolwyr sy'n cyflawni perfformiad da o ran hylendid bwyd, sy'n cael ei ddeall yn dda gan y gweithlu, fod wedi cyflawni safon dda yn Rhan 2, ac o ganlyniad, sgôr isel am y ffactor hwnnw.<br><br>Nid yw hyder mewn rheolwyr yn golygu ailystyried yr agwedd hon. Ei ddiben yw ***cael barn am y tebygolrwydd y bydd cydymffurfiaeth foddhaol yn cael ei chynnal yn y dyfodol.***<br><br>Mae'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr arolygwr yn cynnwys:<br>• ***"hanes" y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar gyngor a chamau gorfodi blaenorol, a'i hanes o ran cwynion***<br>• ***agwedd y rheolwyr presennol tuag at hylendid a diogelwch bwyd***<br>• ***yr wybodaeth dechnegol am hylendid a diogelwch bwyd sydd ar gael i'r cwmni (yn fewnol neu'n allanol), gan gynnwys dadansoddiad o beryglon/HACCP a rheoli pwyntiau critigol***<br>• gweithdrefnau boddhaol sy'n seiliedig ar HACCP<br><br>**Arweiniad penodol ar sgôr o 0**<br>Hanes da o gydymffurfio. ***Cyngor technegol ar gael o fewn y sefydliad.*** Bydd ganddynt weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol wedi'u dogfennu sy'n seiliedig ar HACCP a ***all fod yn destun archwiliad allanol***. Archwiliad gan yr Awdurdod Bwyd yn cadarnhau bod cydymffurfio â'r gweithdrefnau wedi'u dogfennu, gydag ychydig/mân achosion o ddiffyg cydymffurfio nas nodwyd yn y system eu bod yn bwyntiau rheoli critigol. |

| Hyder mewn gweithdrefnau rheoli | |
|---|---|
| **Sgôr** | **Arweiniad/Disgrifiad** |
| | **<u>Disgrifiad ymarferol o sgôr o 0</u>**<br>Dim camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod lleol ac eithrio’r adroddiad arolygu ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd. Nid oes angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a gynlluniwyd.<br><br>Dim camau gweithredu dilynol wedi’u nodi ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd o safbwynt gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd.<br><br>Mae prosesau rheoli/gweithdrefnau diogelwch bwyd ar waith sy’n briodol i faint a natur y busnes (e.e. SFBB), gan ystyried yr hyblygrwydd sy’n deillio o Erthygl 5 o Reoliad (EC) 852/2004 yn ymwneud â hylendid bwyd a Dogfen Ganllaw gysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd ar *Weithredu gweithdrefnau sy’n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a hwyluso egwyddorion HACCP mewn rhai busnesau bwyd*.<br><br>***Archwiliad allanol o weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd.***<br><br>Mae peryglon yn cael eu deall, eu rheoli a’u hadolygu yn briodol gyda thystiolaeth ategol.<br><br>Mae gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn cynnwys pob gweithgaredd yn ddigonol.<br><br>Mae cofnodion rheoli diogelwch bwyd sy’n briodol ar gyfer maint a natur y busnes yn cael eu cadw.<br><br>***Mynediad i gyngor technegol o fewn y sefydliad.***<br><br>Mae’r holl staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi’n briodol ym maes hylendid bwyd.<br><br>Mae staff perthnasol wedi cael hyfforddiant mewn gweithredu egwyddorion HACCP.<br><br>Hanes da iawn, ond ni ddylai busnesau newydd neu fusnesau cyfredol y mae eu hamgylchiadau wedi newid (e.e. rheolwyr newydd) gael eu cosbi ar sail eu hanes os oes ganddynt weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd ar waith. |

## Sgoriau Atodiad 5 y Cod Ymarfer – ‘crynodeb’

| Sgôr | Safonau | | | Cydymffurfiaeth | Risg i iechyd y cyhoedd | Camau gweithredu’r gweithredwr busnes bwyd | Camau gweithredu’r Awdurdod Lleol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hylendid | Strwythur | Hyder mewn Rheoli | | | | |
| 25<br>Hyder mewn rheoli = 30 | Arferion hylendid bwyd gwael iawn, risgiau halogi bwyd difrifol, prosesau rheoli tymheredd annigonol ar gyfer bwydydd risg uchel. Mae angen gwelliant sylweddol ym mhob maes.<br><br>Methu â gweithredu unrhyw un o’r mesurau rheoli sydd eu hangen i atal croeshalogi.<br><br>Braidd dim cydymffurfio â’r gofynion ar gyfer paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri neu storio bwyd yn ddiogel. | Braidd dim cydymffurfio â gofynion strwythurol.<br><br>Gofod annigonol i weithredu’n ddiogel.<br><br>Tystiolaeth o bresenoldeb plâu eang neu ddarpariaeth gwaredu gwastraff cwbl annigonol. | Dim tystiolaeth o reoli diogelwch bwyd/gweithdrefnau wedi’u dogfennu.<br><br>Nid yw peryglon arwyddocaol yn cael eu deall ac nid oes unrhyw reolaethau effeithiol ar waith.<br><br>Nid yw staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi yn briodol ac nid ydynt yn gwerthfawrogi peryglon neu reolaethau bwyd.<br><br>Hanes gwael. | Braidd dim cydymffurfiaeth. | Risgiau difrifol sydd ar fin digwydd. | Mae angen camau gweithredu uniongyrchol ac arwyddocaol ar gyfer pob risg ddifrifol.<br><br>Mynd i’r afael â’r holl faterion eraill o fewn amserlen benodedig. | Yn unol â pholisi gorfodi’r awdurdod lleol gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o ystyried gweithdrefnau gwahardd os oes risg sydd ar fin digwydd, camau gorfodi ffurfiol parhaus ac ailymweliadau o fewn amserlen dynn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. |

| Sgôr | Safonau | | | Cydymffurfiaeth | Risg i iechyd y cyhoedd | Camau gweithredu'r gweithredwr busnes bwyd | Camau gweithredu'r Awdurdod Lleol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hylendid | Strwythur | Hyder mewn Rheoli | | | | |
| 20 | Safon wael o drin bwyd mewn ffordd hylan, rheoli tymheredd a hylendid personol staff. Mae angen gwelliannau sylweddol.<br><br>Llawer o'r mesurau rheoli sydd eu hangen i atal croeshalogi yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd annigonol.<br><br>Diffyg cydymffurfio sylweddol ac eang â'r gofynion ar gyfer paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri neu storio bwyd yn ddiogel. | Diffyg cydymffurfio sylweddol ac eang â'r gofynion strwythurol.<br><br>Mae'r cynllun gwael yn debygol o arwain at groeshalogi a pheryglu diogelwch bwyd.<br><br>Tystiolaeth o bresenoldeb plâu neu ddarpariaeth gwaredu gwastraff annigonol. | Mae rheoli diogelwch bwyd/gweithdrefnau wedi'u dogfennu yn amhriodol neu'n annigonol.<br><br>Nid yw peryglon arwyddocaol yn cael eu deall yn llawn ac nid yw'r holl reolaethau ar waith.<br><br>Mae angen gwelliannau sylweddol mewn gweithdrefnau diogelwch bwyd/gweithredu rheolaethau.<br><br>Nid yw rhai staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi'n briodol.<br><br>Hanes amrywiol. | Diffyg cydymffurfio sylweddol ac eang. | Risgiau eang a sylweddol. | Mynd i'r afael â'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn unol ag amserlen benodedig. | Yn unol â pholisi gorfodi'r awdurdod lleol gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o gyflwyno camau gorfodi ffurfiol, gan gynnwys ystyried gweithdrefnau gwahardd os nad yw'r mesurau rheoli gofynnol ar waith i atal croeshalogi, ac ailymweliad â'r sefydliad i sicrhau cydymffurfiaeth. |

| Sgôr | Safonau | | | Cydymffurfiaeth | Risg i iechyd y cyhoedd | Camau gweithredu'r gweithredwr busnes bwyd | Camau gweithredu'r Awdurdod Lleol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Hylendid** | **Strwythur** | **Hyder mewn Rheoli** | | | | |
| 15 | Rhai o'r mesurau rheoli sydd eu hangen i atal croeshalogi yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd annigonol.<br><br>Diffyg cydymffurfio sylweddol â'r gofynion ar gyfer paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri neu storio bwyd yn ddiogel. | Mae angen gwelliannau arwyddocaol o safbwynt safon glanhau, cynnal a chadw ac atgyweirio'r strwythur a'r cyfarpar, ac o safbwynt cyfleusterau golchi dwylo a chyfarpar.<br><br>Gall cynllun gwael arwain at groeshalogi a pheryglu diogelwch bwyd.<br><br>Diffyg cydymffurfio sylweddol â gofynion strwythurol (e.e. gall rhai arwynebau gwaith fod wedi'u difrodi, rhywfaint o fudreddi arwyddocaol).<br><br>Tystiolaeth o bresenoldeb/ gweithgarwch plâu neu ddarpariaeth gwaredu gwastraff annigonol. | Amherthnasol. | Rhywfaint o ddiffyg cydymffurfio sylweddol. | Rhai risgiau arwyddocaol. | Mynd i'r afael â'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn unol ag amserlen benodedig. | Yn unol â pholisi gorfodi'r awdurdod lleol gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o gynnwys llythyr rhybudd ac ystyried camau gorfodi ffurfiol, gan gynnwys gweithdrefnau gwahardd os nad yw'r mesurau rheoli gofynnol ar waith i atal croeshalogi, ac ailymweliad â'r sefydliad i sicrhau cydymffurfiaeth. |

| Sgôr | Safonau | | | Cydymffurfiaeth | Risg i iechyd y cyhoedd | Camau gweithredu'r gweithredwr busnes bwyd | Camau gweithredu'r Awdurdod Lleol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Hylendid** | **Strwythur** | **Hyder mewn Rheoli** | | | | |
| 10 | Mae safonau'n cael eu cynnal neu'n gwella.<br><br>Rhai diffygion mewn gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd.<br><br>Mesurau rheoli digonol ar waith i atal croehalogi.<br><br>Mae arferion paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri a storio bwyd yn foddhaol yn gyffredinol, ond gall rhai diffygion ddod i'r amlwg dros gyfnodau byr. | Mae safon glanhau'r strwythur a'r cyfarpar yn foddhaol yn gyffredinol. Gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio cymharol dda. Mae cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ond mae rhai enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio.<br><br>Mae safonau'n cael eu cynnal neu'n gwella.<br><br>Mae'n bosibl y bydd angen rhywfaint o waith atgyweirio.<br><br>Tystiolaeth bod plâu'n cael eu rheoli yn foddhaol.<br><br>Tystiolaeth o ddarpariaeth gwaredu gwastraff foddhaol. | Yn gyffredinol, mae rheolaethau diogelwch bwyd boddhaol ar waith.<br><br>Mae'r holl beryglon arwyddocaol yn cael eu deall ac mae rheolaethau ar waith.<br><br>Yn gyffredinol, mae cofnodion rheoli diogelwch bwyd yn cael eu cadw, ond nodwyd rhai diffygion/bylchau.<br><br>Yn gyffredinol, mae staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi yn briodol, ond mae'n bosibl y bydd rhai problemau bach.<br><br>Hanes boddhaol. | Tystiolaeth o rai enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd (h.y. nid ydynt yn arwyddocaol ond gallent fod os na chânt eu hunioni). | Ni nodwyd unrhyw risgiau annerbyniol. | Rhai camau dilynol mewn perthynas â materion nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd (h.y. nid ydynt yn arwyddocaol ond gallent fod os na chânt eu hunioni). | Yn unol â pholisi gorfodi'r awdurdod lleol ond yn debygol o ystyried camau gweithredu anffurfiol (adroddiad arolygu/llythyr yn nodi'r materion). Y sefydliad yn annhebygol o fod yn flaenoriaeth ar gyfer ailymweliad. |

| Sgôr | Safonau | | | Cydymffurfiaeth | Risg i iechyd y cyhoedd | Camau gweithredu’r gweithredwr busnes bwyd | Camau gweithredu’r Awdurdod Lleol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Hylendid** | **Strwythur** | **Hyder mewn Rheoli** | | | | |
| 5 | Dim ond mân ddiffygion mewn gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd.<br><br>Mae’r holl fesurau rheoli gofynnol ar waith i atal croeshalogi.<br><br>Tystiolaeth bod bwyd yn cael ei baratoi, ei goginio, ei ailgynhesu, ei oeri a’i storio yn ddiogel. | Mân atgyweiriadau yn unig sydd eu hangen.<br><br>Tystiolaeth bod plâu’n cael eu rheoli’n foddhaol a bod y ddarpariaeth gwaredu gwastraff yn ddigonol. | Mae prosesau rheoli/gweithdrefnau diogelwch bwyd ar waith.<br><br>Mae peryglon yn cael eu deall, eu rheoli a’u hadolygu yn briodol.<br><br>Mae cofnodion rheoli diogelwch bwyd yn cael eu cadw’n briodol yn gyffredinol.<br><br>Mae staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi’n briodol. Mae gwybodaeth gyffredinol staff yn dda ac mae aelodau staff newydd yn cael hyfforddiant cynefino.<br><br>Hanes da. | Da iawn. Dim ond rhai mân enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd. | Dim risgiau wedi’u nodi. | Dim ond mân gamau gweithredu dilynol yn ymwneud â materion nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd. | Yr adroddiad arolygu ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd. |

| Sgôr | Safonau | | | Cydymffurfiaeth | Risg i iechyd y cyhoedd | Camau gweithredu'r gweithredwr busnes bwyd | Camau gweithredu'r Awdurdod Lleol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hylendid | Strwythur | Hyder mewn Rheoli | | | | |
| 0 | Mae'r holl fesurau rheoli gofynnol ar waith i atal croeshalogi.<br><br>Tystiolaeth bod bwyd yn cael ei baratoi, ei goginio, ei ailgynhesu, ei oeri a'i storio yn ddiogel. | Nid oes angen unrhyw atgyweiriadau ac ni nodwyd unrhyw welliannau posibl, neu mae gweithdrefnau cadarn ar waith i wneud mân atgyweiriadau yn rheolaidd.<br><br>Mae'r safle a'r cyfarpar yn lân ac mewn cyflwr da.<br><br>Tystiolaeth bod plâu'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod darpariaeth gwaredu gwastraff effeithiol ar waith. | Mae prosesau rheoli/gweithdrefnau diogelwch bwyd ar waith.<br><br>Mae peryglon yn cael eu deall, eu rheoli a'u hadolygu yn briodol.<br><br>Mae cofnodion rheoli diogelwch bwyd yn cael eu cadw'n briodol.<br><br>Mae'r holl staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi'n briodol.<br><br>Hanes da iawn. | Yn bodloni'r gofynion cyfreithiol neu'n rhagori arnynt. | Dim risgiau wedi'u nodi. | Dim camau wedi'u nodi. | Yr adroddiad arolygu ar gyfer y gweithredwr busnes bwyd. |

## Adran 6: Mapio sgoriau Atodiad 5 i'r sgôr hylendid bwyd

### 6.1 Cyflwyniad

Mae elfennau canlynol y 'cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd' yn Atodiad 5 o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) yn berthnasol i gyfrifo'r sgôr hylendid bwyd yn dilyn arolygiad: lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd (gan gynnwys arferion a gweithdrefnau trin bwyd, a rheoli tymheredd), lefel o gydymffurfiaeth (gyfredol) â gofynion strwythurol (gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru, cyfleusterau ac ati), a hyder mewn gweithdrefnau rheoli.

Mae pob elfen yn cael sgôr rifiadol yn erbyn y meini prawf perthnasol ar sail yr arweiniad a roddir yn y Cod ac yn Adran 5 o'r ddogfen hon.

### 6.2 Mapio sgoriau Atodiad 5 i chwe sgôr hylendid bwyd y CSHB

Mae sgoriau rhifiadol Atodiad 5 yn cael eu 'mapio' wedyn i'r chwe sgôr hylendid bwyd sy'n amrywio o '0' ar y gwaelod i'r sgôr uchaf '5'. Dylai pob busnes allu cyflawni'r sgôr uchaf drwy wneud dim mwy na chydymffurfio â'r gyfraith hylendid bwyd.

Mae'r sgôr yn dibynnu ar y lefel gyffredinol o gydymffurfiaeth – cyfanswm sgôr Atodiad 5 – ond mae hefyd yn adlewyrchu'r lefel o gydymffurfiaeth ar gyfer pob maes unigol drwy ystyried y sgôr uchaf o'r tri sgôr – y ffactor sgorio ychwanegol.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r broses fapio.


**Mapio sgoriau rhifiadol y cynllun sgorio ymyriadau yn Atodiad 5 o'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd* i chwe sgôr hylendid bwyd y CSHB**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm sgoriau Atodiad 5 | 0 – 15 | 20 | 25 – 30 | 35 – 40 | 45 – 50 | > 50 |
| Ffactor sgorio ychwanegol | Dim sgôr unigol dros 5 | Dim sgôr unigol dros 10 | Dim sgôr unigol dros 10 | Dim sgôr unigol dros 15 | Dim sgôr unigol dros 20 | – |
| Sgôr hylendid bwyd | 0 1 2 3 4 **5** | 0 1 2 3 **4** 5 | 0 1 2 **3** 4 5 | 0 1 **2** 3 4 5 | 0 **1** 2 3 4 5 | **0** 1 2 3 4 5 |
| Disgrifydd | Da iawn | Da | Boddhaol ar y cyfan | Angen gwella | Angen gwella yn sylweddol | Angen gwella ar frys |

Felly, os yw sgôr Atodiad 5 unigol yn fwy na'r ffactor sgorio ychwanegol, bydd sgôr y sefydliad yn disgyn i lawr y raddfa i'r sgôr lle nad yw'n fwy na'r ffactor sgorio ychwanegol bellach. Dangosir hyn yn yr enghreifftiau isod.

| Sgoriau Atodiad 5 unigol | Cyfanswm sgôr Atodiad 5 | Sgôr uchaf – ffactor sgorio ychwanegol | Sgôr hylendid bwyd |
|---|---|---|---|
| 5, 5, 5 | 15 | 5 | 5 |
| 0, 5, 10 | 15 | 10 | 4 |
| 5, 5, 20 | 30 | 20 | 1 |

Nod brand y CSHB yw dangos y sgoriau mewn ffordd hawdd ei deall a'i defnyddio gan ddefnyddwyr, fel y dangosir isod.



## Adran 7: Hysbysiad o sgôr hylendid bwyd

### 7.1 Cyflwyniad

Ar ôl arolygiad, mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd anfon gwybodaeth am y sgôr hylendid bwyd at y gweithredwr busnes bwyd.

### 7.2 Pryd mae angen anfon hysbysiad?

Mae'n rhaid anfon hysbysiad ar ffurf ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod i ddyddiad yr arolygiad. Mae nifer y 'dyddiau' yn cynnwys penwythnosau a gwyliau banc.

Os yw'r term "anfon" yn cael ei ddefnyddio, bydd diffiniad Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol. Yn ôl y diffiniad hwn, ystyrir bod hysbysiad "wedi'i anfon" drwy gyfeirio, rhagdalu am, a phostio llythyr sy'n cynnwys y ddogfen, ac oni cheir prawf i'r gwrthwyneb, bod hynny wedi'i gyflawni ar adeg pan fyddai'r llythyr wedi'i ddosbarthu fel rhan o drefn arferol y system bost.

O safbwynt busnesau sydd â mwy nag un safle, mae'n rhaid i awdurdodau bwyd sicrhau bod yr hysbysiad a'r sticer(i) yn cael eu hanfon i'r sefydliad lleol a bod yr hysbysiad yn cael ei anfon i'r brif swyddfa hefyd.

### 7.3 Gwybodaeth sy'n cyd-fynd â hysbysiad

Mae'n rhaid anfon yr wybodaeth ganlynol at y gweithredwr busnes bwyd ynghyd â'r hysbysiad ysgrifenedig:

- copi o'r adroddiad arolygu a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r sgôr. Mewn achosion lle na roddwyd y sgôr uchaf, manylion y camau sydd eu hangen mewn perthynas â phob un o'r meini prawf sgorio, cyn y gellid rhoi'r sgôr uchaf

- y sticer(i) hylendid bwyd ar gyfer y sgôr a gyflawnwyd a gwybodaeth am y gofyniad i arddangos y sgôr

- manylion ynglŷn â phryd, ble a sut y cyhoeddir y sgôr

- manylion y weithdrefn apelio, gan gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
  - enw a manylion cyswllt y swyddog a wnaeth yr arolygiad
  - o fewn pa gyfnod y bydd rhaid gwneud apêl
  - sut i gael ffurflen ar gyfer gwneud apêl
  - enw a manylion cyswllt yr unigolyn y mae'n rhaid anfon y ffurflen apêl ato ar ôl ei llenwi
  - y broses a ddefnyddir i benderfynu ar yr apêl a rhoi gwybod i'r gweithredwr busnes bwyd am y penderfyniad

- gwybodaeth am "hawl i ymateb" y gweithredwr busnes bwyd, gan gynnwys enw a manylion cyswllt yr unigolyn y mae'n rhaid anfon y sylwadau ato, a

manylion y broses ar gyfer anfon sylwadau i'r ASB a'u cyhoeddi ar y wefan – www.food.gov.uk/ratings. Mae ffurflenni templed ar gael ar gyfer cyflwyno "hawl i ymateb". Gweler Adran 9 am ragor o wybodaeth

- gwybodaeth am sut i wneud cais am arolygiad at ddiben ailsgorio, a bod modd gwneud cais ar unrhyw adeg. Gwybodaeth am sut i gael copi o'r ffurflen i wneud cais ac at bwy y dylid anfon y ffurflen ar ôl ei chwblhau. Manylion costau'r arolygiad, a sut a phryd y mae angen eu talu. Gweler Adran 10 am ragor o wybodaeth

- datganiad sy'n hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd am yr amgylchiadau pan fydd y sgôr a'r sticer yn peidio â bod yn ddilys. Gweler Adran 11 o'r canllawiau hyn

## 7.4 Cyflwyno'r Wybodaeth

Mae'n rhaid cyflwyno'r rhesymau am sgôr y sefydliad ar gyfer pob un o'r tair elfen a aseswyd – hylendid, strwythur a hyder mewn gweithdrefnau rheoli. Mewn achosion lle na roddwyd y sgôr uchaf, mae'n rhaid cynnwys manylion y camau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r gyfraith (a'r sgôr uchaf y gellir ei rhoi). Mae copi o adroddiad safonol wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Mae'r ASB wedi llunio taflen safonol hefyd i gyd-fynd â'r hysbysiad. Mae'r daflen yn cynnwys llawer o'r wybodaeth sydd ei hangen i gyd-fynd â'r hysbysiad – gan gynnwys gwybodaeth am apelio, hawl i ymateb, cyhoeddi sgoriau, arddangos sticeri a gwneud cais am ailsgorio. Fodd bynnag, bydd rhaid i bob hysbysiad gynnwys gwybodaeth benodol am yr awdurdod bwyd a'r sefydliad busnes bwyd. Mae copi o'r daflen – Mae'n Dod yn Haws Adnabod Hylendid Bwyd yng Nghymru – ar gael drwy www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/wales-business-leaflet-fhrs.pdf

## Adran 8: Apelio

### 8.1 Cyflwyniad

Er mwyn sicrhau tegwch i fusnesau, mae'n rhaid i awdurdodau bwyd sefydlu gweithdrefn apelio fel bod gweithredwyr busnesau bwyd yn gallu cwestiynu'r sgôr hylendid bwyd a roddwyd i'w sefydliad os ydynt o'r farn ei bod yn annheg.

Dangosir y weithdrefn apelio yn y siart llif ym mhwynt 8.7 isod. Yn y bôn, os yw gweithredwr busnes bwyd yn credu bod y sgôr hylendid bwyd a roddwyd gan y 'swyddog arolygu' (h.y. y swyddog a oedd yn gyfrifol am yr arolygiad) yn annheg, gall y gweithredwr busnes bwyd apelio ar un o'r seiliau a nodir yn adran 5 o'r Ddeddf. Nodir y seiliau hyn yn 8.2 isod.

Gall gweithredwr busnes bwyd apelio ar ôl ailarolygiad os yw'n credu bod y sgôr hylendid bwyd 'newydd' yn annheg. Mae'r seiliau'r un fath ar gyfer pob apêl.

Os yw'r gweithredwr busnes bwyd yn anghytuno â'r sgôr a roddwyd ond nad yw wedi gwneud apêl yn y ffordd a ragnodir, gall y swyddog arolygu ddatrys unrhyw anghytundeb ynglŷn â'r sgôr hylendid bwyd mewn ffordd anffurfiol drwy egluro sut y cafodd y sgôr ei phenderfynu. Dylid atgoffa'r gweithredwr busnes bwyd am ei hawl i apelio. Fodd bynnag, dylid annog gweithredwyr busnesau bwyd i drafod unrhyw broblemau gyda'r swyddog arolygu cyn gwneud apêl, a dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys y broblem yn y cyfnod hwnnw.

### 8.2 Pryd a sut i wneud apêl

Mae'n rhaid cyflwyno'r apêl yn ysgrifenedig ar y ffurflen ragnodedig o fewn 21 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad. Ceir manylion am y ffurflen ragnodedig yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau, ac mae copi ar gael yn Atodiad 2 i'r ddogfen ganllaw hon.

Mae'r weithdrefn apelio yn berthnasol os yw'r gweithredwr busnes bwyd yn credu bod y sgôr a roddwyd yn annheg. Gall y gweithredwr busnes bwyd apelio ar un o'r seiliau canlynol:

- nid yw'r sgôr yn adlewyrchiad priodol o'r safonau hylendid bwyd yn y sefydliad adeg yr arolygiad, neu
- ni chafodd y meini prawf sgorio eu cymhwyso'n gywir wrth gynhyrchu'r sgôr hylendid bwyd

**Nid** yw apêl yn briodol mewn amgylchiadau lle mae gweithredwr busnes bwyd wedi gofyn am arolygiad ailsgorio ar y sail bod achos(ion) o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd adeg yr arolygiad gwreiddiol wedi'u hunioni bellach. Fodd bynnag, gall gweithredwr busnes bwyd apelio ar ôl ailarolygiad os yw'n credu bod y sgôr hylendid bwyd newydd a roddwyd yn annheg.

Os yw'r gweithredwr busnes bwyd wedi cyflwyno apêl ysgrifenedig ar y ffurflen ragnodedig, dylai'r apêl gael ei hystyried gan swyddog awdurdodedig na chyfrannodd at asesu'r sgôr sy'n destun apêl.

Dan rai amgylchiadau, gall ymweliad arall â'r sefydliad fod yn briodol. Bydd hyn yn dibynnu ar natur y problemau a nodwyd ac a oes modd gwneud penderfyniad ar sail y gwaith papur sy'n gysylltiedig â'r ymyriad a'r sgôr hylendid bwyd a roddwyd. Er enghraifft, gall ymweliad â'r sefydliad fod yn ddefnyddiol er mwyn penderfynu a yw basn golchi dwylo mewn "lle addas".

## 8.3 Hysbysu am ganlyniad apêl

Mae'n rhaid dod i benderfyniad ynglŷn â'r apêl a hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd am y penderfyniad o fewn 21 diwrnod i ddyddiad derbyn yr apêl. Bydd angen i'r awdurdod bwyd ystyried beth yw'r ffordd orau o gofnodi apeliadau a dderbyniwyd.

Yn dilyn penderfyniad yr apêl, mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd hysbysu'r ASB am ei benderfyniad o fewn 21 diwrnod i ddyddiad derbyn yr apêl. Os penderfynir newid y sgôr hylendid bwyd, mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd anfon copi o hysbysiad y sgôr hylendid bwyd newydd i'r ASB, ynghyd â'r rhesymau am sgôr y sefydliad.

Dylid anfon yr wybodaeth hon i:

Tîm Gweithredu a Chefnogi'r Awdurdodau Lleol
Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Neu mewn e-bost i: fhrs.wales@foodstandards.gsi.gov.uk

## 8.4 Hysbysu am apêl

Os yw'r awdurdod bwyd yn penderfynu newid y sgôr, mae'n rhaid anfon yr wybodaeth ganlynol i'r ASB ynghyd â'r hysbysiad ysgrifenedig:

- copi o'r adroddiad arolygu a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r sgôr. Mewn achosion lle na roddwyd y sgôr uchaf, manylion y camau sydd eu hangen mewn perthynas

â phob un o'r meini prawf sgorio, cyn y gellid rhoi'r sgôr uchaf. Gall hyn olygu y bydd angen diwygio adroddiad yr arolygiad gwreiddiol

- y sticer(i) hylendid bwyd ar gyfer y sgôr a gyflawnwyd a gwybodaeth am y gofyniad i arddangos y sgôr

- manylion ynglŷn â phryd, ble a sut y cyhoeddir y sgôr

- gwybodaeth am "hawl i ymateb" y gweithredwr busnes bwyd, gan gynnwys enw a manylion cyswllt yr unigolyn y mae'n rhaid anfon y sylwadau ato, a manylion y broses ar gyfer anfon sylwadau i'r ASB a'u cyhoeddi ar y wefan – www.food.gov.uk/ratings. Mae ffurflenni templed ar gael ar gyfer cyflwyno "hawl i ymateb" (gweler Adran 9 am ragor o wybodaeth)

- gwybodaeth am sut i wneud cais am arolygiad at ddiben ailsgorio, a bod modd gwneud cais ar unrhyw adeg. Gwybodaeth am sut i gael copi o'r ffurflen i wneud cais ac at bwy y dylid anfon y ffurflen ar ôl ei chwblhau. Manylion costau'r arolygiad, a sut a phryd y mae angen eu talu

- datganiad sy'n hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd am yr amgylchiadau pan fydd y sgôr a'r sticer yn peidio â bod yn ddilys. Gweler Adran 11 o'r canllawiau hyn

## 8.5 Arddangos sgôr sy'n destun apêl

Ni fydd y sgôr yn cael ei harddangos ar wefan yr ASB food.gov.uk/ratings yn ystod y cyfnod apelio 21 diwrnod. Os cyflwynir apêl, bydd y ddelwedd 'I'w gyhoeddi'n fuan' (gweler isod) yn cael ei harddangos nes bod yr apêl yn cael ei phenderfynu.




Ni fydd y sgôr yn "ddilys" nes bod yr apêl wedi'i phenderfynu a'r gweithredwr wedi'i hysbysu am y canlyniad. Cyhoeddir y sgôr hylendid bwyd drwy food.gov.uk/ratings ar ôl i'r gweithredwr busnes bwyd gael ei hysbysu am ganlyniad yr apêl.

Ar ôl i'r gweithredwr busnes bwyd gael ei hysbysu am y sgôr hylendid bwyd newydd, anfonir sticer newydd gyda'r hysbysiad o'r sgôr newydd. Dylai'r gweithredwr busnes bwyd ddinistrio'r sticer "annilys" blaenorol a chael ei atgoffa bod parhau i arddangos sticer annilys yn drosedd a all arwain at Gosb Benodedig o hyd at £200. Dim ond un sgôr – y sgôr ddilys – y gellir ei harddangos ar unrhyw adeg (gweler hefyd Adran 11 ar arddangos).

Os na chyflwynir unrhyw apêl, bydd y sgôr yn "ddilys" ar ôl i'r cyfnod 21 diwrnod ddod i ben. Bydd angen arddangos sticer y sgôr wedyn yn unol â rheoliad 9, a chyhoeddir y sgôr drwy food.gov.uk/ratings.


## 8.6 Os yw'r gweithredwr busnes bwyd yn anghytuno â chanlyniad yr apêl

Os yw'r gweithredwr busnes bwyd yn anghytuno â phenderfyniad yr awdurdod bwyd ynglŷn â'r apêl (a allai fod i gymeradwyo'r sgôr wreiddiol neu ei newid i sgôr is), a/neu'n anghytuno â'r weithdrefn a ddefnyddiodd yr awdurdod bwyd i wneud ei benderfyniad, gallai'r gweithredwr busnes bwyd wneud cais i gyflwyno achos adolygiad barnwrol yn erbyn yr awdurdod bwyd.

Gallai'r gweithredwr busnes bwyd hefyd droi at weithdrefn gwyno'r awdurdod bwyd (gan gynnwys mynd â'r mater i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol lle bo hynny'n briodol) os yw'n credu nad yw gwasanaeth cyngor wedi'i ddarparu'n gywir.

Er nad yw'n rhan o weithdrefn apelio'r cynllun, gall y gweithredwr busnes bwyd barhau i ddefnyddio gweithdrefn gwyno ffurfiol yr awdurdod bwyd os yw'n anfodlon ag unrhyw agwedd ar wasanaethau'r awdurdod.

## 8.7 Siart llif yn dangos y weithdrefn apelio




**Nodiadau**

Mae unrhyw gyfeiriad at nifer y 'dyddiau' yn cynnwys penwythnosau a gwyliau banc.

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i weithdrefn gwyno'r awdurdod lleol ffurfio rhan o weithdrefn apelio'r CSHB. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro gweithredwr busnes bwyd rhag defnyddio'r weithdrefn gwyno os yw'n anfodlon ag unrhyw agwedd ar wasanaethau'r awdurdod.

## Adran 9: Hawl i ymateb

### 9.1 Cyflwyniad

Mae Adran 11 o'r Ddeddf yn diogelu gweithredwyr busnesau bwyd ymhellach drwy'r 'hawl i ymateb'. Mae hyn yn gyfle i weithredwyr busnesau bwyd wneud sylwadau ar sgôr y sefydliad a'u galluogi i egluro eu camau gweithredu ers derbyn eu sgôr hylendid bwyd, neu nodi a oedd unrhyw amgylchiadau penodol adeg yr arolygiad a allai fod wedi effeithio ar y sgôr.

### 9.2 Yr 'hawl i ymateb'

Mae gan weithredwyr busnesau bwyd 'hawl i ymateb' a allai gael ei chyhoeddi ar wefan yr ASB, food.gov.uk/ratings. Gellid cyhoeddi'r sylwadau 'hawl i ymateb' ynghyd â'r sgôr y mae'r sylwadau'n cyfeirio ati. Gall gweithredwr busnes bwyd gyflwyno ei sylwadau 'hawl i ymateb' ar unrhyw adeg pan fo'r sgôr yn ddilys, p'un ai a yw wedi cyflwyno apêl ai peidio. Bydd yr 'hawl i ymateb' yn aros ar y wefan nes bod sgôr hylendid bwyd newydd yn cael ei rhoi.

Diben yr hawl i ymateb yw galluogi'r gweithredwr busnes bwyd i egluro'r camau gweithredu sy'n deillio o'r arolygiad lle rhoddwyd y sgôr neu roi unrhyw wybodaeth am amgylchiadau penodol adeg yr arolygiad, yn hytrach na chwyno neu feirniadu'r CSHB neu'r 'swyddog arolygu'.

Mae'n rhaid cyflwyno sylwadau 'hawl i ymateb' i'r awdurdod bwyd ar ffurf ysgrifenedig. Mae ffurflen dempled safonol y gall gweithredwyr busnesau bwyd ei defnyddio i gyflwyno 'hawl i ymateb' ar gael yn Atodiad 3 o'r ddogfen ganllaw hon. Nid yw'n ofynnol defnyddio'r ffurflen hon, a gall gweithredwr busnes bwyd gyflwyno ei sylwadau mewn fformat ysgrifenedig gwahanol, wedi'i farcio'n glir fel ei sylwadau 'hawl i ymateb'. Cyhoeddir y testun gan yr ASB drwy food.gov.uk/ratings.

Mae unrhyw hawl i ymateb sy'n cynnwys sylwadau tramgwyddus, difenwol, anghywir neu amherthnasol yn annerbyniol. Mewn achosion o'r fath, hysbysir y gweithredwr busnes bwyd nad yw'r testun yn cyflawni diben yr 'hawl i ymateb', a gofynnir iddo ddiwygio'r testun.

## Adran 10: Cais am arolygiad at ddibenion ailsgorio

### 10.1 Cyflwyniad

Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd sefydlu gweithdrefn i gynnal arolygiadau ar gais y gweithredwr busnes bwyd ar gyfer ailasesu sgôr hylendid bwyd sefydliad.

Mae'r system arolygiadau ailsgorio yn seiliedig ar geisiadau ac yn berthnasol i achosion lle mae'r gweithredwr busnes bwyd wedi cytuno i dalu costau rhesymol arolygiad ailsgorio, yn unol ag amodau penodol.

Fel rhan o'r hysbysiad a anfonir at weithredwr busnes bwyd yn dilyn arolygiad, mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd am ei hawl i wneud cais am arolygiad ailsgorio, gan gynnwys gwybodaeth am sut i gael copi o'r ffurflen i wneud cais ac at bwy y dylid anfon y ffurflen ar ôl ei llenwi, manylion costau'r arolygiad, a sut a phryd y mae angen eu talu. (Gweler Adran 7 am ragor o wybodaeth).

Diben y Canllawiau hyn yw amlinellu'r weithdrefn ar gyfer ymdrin yn benodol ag arolygiadau sy'n deillio o gais y gweithredwr busnes bwyd at ddiben ailsgorio, ac nid arolygiadau a gynhelir fel rhan o'r camau gorfodi dilynol arferol. Bydd polisi ailymweliadau'r awdurdod bwyd yn berthnasol i ymweliadau gorfodi dilynol.

Os yw ymweliad sy'n deillio o gais yn cynnwys arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad, mae'r Canllawiau'n nodi bod swyddog yr awdurdod bwyd yn gallu newid sgôr ymyriad yn unol â darpariaethau *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru)*. Weithiau bydd yn briodol newid sgôr ymyriad, ond ni fydd yn briodol bob amser. Bydd angen penderfynu pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun. Bydd angen i'r swyddog ddefnyddio barn broffesiynol wrth wneud penderfyniad, gan gofnodi'r rhesymau am y penderfyniad.

### 10.2 Cais am arolygiad at ddibenion ailsgorio

Cyn bod modd cynnal arolygiad at ddibenion ailsgorio, mae'n rhaid i'r gweithredwr busnes bwyd wneud cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen ragnodedig (gall hyn gynnwys anfon y ffurflen drwy e-bost). Mae'n rhaid i'r gweithredwr busnes bwyd fod wedi talu costau rhesymol yr arolygiad ailsgorio ymlaen llaw, (oni fydd yr awdurdod bwyd wedi ymatal rhag gofyn am dalu'r costau hynny ymlaen llaw, fel y darperir ar ei gyfer yn adran 12(6) o'r Ddeddf, ac os felly, ceir talu'r costau ar ôl cwblhau'r arolygiad ailsgorio) ac mae'n rhaid bodloni'r amodau canlynol:

- mae unrhyw apêl yn erbyn y sgôr bresennol wedi ei phenderfynu
- mae'r gweithredwr wedi hysbysu'r awdurdod am y gwelliannau gofynnol sydd wedi'u gwneud yn y sefydliad
- mae'r awdurdod bwyd o'r farn ei bod yn rhesymol arolygu ac ailasesu'r sefydliad, gan ystyried y gwelliannau sydd wedi'u gwneud
- mae sticer hylendid bwyd cyfredol yn cael ei arddangos yn y sefydliad

- mae'r gweithredwr busnes bwyd wedi cytuno i roi mynediad i'r awdurdod er mwyn cynnal yr arolygiad

Gall y gweithredwr busnes bwyd wneud cais am arolygiad at ddiben ailsgorio ar unrhyw adeg. Nid oes cyfyngiad ar nifer y ceisiadau y gall y gweithredwr busnes bwyd eu gwneud, ond mae'n rhaid bodloni'r holl amodau cyn y gellir cynnal arolygiad at ddibenion ailsgorio.

### 10.3 Gwybodaeth i gefnogi cais am arolygiad at ddibenion ailsgorio

Dylai'r cais am arolygiad amlinellu'r achos ar gyfer arolygiad ailsgorio, h.y. dylai nodi camau gweithredu'r gweithredwr busnes bwyd i unioni'r achos(ion) o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd, gan gynnwys tystiolaeth ategol lle bo hynny'n briodol.

Dylai'r achos ategol gyfeirio at y camau gweithredu yr oedd angen i'r gweithredwr busnes bwyd eu rhoi ar waith yn ôl yr awdurdod bwyd er mwyn gwella'r lefel o gydymffurfiaeth â'r gyfraith, a gallai gynnwys eitemau fel ffotograffau o waith a gwblhawyd, copïau o dystysgrifau hyfforddiant ac ati.

### 10.4 Cais am arolygiad at ddibenion ailsgorio lle nad yw amodau'n cael eu bodloni

Os nad yw'r achos a gyflwynir gan y gweithredwr busnes bwyd yn bodloni'r amodau gofynnol, gall yr awdurdod bwyd wrthod cais i gynnal arolygiad ailasesu ar y sail honno. Wrth wneud hynny, dylai'r awdurdod bwyd egluro, ar ffurf ysgrifenedig, pam y mae'n gwrthod y cais ar hyn o bryd, gan ailddatgan yr amodau sydd angen eu bodloni, gan gynnwys y camau sydd angen eu rhoi ar waith er mwyn gwella'r lefel o gydymffurfiaeth â'r gyfraith. Yn ogystal, dylai'r awdurdod bwyd nodi pa dystiolaeth sydd ei hangen cyn i arolygiad ailsgorio gael ei gynnal ar gais pellach. Dylid hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd am ei hawl i ailgyflwyno cais ar unrhyw adeg, ond ni chynhelir arolygiad ailsgorio oni fodlonir yr holl amodau.

Os yw'r gweithredwr busnes bwyd yn anghytuno â phenderfyniad yr awdurdod bwyd i wrthod cais am ailymweliad, gall y gweithredwr busnes bwyd droi at weithdrefn gwyno'r awdurdod bwyd, neu ofyn am adolygiad barnwrol yn y pen draw.

### 10.5 Pryd a sut y dylid cynnal arolygiad at ddibenion ailsgorio?

Os yw'r gweithredwr busnes bwyd wedi gwneud cais ysgrifenedig drwy ddefnyddio'r ffurflen ragnodedig, wedi cytuno i dalu costau rhesymol yr arolygiad ailsgorio, ac wedi bodloni'r amodau (gweler 10.2), mae'n rhaid cynnal yr arolygiad o fewn 3 mis i'r awdurdod bwyd dderbyn y cais.

Yn benodol, os yw'r gwelliannau a wnaed yn ymwneud â hyder mewn gweithdrefnau rheoli, byddai'n rhesymol cynnal yr arolygiad ailsgorio tua diwedd y cyfnod 3 mis er mwyn profi bod y gwelliannau wedi'u gweithredu a'u cynnal yn llawn.

Dylai’r arolygiad fod yn un dirybudd lle bo hynny’n bosibl. Fel egwyddor gyffredinol, dylid cynnal arolygiadau heb roi rhybudd ymlaen llaw, ac eithrio mewn achosion lle mae angen rhoi rhybudd ymlaen llaw.

Ni ddylid rhoi sgôr hylendid bwyd newydd ar sail tystiolaeth ddogfennol yn unig. Bydd angen cynnal arolygiad cyn rhoi ailsgôr.

Os yw cais yn cael ei dderbyn gan weithredwr busnes bwyd sydd i fod i gael arolygiad o fewn 3 mis i dderbyn y cais, dylid hysbysu’r gweithredwr busnes bwyd am y ffaith honno. Dylai’r awdurdod bwyd hysbysu’r gweithredwr busnes bwyd bod ymweliad wedi’i drefnu o fewn y 3 mis nesaf, ond ni ddylai ddatgelu dyddiad arfaethedig yr arolygiad. Dylai’r gweithredwr busnes bwyd gael y dewis o fwrw ymlaen â’r arolygiad ailsgorio y gwnaeth gais amdano neu dynnu’r cais yn ôl ac aros am yr arolygiad sydd wedi’i drefnu.

## 10.6 <u>Safonau hylendid adeg yr arolygiad at ddibenion ailsgorio</u>

Adeg yr arolygiad, dylai swyddog yr awdurdod bwyd asesu’r lefel o gydymffurfiaeth gyffredinol yn ogystal â chadarnhau bod y gwelliannau gofynnol wedi’u gwneud. Mae hyn yn golygu y gallai’r sgôr hylendid bwyd gynyddu, gostwng neu aros yn ei hunfan os yw hynny’n briodol yn ôl swyddog yr awdurdod bwyd.

## 10.7 <u>Hysbysu am ailsgorio</u>

Yn dilyn arolygiad at ddibenion ailsgorio, mae’n rhaid i’r awdurdod bwyd hysbysu’r gweithredwr busnes bwyd am y canlyniad, p’un ai a yw’r sgôr wedi newid neu wedi aros yr un fath. Mae’n rhaid anfon yr hysbysiad ar ffurf ysgrifenedig, o fewn 14 diwrnod i ddyddiad yr arolygiad.

Os yw’r awdurdod bwyd yn penderfynu newid y sgôr, mae’n rhaid anfon yr wybodaeth ganlynol i’r gweithredwr busnes bwyd ynghyd â’r hysbysiad ysgrifenedig:

- copi o’r adroddiad arolygu a ddefnyddiwyd i gyfrifo’r sgôr. Mewn achosion lle na roddwyd y sgôr uchaf, manylion y camau sydd eu hangen mewn perthynas â phob un o’r meini prawf sgorio, cyn y gellid rhoi’r sgôr uchaf
- y sticer(i) hylendid bwyd ar gyfer y sgôr a gyflawnwyd a gwybodaeth am y gofyniad i arddangos y sgôr
- manylion ynglŷn â phryd, ble a sut y cyhoeddir y sgôr
- manylion y weithdrefn apelio, gan gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
    - enw a manylion cyswllt y swyddog a wnaeth yr arolygiad
    - o fewn pa gyfnod y bydd rhaid gwneud apêl
    - sut i gael ffurflen ar gyfer gwneud apêl
    - enw a manylion cyswllt yr unigolyn y mae’n rhaid anfon y ffurflen apêl ato ar ôl ei llenwi

- y broses a ddefnyddir i benderfynu ar yr apêl a rhoi gwybod i'r gweithredwr busnes bwyd am y penderfyniad

- gwybodaeth am "hawl i ymateb" y gweithredwr busnes bwyd, gan gynnwys enw a manylion cyswllt yr unigolyn y mae'n rhaid anfon y sylwadau ato, a manylion y broses ar gyfer anfon sylwadau i'r ASB a'u cyhoeddi ar y wefan – www.food.gov.uk/ratings. Mae ffurflenni templed ar gael ar gyfer cyflwyno "hawl i ymateb". Gweler Adran 9 am ragor o wybodaeth

- gwybodaeth am sut i wneud cais am arolygiad at ddiben ailsgorio, a bod modd gwneud cais ar unrhyw adeg. Gwybodaeth am sut i gael copi o'r ffurflen i wneud cais ac at bwy y dylid anfon y ffurflen ar ôl ei chwblhau. Manylion costau'r arolygiad, a sut a phryd y mae angen eu talu

- datganiad sy'n hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd am yr amgylchiadau pan fydd y sgôr a'r sticer yn peidio â bod yn ddilys – gweler Adran 11 ar Arddangos

### 10.8 Pwerau mynediad / awdurdodi ar gyfer arolygiad ar sail cais at ddibenion ailsgorio

Drwy wneud cais, mae'r gweithredwr busnes bwyd wedi cytuno i sicrhau y bydd yr awdurdod bwyd yn cael mynediad i gynnal arolygiad o'r sefydliad at ddiben ailsgorio. Bydd gan swyddogion bwerau mynediad hefyd yn sgil awdurdodi o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.

Fodd bynnag, dylid nodi bod y swyddog yn parhau i gael ei awdurdodi o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, ac at hynny mae ganddo bwerau mynediad a phwerau i roi camau gorfodi ar waith o dan y ddeddfwriaeth lle bo hynny'n briodol.

## Adran 11: Arddangos sticeri sgoriau hylendid bwyd

### 11.1 <u>Cyflwyniad</u>

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr busnes bwyd arddangos sticer sgôr hylendid bwyd a ddarparwyd gan yr awdurdod bwyd.

Mae’n rhaid i’r sticer ddangos sgôr hylendid bwyd ddilys y sefydliad, a chael ei arddangos wrth, neu gerllaw, pob mynedfa i’r sefydliad.

### 11.2 <u>Y Sticer Sgorio Hylendid Bwyd</u>

Diffinnir natur sticer y CSHB yn y rheoliadau.

Maint y sticeri rhagnodedig yw 190mm (o led) x 158mm (o uchder) gyda thestun dwyieithog Cymraeg/Saesneg yn dangos sgôr rhwng 0 a 5. Mae’r sticeri a ragnodwyd yn y rheoliadau yn wahanol i’r rhai a ddarperir o dan y cynllun anstatudol oherwydd eu bod yn cynnwys logo Llywodraeth Cymru.

Dangosir y sticeri isod:




Yn ogystal â’r 6 sticer sgorio rhagnodedig, bydd yr ASB yn parhau i ddarparu sticer ar gyfer busnesau nad ydynt wedi’u sgorio eto.

Gall sticer ‘aros am sgôr’ gael ei roi <u>ar gais y gweithredwr busnes bwyd</u>. Dyma enghreifftiau o rai o’r amgylchiadau lle y gall sticer gael ei roi:

- Pan fo sefydliad ‘newydd’ wedi’i gofrestru.

- Pan fo’r gweithredwr busnes bwyd yn newid ac mae angen cofrestru’r sefydliad a’i drin fel sefydliad ‘newydd’.

Y nod yw sicrhau tegwch i fusnesau a chynorthwyo dealltwriaeth defnyddwyr.

Dim ond yr awdurdod bwyd sydd â’r hawl i gyhoeddi sticeri sgoriau, ac o ganlyniad, dim ond awdurdodau bwyd sy’n gallu archebu sticeri. Dylai awdurdodau bwyd sicrhau bod cyflenwadau o sticeri yn cael eu cadw mewn lle diogel a hysbysu’r ASB am unrhyw sticeri sy’n cael eu colli. Mae gwybodaeth am sut mae awdurdodau bwyd yn gallu archebu’r sticeri i’w gweld yn 11.9 isod.

Dylai awdurdodau bwyd ychwanegu’r wybodaeth ganlynol ar <u>ochr arall</u> y sticeri sy’n ‘ludiog ar y tu blaen’:

- enw’r busnes
- dyddiad y sgôr hylendid NEU’r dyddiad cyhoeddi ar gyfer sefydliadau sy’n ‘aros am sgôr’
- enw’r awdurdod bwyd
- llofnod awdurdodi (y swyddog arolygu neu swyddog arall sydd â chyfrifoldeb am lofnodi ar ran yr awdurdod bwyd)

Gall yr awdurdod bwyd ychwanegu sticer/stamp â’i logo ei hun yng nghornel dde uchaf <u>ochr arall</u> y sticer os yw’n dymuno.

## 11.3 <u>Pryd y dylai sticeri gael eu rhoi</u>

Mae’n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gael eu hysbysu am eu sgôr o fewn 14 diwrnod i ddyddiad yr arolygiad. Gweler Adran 7 – Hysbysiad o sgôr hylendid bwyd.

Lle bo’r sgôr yn cael ei hysbysu, dylai’r sticer newydd gael ei roi gyda’r hysbysiad o’r sgôr. Bydd y sticer hwn yn ddilys a rhaid ei arddangos o fewn 21 diwrnod o’i dderbyn neu ar ôl penderfynu ar unrhyw apêl a hysbysu’r gweithredwr busnes bwyd o’r canlyniad. Yna ni ddylai’r gweithredwr busnes bwyd arddangos unrhyw sticer ar gyfer y sgôr flaenorol a dylai ddinistrio sticer o’r fath. Dylid ei atgoffa y bydd parhau i arddangos sticer blaenorol yn drosedd o dan y Ddeddf. Dim ond un sgôr – y sgôr ddilys – y gellir ei harddangos ar unrhyw adeg.

## 11.4 <u>Lleoliad a dull arddangos</u>

Mae’n rhaid i’r awdurdod bwyd ddarparu sticer(i) ar gyfer pob sefydliad sy’n derbyn sgôr fel rhan o’r CSHB, a rhaid i’r sticer gael ei arddangos wrth neu gerllaw pob mynedfa iddo. Rhaid arddangos y sgôr mewn man amlwg yn y sefydliad, lle y gall cwsmeriaid ei darllen yn hawdd cyn mynd i mewn pan mae ar agor ar gyfer busnes.

Mae’r rheoliadau’n nodi bod rhaid arddangos sticer:

- ar ffenestr sy’n rhan o’r fynedfa berthnasol, neu
- ar ffenestr allanol yn gyfagos i’r fynedfa berthnasol, neu

- oddi mewn i’r sefydliad, ond fel bod modd ei ddarllen drwy ffenestr o’r fath, neu
- os nad oes ffenestr o’r fath, yn rhywle arall wrth y fynedfa/mynedfeydd perthnasol neu gerllaw iddi/iddynt, neu
- pan nad oes arwyneb ar gael sy’n addas ar gyfer arddangos y sticer, ar fur neu arwyneb arall lle y gall cwsmeriaid ei ddarllen yn hawdd

Os oes gan y sefydliad **fynedfeydd lluosog**, mae’n rhaid i’r awdurdod bwyd roi sticer i’r busnes ar gyfer pob mynedfa i gwsmeriaid. Mae dau fath o sticer ar gael – “gludiog ar y tu blaen” a “gludiog ar y tu ôl”.

Gall busnes “**gyrru trwodd”** fod yn enghraifft o sefydliad sydd â mynedfeydd lluosog. Byddai angen arddangos sticer wrth unrhyw fynedfa draddodiadol lle mae cwsmeriaid yn gallu cerdded i mewn i’r sefydliad, ac wrth fynedfa’r man gyrru trwodd. Byddai angen, felly, i’r gweithredwr busnes bwyd arddangos sticer wrth fynedfa’r man gyrru trwodd, er enghraifft, wrth y man lle mae’r cwsmer yn archebu. Gallai’r cwsmer ddewis peidio ag archebu dim byd wedyn os yw’n anfodlon â sgôr y sefydliad.

Os oes **busnesau lluosog, neu fusnesau sydd wedi’u cofrestru neu eu cymeradwyo ar wahân yn gweithredu ar yr un safle**, bydd angen i bob gweithredwr busnes bwyd arddangos y sticer sy’n berthnasol i’w fusnes wrth neu gerllaw pob mynedfa ar gyfer cwsmeriaid. Rhaid arddangos y sgôr mewn man amlwg yn y sefydliad, lle y gall cwsmeriaid ei darllen yn hawdd cyn mynd i mewn i’r sefydliad pan mae ar agor ar gyfer busnes. Mae’n rhaid sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu gwahaniaethu’n hawdd rhwng sgoriau pob busnes.

Er enghraifft, mewn **siop adrannol** sydd â siop goffi ar wahân yn y siop, disgwylir i sgôr y siop goffi gael ei harddangos wrth neu gerllaw’r fynedfa i’r siop goffi. Byddai hefyd yn arfer da arddangos y sgôr wrth bob mynedfa i gwsmeriaid ar y safle, gan nodi’n glir bod y sgôr yn perthyn i’r siop goffi. Mae’r un egwyddor yn berthnasol i safleoedd tebyg eraill, er enghraifft, gorsafoedd gwasanaethau, ysbytai ac ati.

Os yw’r sefydliad yn darparu bwyd ar gyfer cwsmeriaid ond nid yw cwsmeriaid yn cael eu caniatáu na’u gwahodd i fynd i mewn i’r sefydliad, neu nad oes modd yn ymarferol i gwsmeriaid fynd i mewn i’r sefydliad – er enghraifft, cerbyd bwyd symudol, neu safle domestig – mae’n rhaid arddangos y sticer â sgôr ddilys y sefydliad mewn man amlwg yn y sefydliad, lle y gall cwsmeriaid ei ddarllen yn hawdd cyn mynd i mewn i’r sefydliad pan mae ar agor ar gyfer busnes.

Er enghraifft, o safbwynt **sefydliad arlwyo cartref**, byddai’n dderbyniol arddangos y sticer mewn lle amlwg ar y safle lle mae’r gweithredwr busnes bwyd a’r cwsmer yn rhyngweithio, e.e. wrth y fynedfa, yn y cyntedd neu’r porth, ar y drws cefn os mai dyma lle mae cwsmeriaid yn dod i mewn/yn casglu’r bwyd fel arfer, pan fydd y sefydliad ar agor ar gyfer busnes. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu nad oes angen gosod y sticer yn barhaol, ond bod angen ei arddangos pan fydd y sefydliad ar agor ar gyfer busnes, e.e. pan fo bwyd yn cael ei ddarparu i’r cwsmer.

Os yw bwyd yn cael ei ddarparu i gwsmeriaid gan neu ar ran gweithredwr ar safleoedd y tu allan i sefydliad y gweithredwr – fel stondinau marchnad a cherbydau

– sy'n rhan o fusnes y gweithredwr, ac nad yw'r safleoedd hynny'n gymwys i gael eu sgôr eu hunain, mae'n rhaid arddangos sticer â sgôr ddilys y sefydliad mewn lle amlwg ar bob safle, lle y gall cwsmeriaid ei ddarllen yn hawdd pan fo'r safle ar agor.

Er enghraifft, o safbwynt **stondin farchnad**, gellid gwneud hyn drwy osod y sticer ar y stondin neu ar fwrdd, neu efallai drwy arddangos y sticer mewn ffrâm ar y bwrdd. O safbwynt cerbydau symudol, gall hyn olygu arddangos y sticer ar ffenestr neu rywle arall ar y cerbyd.

Noder bod unrhyw enghreifftiau yn rhai dangosol yn unig, ac nad ydynt yn rhestr gynhwysfawr. Mae'n rhaid barnu pob sefydliad ar sail ei rinweddau unigol ei hun. Nid oes modd cynnwys enghraifft ar gyfer pob set o amgylchiadau a all godi, ond dylid gweithredu'r egwyddor o ddarparu gwybodaeth am sgôr hylendid bwyd i'r cyhoedd ar sticer sy'n cael ei arddangos mewn lle amlwg lle y gall cwsmeriaid ei ddarllen yn hawdd cyn mynd i mewn i'r sefydliad pan mae ar agor ar gyfer busnes.

### 11.5 Tystysgrifau

Mae'r CSHB anstatudol yn cynnwys darparu tystysgrifau sgoriau ar gyfer busnesau, ond nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at dystysgrifau. Ni ddylai awdurdodau bwyd gyhoeddi tystysgrifau ar gyfer sgoriau a gyhoeddwyd yn unol â'r Ddeddf.

### 11.6 Dilysrwydd sticeri

Daw sticer y Sgôr Hylendid Bwyd yn ddilys pan fydd y sgôr yn ddilys.

Daw'r sgôr gyntaf yn ddilys a dylid arddangos y sticer ar ôl i'r gweithredwr busnes bwyd gael ei hysbysu o'r sgôr a'r cyfnod o 21 diwrnod i apelio yn erbyn y sgôr ddod i ben, neu os gwnaed apêl, bod yr apêl wedi'i phennu a'r gweithredwr busnes bwyd wedi cael hysbysiad o'r canlyniad.

Mae'r sgôr yn parhau'n ddilys a rhaid arddangos y sticer cysylltiedig nes y bydd hysbysiad o'r sgôr newydd wedi dod i law a'r cyfnod o 21 diwrnod i apelio yn erbyn y sgôr wedi dod i ben, neu os gwnaed apêl, bod yr apêl wedi'i phennu a'r gweithredwr busnes bwyd wedi cael hysbysiad o'r canlyniad.

Mae'r sticer yn peidio â bod yn ddilys pan fydd sgôr hylendid bwyd y sefydliad yn peidio â bod yn ddilys.

Mae'r sgôr yn peidio â bod yn ddilys pan fo perchenogaeth sefydliad wedi'i throsglwyddo neu pan fo sefydliad wedi rhoi'r gorau i fasnachu.

Os yw sticer sefydliad yn peidio â bod yn ddilys, mae'n rhaid i'r gweithredwr busnes bwyd ei symud a'i ddinistrio, oni bai bod y gweithredwr wedi'i gyfarwyddo gan swyddog awdurdodedig i beidio â'i ddinistrio.

## 11.7 <u>Defnydd unrhyw ddeunydd brandio at ddibenion marchnata a hysbysebu gan awdurdodau bwyd</u>

Anogir awdurdodau bwyd i hyrwyddo'r CSHB i fusnesau bwyd a chwsmeriaid yn eu hardaloedd, a gallant ddefnyddio brand y CSHB at ddibenion marchnata a hysbysebu.

## 11.8 <u>Defnydd unrhyw ddeunydd brandio at ddibenion marchnata a hysbysebu gan weithredwyr busnesau bwyd</u>

Cydnabyddir y bydd gweithredwyr busnesau bwyd o bosib am wneud eu sgoriau'n gyhoeddus.

Gellir darparu gwaith celf sy'n cynnwys brand y CSHB ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd, ond wrth wneud hynny, dylid atgoffa gweithredwyr busnesau bwyd bod unrhyw farchnata neu hysbysebu gan fusnes sy'n camarwain y cyhoedd am ei sgôr neu'n camliwio'r busnes mewn unrhyw ffordd yn gallu bod yn drosedd. Gall awdurdodau bwyd gynghori gweithredwyr busnesau bwyd bod modd iddynt gynnwys ar eu gwefan ddolen i wefan yr ASB lle gall cwsmeriaid weld beth yw eu sgôr hylendid bwyd.

## 11.9 <u>Archebu sticeri</u>

Dim ond yr awdurdod bwyd sydd â'r hawl i gyhoeddi sticeri sgoriau, ac o ganlyniad, dim ond awdurdodau bwyd sy'n gallu archebu sticeri. Gall awdurdodau bwyd archebu sticeri am ddim gan EC Group drwy ffonio 0845 606 0667 neu e-bostio foodstandards@ecgroup.co.uk gan ddefnyddio'r cyfeirnodau isod:

| GLUDIOG AR Y TU BLAEN – SAFONOL | | GLUDIOG AR Y TU CEFN |
|---|---|---|
| ASB/1598/1013 | 'Aros am Sgôr' CSHB | ASB/1709/1013 |
| ASB/1585/1013 | Sgôr CSHB 0 | ASB/1710/1013 |
| ASB/1586/1013 | Sgôr CSHB 1 | ASB/1711/1013 |
| ASB/1587/1013 | Sgôr CSHB 2 | ASB/1712/1013 |
| ASB/1588/1013 | Sgôr CSHB 3 | ASB/1713/1013 |
| ASB/1589/1013 | Sgôr CSHB 4 | ASB/1714/1013 |
| ASB/1590/1013 | Sgôr CSHB 5 | ASB/1715/1013 |

## Adran 12: Ceisiadau am wybodaeth am sgoriau hylendid bwyd

### 12.1 Cyflwyniad

Mae Adran 8 o’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i’r gweithredwr busnes bwyd ddarparu gwybodaeth am sgôr hylendid y busnes bwyd yn dilyn cais am wybodaeth o’r fath.

Mae’n rhaid i’r gweithredwr sicrhau bod pob cyflogai perthnasol yn ymwybodol o sgôr hylendid bwyd y sefydliad. Mae’n rhaid i gyflogeion perthnasol hysbysu unrhyw un sy’n gofyn (ar lafar) am sgôr y busnes. Mae hyn yn berthnasol i sefyllfaoedd wyneb yn wyneb yn ogystal â thros y ffôn.

### 12.2 Cyflogai perthnasol

Mae’r ddeddfwriaeth yn disgrifio “cyflogai perthnasol” fel rhywun sydd:
*yn cael ei gyflogi yn y sefydliad, ac*
*yn debygol, ym marn y gweithredwr, o fod yn wrthrych cais i hysbysu person ar lafar am sgôr hylendid bwyd y sefydliad.*

Yn ymarferol, mae hyn yn debygol o olygu cyflogeion sydd, fel rhan o’u dyletswyddau, yn cyfathrebu â’r cyhoedd wyneb yn wyneb. Gall enghreifftiau o “gyflogeion perthnasol” o’r fath gynnwys y rhai sy’n derbyn archebion mewn bwyty/ siop tecawê ond nid y sawl sy’n trin bwyd ac ond yn gyfrifol am baratoi bwyd a gweithio yn y gegin. Byddai “cyflogeion perthnasol” hefyd yn cynnwys staff sy’n gweithio wrth ddesg wybodaeth i gwsmeriaid mewn archfarchnad fawr y mae aelodau staff eraill yn cyfeirio pobl atynt yn rheolaidd i gael gwybodaeth.

## Adran 13: Defnyddio platfform TG y cynllun sgorio hylendid bwyd

### 13.1 Cyflwyniad

Bydd hygrededd ac uniondeb y CSHB yn dibynnu ar sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf a chywir am sgoriau hylendid bwyd ar gael i gwsmeriaid. Bydd trosglwyddo data'r awdurdod bwyd i'r gronfa ddata genedlaethol yn rheolaidd a chyhoeddi'r sgoriau'n ddi-oed drwy food.gov.uk/ratings yn allweddol i hyn.

Mae Dogfennaeth Defnyddwyr Ar Wahân yn ymwneud â materion technegol ac agweddau ymarferol ar ddefnyddio'r platfform TG ar gael drwy http://www.food.gov.uk/policy-advice/hygieneratings/hygienescoresresources/fhrsitguides.

### 13.2 Y 'platfform TG'

Mae'r platfform TG yn cynnwys yr elfennau allweddol canlynol:

- **cronfa ddata ganolog** ar gyfer storio data ar sefydliadau busnesau bwyd a lanlwythir i'r system gan awdurdodau bwyd
- '**porth'** lle mae awdurdodau lleol perthnasol yn gallu adolygu a dilysu data, ffurfweddu swyddogaethau'r system i fodloni anghenion lleol, lanlwytho gwybodaeth nas casglwyd mewn prosesau awtomatig a rhedeg adroddiadau rheolwyr
- **cyfleuster adrodd** sy'n caniatáu rhedeg adroddiadau rheolwyr
- **cyfleuster chwilio ar-lein** sy'n bwynt mynediad sengl i ddefnyddwyr ar gyfer sgoriau hylendid sefydliadau busnesau bwyd y mae'r CSHB yn berthnasol iddynt – food.gov.uk/ratings

### 13.3 Fformat ffeiliau a ddefnyddir i lanlwytho data awdurdodau bwyd i'r gronfa ddata ganolog

Mae'n rhaid echdynnu data o System Rheoli Gwybodaeth yr awdurdod bwyd i ffeil Excel,[1] CSV neu XML.

Nodir y 'Safon Data' isod ac mae'n rhestru'r data y mae'n rhaid ei ddarparu ar gyfer sefydliadau sy'n masnachu ar hyn o bryd.[2]

Gall awdurdodau bwyd ddewis darparu'r data hwn ar gyfer yr holl sefydliadau yn eu hardal neu ar gyfer y rhai sy'n cael eu cynnwys o fewn cwmpas y CSHB yn unig.

---

[1] Os defnyddir ffeiliau Excel, mae'n rhaid rhoi'r teitl 'Data' ar y daflen waith sy'n cynnwys y data. Nid oes unrhyw reolau'n bodoli ar gyfer y ffeil Excel ei hun, na ffeiliau CSV neu XML.

[2] Mae'r 'Safon Data' hefyd yn cynnwys rhywfaint o ddata y gall awdurdodau lleol ei ddarparu'n wirfoddol – lle bo hyn yn berthnasol, fe'i nodir yn benodol.

Os yw data'n cael ei ddarparu ar gyfer pob sefydliad, ni fydd yr holl ddata'n cael ei gyhoeddi drwy food.gov.uk/ratings, ond mae modd ei gynnwys wrth redeg adroddiadau rheolwyr.

### 13.4 'Safon Data' y CSHB

**Noder – lle mae rhesi wedi'u lliwio'n llwyd, nid yw'n orfodol darparu data.**

| Enw'r maes data | Fformat gofynnol | Sylwadau |
|---|---|---|
| Nod adnabod yr awdurdod lleol | Alffaniwmerig: tri neu bedwar nod fel arfer | Mae'r nod adnabod yr un fath â'r un ar gyfer System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS).<br><br>Nid yw'n orfodol darparu'r data hwn oherwydd bydd y system yn storio'r nodau adnabod hyn, a bydd y manylion mewngofnodi yn dynodi i ba awdurdod bwyd y mae'r lanlwythiad yn berthnasol. |
| Enw'r awdurdod lleol | Testun: uchafswm o 255 o nodau | Enw'r awdurdod lleol.<br><br>Nid yw'n orfodol darparu'r data hwn oherwydd bydd y manylion mewngofnodi yn dynodi i ba awdurdod bwyd y mae'r lanlwythiad yn berthnasol. |
| Nod adnabod y sefydliad | Alffaniwmerig: uchafswm o 255 o nodau | Hwn yw nod adnabod y safle/cyfeirnod unigryw'r safle.<br><br>Ni chyhoeddir hwn drwy food.gov.uk/ratings ond mae'n rhaid ei ddarparu. Mae'r holl wybodaeth am sefydliad penodol yn cael ei chynnwys mewn cofnod sengl (rhes). Mae gwerth nod adnabod sefydliad penodol yn unigryw i gofnod sengl ym mhob ffeil data. |
| Enw'r sefydliad | Alffaniwmerig: uchafswm o 255 o nodau | Enw'r busnes. |
| Gweithredwr/Perchennog | Testun: uchafswm o 255 o nodau | Enw'r gweithredwr busnes bwyd – ni chyhoeddir hwn drwy food.gov.uk/ratings.<br><br>Nid yw darparu'r data hwn yn orfodol. |
| Rhif ffôn y sefydliad | Rhifol: uchafswm o 15 o nodau | Ni chyhoeddir hwn drwy food.gov.uk/ratings.<br><br>Nid yw darparu'r data hwn yn orfodol. |

| Enw’r maes data | Fformat gofynnol | Sylwadau |
|---|---|---|
| Cyfeiriad y sefydliad – llinell 1 | Alffaniwmerig: uchafswm o 255 o nodau | Nid yw’n orfodol llenwi unrhyw linell cyfeiriad unigol, ond mae darparu cyfeiriad dilys yn orfodol, felly mae’n rhaid i o leiaf un o linellau’r cyfeiriad gynnwys data, a chyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod cyfeiriad dilys y gellir ei adnabod yn cael ei ddarparu. |
| Cyfeiriad y sefydliad – llinell 2 | Alffaniwmerig: uchafswm o 255 o nodau | |
| Cyfeiriad y sefydliad – llinell 3 | Alffaniwmerig: uchafswm o 255 o nodau | |
| Cyfeiriad y sefydliad – llinell 4 | Alffaniwmerig: uchafswm o 255 o nodau | |
| Cod post y sefydliad | Alffaniwmerig: uchafswm o 9 nod | Dylid darparu hwn oni bai nad oes gan y sefydliad god post. |
| Math o fusnes (categori) | Testun: uchafswm o 255 o nodau | Os nad yw’r awdurdod bwyd yn categoreiddio busnesau ar eu system leol drwy ddefnyddio categorïau LAEMS, bydd yn gallu defnyddio cyfleuster mapio ar borth y CSHB i ddangos y cysylltiad rhwng y categorïau a ddefnyddiwyd a chategorïau LAEMS. |
| Dyddiad arolygu | Fformatau dyddiadau’r DU:<br>dd/mm/bbbb<br>dd/m/bb<br>d.m.bb<br>dd/mmm/bb<br>dd-mm-bbbb<br>dd mm bbbb<br>dd.mm.bbbb | Mae hyn yn ofynnol ar gyfer pob sefydliad. |
| Cwmpas | Alffaniwmerig: uchafswm o 255 o nodau | Dynodwr i ddangos statws y sefydliad – ‘wedi’i eithrio’, ‘wedi’i gynnwys’, ‘wedi’i esemptio’, neu ‘sensitif’.<br><br>Bydd y system TG yn galluogi awdurdodau lleol i ddynodi dim gwerth e.e. os nad oes gan y sefydliadau sydd ‘wedi’u heithrio’ o’r CSHB werth ‘cwmpas’, gellir defnyddio’r cyfleuster mapio i ddangos bod sefydliadau o’r fath ‘wedi’u heithrio’. |
| Sgôr Atodiad 5 ar gyfer y lefel o gydymffurfiaeth – gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | Gwerthoedd rhagnodedig:<br>0, 5, 10, 15, 20 neu 25 | Mae’n rhaid i gofnod dilys gynnwys gwerthoedd ym mhob un o’r tri maes neu dim gwerth yn unrhyw un ohonynt.<br><br>Os yw gwerthoedd wedi’u cynnwys, fe’u defnyddir i gyfrifo’r sgôr hylendid bwyd.<br><br>Bydd absenoldeb pob un o’r tri gwerth yn dynodi nad yw’r sefydliad wedi’i sgorio eto o dan y CSHB. Mewn achosion o’r fath, bydd food.gov.uk/ratings yn arddangos ‘aros am arolygiad’ yn hytrach na sgôr hylendid bwyd. |
| Sgôr Atodiad 5 ar gyfer y lefel o gydymffurfiaeth – strwythur y sefydliad | Gwerthoedd rhagnodedig:<br>0, 5, 10, 15, 20 neu 25 | |
| Sgôr Atodiad 5 ar gyfer hyder mewn gweithdrefnau rheol | Gwerthoedd rhagnodedig:<br>0, 5, 10, 20 neu 30 | |

| Enw'r maes data | Fformat gofynnol | Sylwadau |
|---|---|---|
| Sgôr gyffredinol Atodiad 5 | Rhifol: uchafswm o dri nod | Dyma gyfanswm sgôr yr ymyriad ar gyfer y sefydliad.<br><br>Nid yw darparu'r data hwn yn orfodol.<br><br>Ni chyhoeddir y data drwy food.gov.uk/ratings. |
| Sgôr hylendid bwyd ddiwygiedig[3] | Gwerthoedd rhagnodedig:<br>0, 1, 2, 3, 4 neu 5 (mae 5 yn sgôr 'haen uchel' a 0 yn sgôr 'haen isel') | Mae hyn yn berthnasol i sgoriau hylendid bwyd a roddir pan fo sefydliad wedi cael ailymweliad ar gais y gweithredwr busnes bwyd o dan y system ailarolygu. Dim ond mewn achosion lle na chafodd sgôr yr ymyriad ei hailasesu y bydd gwerth yn cael ei roi. |
| Dyddiad sgôr hylendid bwyd ddiwygiedig | Fformatau dyddiadau'r DU:<br>dd/mm/bbbb<br>dd/m/bb<br>d.m.bb<br>dd/mmm/bb<br>dd-mm-bbbb<br>dd mm bbbb<br>dd.mm.bbbb | Mae hyn yn berthnasol i'r gwerth a ddisgrifiwyd yn y cofnod uchod, sef y dyddiad pan gafodd y sefydliad ailymweliad a sgôr hylendid bwyd 'newydd'. |
| Dyddiad hysbysu am y sgôr | Fformatau dyddiadau'r DU:<br>dd/mm/bbbb<br>dd/m/bb<br>d.m.bb<br>dd/mmm/bb<br>dd-mm-bbbb<br>dd mm bbbb<br>dd.mm.bbbb | Mae hyn yn berthnasol i'r trefniadau pontio sy'n galluogi awdurdodau bwyd i gyhoeddi sgôr "newydd" ar gyfer sefydliadau â sgôr anstatudol.<br><br>Dyma'r dyddiad pan gaiff gweithredwyr busnesau bwyd sydd y tu hwnt i gwmpas y rhaglen eu hysbysu am y sgôr "newydd".<br><br>Bydd y cyfnod apelio yn cychwyn ar y dyddiad hwn. |

## 13.5 Gwybodaeth a fydd yn ymddangos drwy food.gov.uk/ratings

| Math o fusnes[4] | Statws | Beth a gyhoeddir? |
|---|---|---|
| Nid yw'n cyflenwi bwyd i gwsmeriaid yn uniongyrchol.<br><br>Mae enghreifftiau'n cynnwys gweithgynhyrchwyr, pacwyr, cludwyr, mewnforwyr ac allforwyr, dosbarthwyr. | 'Wedi'i eithrio' tan fis Tachwedd 2014 | Dim byd. |

[3] Mae'r angen am unrhyw newidiadau i feddalwedd IMS i ddarparu ar gyfer hyn yn cael ei ystyried gan y Grŵp Cynghori ar TG Awdurdodau Lleol, a rhennir gwybodaeth/arferion da drwy'r Grŵp.

[4] Gweler Adran 2 ar gwmpas am gyngor pellach ar hyn.

| Math o fusnes[4] | Statws | Beth a gyhoeddir? |
|---|---|---|
| Yn cyflenwi bwyd i ddefnyddwyr yn uniongyrchol, yn derbyn sgôr ac nid oes unrhyw sensitifrwydd ynglŷn â chyhoeddi'r cyfeiriad llawn.<br><br>Mae enghreifftiau'n cynnwys archfarchnadoedd, bwytai, caffis, tafarndai (gan gynnwys tafarndai gwlyb), ysbytai, ysgolion, sefydliadau milwrol ac ati. | 'Wedi'i gynnwys' | • Enw a chyfeiriad llawn y busnes<br>• Categori busnes LAEMS<br>• Dyddiad yr arolygiad NEU ddyddiad y sgôr hylendid bwyd ddiwygiedig<br>• Sgôr hylendid bwyd NEU sgôr hylendid bwyd ddiwygiedig NEU 'aros am arolygiad' NEU 'i'w gyhoeddi'n fuan' |
| Yn cyflenwi bwyd i ddefnyddwyr yn uniongyrchol, yn derbyn sgôr ond mae sensitifrwydd ynglŷn â chyhoeddi'r cyfeiriad llawn gan fod y busnes yn gweithredu, neu wedi'i gofrestru, o gyfeiriad preifat.<br><br>Mae enghreifftiau'n cynnwys arlwywyr cartref a masnachwyr symudol. | 'Wedi'i gynnwys ac yn breifat'<br><br>Noder – gall awdurdodau bwyd nodi ar y porth pa sefydliadau na ddylid cynnwys eu cyfeiriadau | • Enw a chyfeiriad rhannol y busnes – enw'r awdurdod lleol a rhan gyntaf y cod post yn unig<br>• Categori busnes LAEMS<br>• Dyddiad yr arolygiad NEU ddyddiad y sgôr hylendid bwyd ddiwygiedig<br>• Sgôr hylendid bwyd NEU sgôr hylendid bwyd ddiwygiedig NEU 'aros am arolygiad' NEU 'i'w gyhoeddi'n fuan' |
| Yn cyflenwi bwyd i ddefnyddwyr yn uniongyrchol, ond nid yw'n derbyn sgôr ar y sail ei fod wedi'i eithrio yn unol â'r Rheoliadau. Dyma sefydliadau lle nad yw gwerthu bwyd yn brif weithgaredd y sefydliad; a bod yr unig fwyd sydd ar gael i ddefnyddwyr yn fwyd sydd yn silff-sefydlog ar y tymheredd amgylchynol ac wedi ei lapio neu'i becynnu cyn dod â'r bwyd i'r sefydliad, a'r deunydd lapio neu'r deunydd pecynnu yn parhau'n seliedig drwy gydol y cyfnod cyn cyflenwi'r bwyd i ddefnyddwyr.<br><br>Mae enghreifftiau'n cynnwys canolfannau ymwelwyr sy'n gwerthu bisgedi, canolfannau hamdden sydd â pheiriannau gwerthu bwyd yn unig sydd ond yn gwerthu diodydd neu fwydydd risg isel, siopau papurau newydd a fferyllfeydd sydd ond yn gwerthu melysion wedi'u pecynnu ymlaen llaw a/neu fwydydd iach. | 'Wedi'i eithrio' | • Enw a chyfeiriad llawn y busnes<br>• Categori busnes LAEMS<br>• 'Wedi'i eithrio' yn hytrach na sgôr hylendid bwyd |
| Yn cyflenwi bwyd i ddefnyddwyr yn uniongyrchol, ond nid yw'n derbyn sgôr ar y sail ei fod wedi'i eithrio yn unol â'r Rheoliadau. Dyma sefydliadau lle nad yw gwerthu bwyd yn brif weithgaredd y sefydliad; a bod yr unig fwyd | 'Wedi'i eithrio ac yn breifat'<br><br>Noder – gall awdurdodau bwyd nodi ar y porth pa sefydliadau na | • Enw a chyfeiriad rhannol y busnes – enw'r awdurdod lleol a rhan gyntaf y cod post yn unig<br>• Categori busnes LAEMS<br>• 'Wedi'i eithrio' yn hytrach na sgôr hylendid bwyd |

| Math o fusnes[4] | Statws | Beth a gyhoeddir? |
|---|---|---|
| sydd ar gael i ddefnyddwyr yn fwyd sydd yn silff-sefydlog ar y tymheredd amgylchynol ac wedi ei lapio neu'i becynnu cyn dod â'r bwyd i'r sefydliad, a'r deunydd lapio neu'r deunydd pecynnu yn parhau'n seliedig drwy gydol y cyfnod cyn cyflenwi'r bwyd i ddefnyddwyr, a lle mae sensitifrwydd ynglŷn â chyhoeddi'r cyfeiriad llawn. | ddylid cynnwys eu cyfeiriadau | |
| Sefydliad sy'n cael ei ddefnyddio gan warchodwyr plant a gofalwyr lleoliadau oedolion lle mae'r sefydliad hefyd yn cael ei ddefnyddio fel annedd breifat. Bydd gofynion hylendid bwyd yn parhau i fod yn berthnasol i'r sefydliadau hyn, ond byddant yn cael eu heithrio rhag derbyn sgôr.<br><br>Mae enghreifftiau'n cynnwys gwarchodwyr plant a sefydliadau eraill lle mae gwasanaethau gofal yn cael eu darparu yn amgylchedd y cartref. | 'Wedi'i eithrio' | Dim byd. |

## 13.6 Amlder lanlwytho data

Mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd lanlwytho data o leiaf unwaith bob 28 diwrnod. Fodd bynnag, mae'n arfer da lanlwytho gwybodaeth yn amlach – argymhellir unwaith bob 13 diwrnod.

Nid oes cyfyngiad ar amlder lanlwytho.

## 13.7 Dilysu data

Bydd y platfform TG yn cynnal nifer o weithgareddau dilysu i sicrhau bod y data gofynnol wedi'i ddarparu ar gyfer pob sefydliad. Bydd y rhain yn cynnwys gwiriadau ar gyfer:

- nod adnabod y sefydliad – rhaid bod yn bresennol, heb fod yn fwy na 255 o nodau a rhaid bod yn unigryw i un cofnod yn y ffeil

- enw'r sefydliad – rhaid bod yn bresennol a heb fod yn fwy na 255 o nodau

- sgoriau Atodiad 5 ar gyfer hylendid, strwythur a hyder mewn gweithdrefnau rheoli – lle maent yn bresennol, mae'n rhaid i bob un fod yn gyson ag un o'r gwerthoedd rhagnodedig **ac** mae'n rhaid darparu dyddiad arolygu dilys **neu** dylai'r holl werthoedd fod yn absennol

- math o fusnes – rhaid bod yn bresennol a heb fod yn fwy na 255 o nodau
- cyfeiriad y sefydliad – rhaid bod yn bresennol ac ni ddylai unrhyw linell cyfeiriad gynnwys mwy na 255 o nodau
- dyddiad arolygu (os yw'n cael ei nodi) – dyddiad dilys sy'n llai, neu'n gyfartal â dyddiad y lanlwythiad
- sgôr hylendid bwyd ddiwygiedig (os yw'n cael ei nodi) – gwerthoedd rhwng 0 a 5 a dyddiad sgôr hylendid bwyd ddiwygiedig fel dyddiad dilys sy'n llai, neu'n gyfartal â dyddiad y lanlwythiad

Bydd y lanlwythiad yn methu os caiff unrhyw wallau eu nodi, fel un neu ddwy sgôr Atodiad 5 yn unig yn hytrach na'r tair sgôr. Bydd hefyd yn nodi lle y gall cyfuniadau o'r sgoriau hyn elwa ar graffu agosach gan fod y cyfuniad o sgoriau'n ymddangos yn anghyson.

## 13.7 Sut i gywiro gwallau

Bydd y platfform TG yn llunio adroddiad sy'n nodi gwallau pan fo'r awdurdod bwyd yn lanlwytho'r ffeil data. Gellir allforio'r adroddiad hwn i Word, Excel ac ati. Dylai awdurdodau bwyd adolygu'r gwallau a gwneud y newidiadau gofynnol yn yr IMS lleol neu'r porth (os oes angen gwneud gwaith mapio).

Mae'n rhaid llunio a lanlwytho ffeil data newydd wedyn os oes angen cywiro'r gwallau ar yr IMS yn gyntaf.

Ar ôl lanlwytho'r ffeil data yn llwyddiannus, mae modd adolygu'r data cyn ei gyhoeddi drwy food.gov.uk/ratings.

## 13.8 Cyhoeddi sgôr drwy food.gov.uk/ratings

Os yw'r sefydliad wedi cael sgôr o '5', cyhoeddir y sgôr cyn gynted ag y lanlwythir y data i'r system (ac mae'r awdurdod lleol wedi ei rhyddhau).

Mewn achosion eraill, ni ellir cyhoeddi sgôr nes bod y gweithredwr busnes bwyd wedi cael 21 diwrnod ers dyddiad ei hysbysu am y sgôr i apelio.[5] Felly, bydd meddalwedd y system yn atal cyhoeddi'r sgôr am gyfnod rhagosodedig sy'n ddigon hir i ganiatáu hysbysu am y canlyniad a chyflwyno apêl. Felly, mae modd cynnwys canlyniadau arolygiadau diweddar yn ddiogel ar y porth. Mae'r feddalwedd yn caniatáu i awdurdodau lleol orfodi cyhoeddi'r canlyniad os yw apêl yn cael ei datrys yn gynt na'r cyfnod rhagosodedig, neu atal cyhoeddi'r canlyniad os oes oedi o ran hysbysu am ganlyniad sgôr, er enghraifft. Ar ôl i'r cyfnod apêl ddod i ben, cyhoeddir y sgôr drwy food.gov.uk/ratings os nad oes unrhyw apêl wedi'i chyflwyno.

[5] Mae unrhyw gyfeiriad at nifer y 'dyddiau' yn y Canllawiau hyn yn cynnwys penwythnosau a gwyliau banc.

Yn y cyfamser, bydd y sgôr flaenorol neu'r geiriau 'aros am arolygiad' yn cael eu harddangos, fel sy'n briodol.

Os cyflwynir apêl, ni ellir cyhoeddi'r sgôr newydd nes bod y canlyniad wedi'i benderfynu. Bydd food.gov.uk/ratings yn dangos bod asesiad o safonau hylendid y sefydliad perthnasol 'i'w gyhoeddi'n fuan'. Ni fydd y sgôr flaenorol yn cael ei harddangos.

| SGÔR HYLENDID BWYD | FOOD HYGIENE RATING |
|---|---|
| I'W GYHOEDDI'N FUAN | AWAITING PUBLICATION |

## 13.9 Gwybodaeth awdurdodau bwyd sy'n cael ei harddangos ar eu tudalen drwy food.gov.uk/ratings

Bydd gan bob awdurdod bwyd ei dudalen ei hun sy'n cynnwys ei logo/faner ei hun. Mae'n rhaid i bob awdurdod bwyd lanlwytho manylion cyswllt allweddol i'r dudalen hon ac ychwanegu dolen i wefan yr awdurdod lleol.

## 13.10 Derbyn 'hawl i ymateb' gan weithredwr busnes bwyd

Mae gan weithredwyr busnesau bwyd 'hawl i ymateb' i'r sgôr a roddwyd, a gall yr ASB ei chyhoeddi drwy food.gov.uk/ratings. Mae'n rhaid i'r sylwadau 'hawl i ymateb' fod yn ysgrifenedig a chael eu cyflwyno i'r awdurdod bwyd. Mae ffurflen dempled safonol y gall gweithredwyr busnesau bwyd ei defnyddio i gyflwyno 'hawl i ymateb' ar gael yn Atodiad 3. Nid yw'n ofynnol defnyddio'r ffurflen hon, ac mae gan weithredwyr busnesau bwyd yr hawl i ddefnyddio fformat ysgrifenedig arall i gyflwyno eu sylwadau, gan eu marcio'n glir fel eu sylwadau 'hawl i ymateb'.

Os yw awdurdod bwyd wedi derbyn 'hawl i ymateb' gan weithredwr busnes bwyd, dylai adolygu'r testun cyn ei anfon i'r ASB i'w gyhoeddi drwy food.gov.uk/ratings. Mae unrhyw hawl i ymateb sy'n cynnwys sylwadau tramgwyddus, difenwol, anghywir neu amherthnasol yn annerbyniol. Mewn achosion o'r fath, hysbysir y gweithredwr busnes bwyd nad yw'r testun yn gweddu i ddiben yr 'hawl i ymateb', a gofynnir iddo newid y testun.

Pan fydd sgôr newydd yn cael ei rhoi a'i chyhoeddi drwy food.gov.uk/ratings, mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd hefyd sicrhau bod yr 'hawl i ymateb' yn ymwneud â'r sgôr flaenorol yn cael ei dileu o'r system.

## Adran 14: Cysondeb

### 14.1 Cyflwyniad

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd adolygu'r broses o weithredu'r CSHB yn eu hardal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y meini prawf sgorio yn cael eu hasesu'n deg ac yn gyson.

Mae gweithredu'r CSHB yn gyson yn hanfodol er mwyn sicrhau bod busnesau'n cael eu trin yn deg a bod defnyddwyr yn gallu cymharu sgoriau hylendid sefydliadau mewn un awdurdod bwyd a ledled awdurdodau bwyd mewn ffordd ystyrlon. Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd sy'n cyfranogi yn y CSHB sefydlu a gweithredu ffordd gyson o sicrhau hyn.

Dylai'r broses o sicrhau cysondeb gynnwys defnyddio'r canllawiau statudol hyn, sy'n cynnwys adrannau ar elfennau gwahanol o'r CSHB.

Bydd rhaid i awdurdodau bwyd wneud gwaith monitro er mwyn sicrhau defnydd cyson o'r canllawiau, yn ogystal â sicrhau cysondeb wrth ymgymryd ag ymyriadau (gan ganolbwyntio ar sut mae'r cynllun sgorio ymyriadau yn Atodiad 5 o'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd* yn cael ei ddefnyddio). Dylai'r gwaith monitro gael ei wneud ar dair lefel: o fewn yr awdurdod bwyd; o fewn grŵp cyswllt/rhanbarth; ac ar lefel genedlaethol gan yr ASB. Dylai'r mesurau gofynnol fod yn seiliedig ar y rhai sydd eisoes ar waith mewn perthynas â dyletswydd statudol yr awdurdod bwyd i fonitro cydymffurfiaeth â deddfwriaeth hylendid bwyd a'i gorfodi. Yn ogystal, dylid ystyried gofynion hyfforddi a chyfranogiad mewn arferion cysondeb.

### 14.2 Sicrhau cysondeb

Mae mesurau i sicrhau cysondeb yn cynnwys tair prif elfen:

- defnyddio'r canllawiau statudol hyn ar gyfer y CSHB
- trefniadau monitro (rheolaethau cysondeb sy'n seiliedig ar bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau'r awdurdod bwyd sy'n bodloni gofynion y *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd*, *y Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd* a chanllawiau swyddogol eraill) – mesurau mewnol ac allanol – a'r camau gweithredu gofynnol i fynd i'r afael ag anghysondebau a nodwyd
- gofynion hyfforddi a chyfranogiad mewn arferion cysondeb

### 14.3 Rôl yr ASB wrth weithredu'r CSHB

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r ASB adolygu'r broses apelio o dan y Ddeddf. Mae'n rhaid cynnal yr adolygiad bob blwyddyn. Ar ôl pob adolygiad, mae'n rhaid i'r ASB lunio adroddiad sy'n cynnwys unrhyw argymhellion i newid y broses, a rhaid anfon copi o'r adroddiad at Weinidogion Cymru.
Yn ogystal ag adolygu'r broses apelio, mae'n rhaid i'r ASB adolygu gweithrediad y CSHB a llunio adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru flwyddyn ar ôl cyflwyno'r

cynllun, a phob tair blynedd wedyn. Gall pob adroddiad gynnwys argymhellion ar gyfer newid.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau bwyd mewn perthynas â gwerthuso'r cynllun. Mae'n rhaid i bob awdurdod bwyd adolygu gweithrediad y CSHB yn ei ardal yn rheolaidd, ac ar gais yr ASB, at ddiben cynorthwyo'r ASB i werthuso'r cynllun.

Bydd yr ASB a Llywodraeth Cymru yn adolygu'r canllawiau statudol, yn ystyried adborth awdurdodau bwyd, a'u diwygio a'u diweddaru fel sy'n ofynnol ac yn briodol.

## 14.4 <u>Awdurdodau bwyd yn monitro gweithrediad y CSHB</u>

Gan fod sgoriau hylendid bwyd yn fodd o gyflwyno canfyddiadau ymyriadau, dylai trefniadau monitro mewnol sydd eisoes ar waith gan awdurdodau bwyd mewn perthynas â'u dyletswyddau statudol i fonitro cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a'i gorfodi fod yn rhan o'r trefniadau cysondeb ar gyfer gweithredu'r CSHB.

Dylid cynnal gwaith monitro meintiol ac ansoddol cymesur a rheolaidd ar gyfer gweithgareddau pob gwasanaeth perthnasol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu dangos ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, â'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd*, â'r 'Safon' yn y *Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd* ac â'r canllawiau statudol.

Dylai'r trefniadau monitro hyn gael eu nodi yng ngweithdrefnau monitro mewnol yr awdurdod bwyd.

Dylid cynnal cofnodion addas a chymesur er mwyn dilysu arolygiaeth rheolwyr o weithgareddau a gweithredoedd gwasanaethau allweddol a'r mesurau a roddwyd ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodwyd.

## 14.5 <u>Gweithgareddau gwasanaethau allweddol mewn perthynas â gweithredu'r CSHB</u>

Mae'r rhain yn cynnwys:

- cymhwysedd swyddogion
- rheoli cronfeydd data busnesau bwyd
- cynnal arolygiadau ac ymyriadau eraill
- dehongli'r cynllun sgorio ymyriadau yn Atodiad 5 o'r *Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd*
- cynnal cofnodion a gohebiaeth ymyriadau
- monitro gwasanaethau a chadw cofnodion cysylltiedig
- gweithredu camau diogelu'r CSHB – apeliadau, 'hawl i ymateb' ac arolygiadau ailsgorio

### 14.6 Cyswllt ag awdurdodau bwyd

Dylid defnyddio cyfarfodydd rheolaidd a raglennir fel cyfle ar gyfer hyfforddiant/ymarferion grŵp, dysgu gan eraill ac ymgymryd â gweithgareddau cysondeb a monitro cydgysylltiedig. Gall grwpiau rhanbarthol hefyd ddarparu rhwydwaith cymorth ar gyfer awdurdodau bwyd a fforwm i drafod ac ystyried materion yn ymwneud â chysondeb. Dylai unrhyw faterion a nodir ar lefel ranbarthol gael eu rhannu drwy Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru.

Mae Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru yn grŵp cyswllt a sefydlwyd yn benodol i drafod materion yn ymwneud â'r CSHB yng Nghymru. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r tri grŵp Diogelwch Bwyd rhanbarthol a chynrychiolwyr o Banel Technegol Diogelwch Bwyd Cymru. Mae'r grŵp hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r ASB yng Nghymru.

### 14.7 Adborth gan fusnesau ar gysondeb y CSHB

Mae 'hawl i ymateb' ar gyfer busnesau unigol wedi'i chynnwys yn y CSHB fel dull diogelu.

Mae adran 'cysylltu â ni' wedi'i chynnwys drwy food.gov.uk/ratings fel bod busnesau'n gallu rhoi adborth i'r ASB. Bydd yr ASB a Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag awdurdodau bwyd ar unrhyw faterion perthnasol a godwyd gan fusnesau fel sy'n briodol.

Gall busnesau hefyd gyflwyno adborth ar weithredu'r CSHB gan awdurdodau bwyd i'w Prif Awdurdod.

### 14.8 Adborth gan ddefnyddwyr ar gysondeb y CSHB

Gall defnyddwyr hefyd ddefnyddio adran 'cysylltu â ni' food.gov.uk/ratings i gyflwyno adborth i'r ASB. Bydd yr ASB a Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag awdurdodau bwyd ar unrhyw faterion perthnasol a godwyd gan ddefnyddwyr fel sy'n briodol.

Nid yw hyn yn atal defnyddwyr rhag cysylltu â'u hawdurdod bwyd neu'r awdurdod bwyd perthnasol a oedd yn gyfrifol am roi sgôr i'r sefydliad.

### 14.9 Adborth gan awdurdodau bwyd ar gysondeb y CSHB

Dylai awdurdodau bwyd barhau i ddefnyddio dulliau sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys grwpiau cyswllt bwyd a Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru i drafod materion dehongli a chysondeb.

## Adran 15: Gorfodi

### 15.1 Cyflwyniad

Mae'r Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio yn disgrifio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth reoleiddio yn lleol. Cyhoeddodd Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO) flaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer Cymru ym mis Ebrill 2010. Paratowyd y blaenoriaethau gan LBRO mewn cydweithrediad â'r awdurdodau bwyd, rheoleiddwyr cenedlaethol a chyrff proffesiynol a chynrychioladol.

Mae gan awdurdodau bwyd yng Nghymru ddyletswydd statudol i ystyried blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer rhai o'u swyddogaethau rheoleiddio. Mae swyddogaethau rheoleiddio sy'n gysylltiedig â sgoriau hylendid bwyd yn perthyn i'r categori hwn. Dyma'r blaenoriaethau gorfodi cenedlaethol ar gyfer Cymru:

- Diogelu unigolion rhag niwed a hybu gwella iechyd.
- Sicrhau diogelwch ac ansawdd y gadwyn fwyd er mwyn lleihau'r risg i iechyd pobl ac anifeiliaid.
- Hyrwyddo amgylchedd masnachu teg a chyfiawn i ddinasyddion a busnesau.
- Gwella'r amgylchedd lleol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd bywyd a hyrwyddo cynaliadwyedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod awdurdodau bwyd a busnesau bwyd yn cydweithio er mwyn datrys problemau'n wirfoddol lle bo hynny'n bosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod angen defnyddio addysg ac arweiniad er mwyn ymateb yn y lle cyntaf, ac na ddylid dwyn achos gorfodi oni bai bod dulliau anffurfiol wedi methu.

Rhagwelir y bydd awdurdodau bwyd yn gallu datrys y rhan fwyaf o achosion o dorri'r Ddeddf drwy ddeialog cydymffurfio cadarnhaol â'r gweithredwr busnes bwyd. Lle nad oes modd datrys achos yn hawdd neu'n gyflym, mae'r pwerau Hysbysiad Cosb Benodedig yn galluogi'r awdurdod bwyd i fabwysiadu dull graddol o sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Ddeddf a'i rheoliadau cysylltiedig.

Hyd yn oed os oes trosedd wedi'i chyflawni, dylai'r awdurdod bwyd weithio gyda'r busnes bwyd i ddeall y rhesymau am unrhyw drosedd, a rhoi cyngor i'r gweithredwr busnes bwyd i'w gwneud yn haws iddo gydymffurfio â'r Ddeddf yn y dyfodol, cyn ystyried rhoi camau gorfodi ar waith.

Os yw gweithredwr busnes bwyd yn methu â chydymffurfio ond ei fod yn egluro'n wirfoddol ac yn agored pam ei fod yn ei chael hi'n anodd cydymffurfio, a bod eglurhad o'r fath yn rhesymol, dylai'r awdurdod bwyd weithio gyda'r gweithredwr busnes bwyd i'w helpu i gydymffurfio yn hytrach na chyflwyno Hysbysiad Cosb

Benodedig iddo neu fynd ati i'w erlyn. Os yw'r gweithredwr busnes bwyd yn methu â chydymffurfio o hyd, er gwaetha'r ffaith ei fod wedi derbyn cymorth gan yr awdurdod bwyd a chyngor blaenorol, gall yr awdurdod bwyd fynd ati i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig i'r gweithredwr busnes bwyd.

Ar ôl cynnal y drafodaeth gychwynnol a rhoi unrhyw gymorth neu gyngor, dylai'r awdurdod bwyd fynd ati'n rhagweithiol i fonitro a yw'r gweithredwr busnes bwyd yn cydymffurfio bellach â gofynion y Ddeddf. Os yw gwaith monitro neu gwynion pellach yn awgrymu bod y gweithredwr busnes bwyd yn parhau i dorri'r Ddeddf, dylid ystyried rhoi camau pellach ar waith. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig, oni bai bod y gweithredwr busnes bwyd yn gallu cynnig esgus rhesymol ar sail tystiolaeth pam nad oes modd cydymffurfio.

Os yw'r awdurdod bwyd yn credu'n rhesymol bod y gweithredwr busnes bwyd wedi methu â chydymffurfio'n fwriadol neu'n gyson ag un o ofynion y Ddeddf, gall y swyddog awdurdodedig ddod i'r casgliad nad yw'n briodol cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig, ac yn lle gwneud hynny, gall fynd ati ar unwaith i ddwyn achos cyfreithiol.

### 15.2 <u>Awdurdodau Bwyd</u>

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau bwyd yng Nghymru i wneud trefniadau i orfodi rhwymedigaethau'r Ddeddf ar sefydliadau busnesau bwyd yn eu hardaloedd penodol. Yr awdurdodau bwyd sy'n gyfrifol am orfodi'r Ddeddf yng Nghymru ar hyn o bryd yw:

- Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol
- Awdurdod Iechyd Porthladd, mewn amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 5(3) o Ddeddf Diogelu Bwyd 1990

### 15.3 <u>Swyddogion awdurdodedig</u>

Bydd angen i awdurdodau bwyd benodi swyddogion awdurdodedig priodol i gyflawni dyletswyddau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf. Ystyr 'swyddog awdurdodedig' yw swyddog sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan awdurdod bwyd i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r awdurdod o dan y Ddeddf.

Gallai swyddogion presennol sydd â phrofiad o gyflawni dyletswyddau gorfodi yn ymwneud â busnesau, fel swyddogion iechyd yr amgylchedd a swyddogion safonau masnach, wneud y gwaith hwn a'i ymgorffori yn eu gweithgareddau arolygu eraill.

Bydd angen i swyddogion gael eu hawdurdodi o dan y Ddeddf yn unol â gweithdrefnau arferol eu hawdurdod lleol.

### 15.4 <u>Arolygu</u>

Wrth ddangos eu hawdurdod ysgrifenedig os gofynnir amdano, gall swyddogion awdurdodedig gael mynediad i sefydliad busnes bwyd ar unrhyw awr resymol er mwyn gorfodi'r gofyniad i arddangos sticeri sgoriau hylendid bwyd. O safbwynt cael mynediad i unrhyw ran o sefydliad a ddefnyddir fel annedd breifat yn unig, mae'n rhaid rhoi rhybudd 24 awr i'r gweithredwr o'r bwriad i gael mynediad.

### 15.5 Hysbysiadau Cosb Benodedig

Mae Adran 21 o'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i swyddogion awdurdodedig gyhoeddi hysbysiadau cosb mewn perthynas â throseddau o dan adran 9. Mae Hysbysiad Cosb Benodedig yn rhoi cynnig i'r person fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig. Gall swyddogion gorfodi gyhoeddi Hysbysiad Cosb Benodedig os ydynt yn credu bod rhywun wedi cyflawni trosedd o dan adran 9.

Yr awdurdod bwyd (yn gweithredu drwy ei swyddog awdurdodedig) sy'n penderfynu pa Hysbysiad Cosb Benodedig sydd i'w gyflwyno neu ba gyhuddiad sydd i'w ddwyn ym mhob achos. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw, mae'n rhaid i'r swyddog weithredu'n rhesymol yn unol ag egwyddorion arferol cyfraith gyhoeddus ac unrhyw ganllawiau perthnasol, cod ymarfer ac ati. Gall methu â gweithredu yn unol â'r egwyddorion hynny arwain at y gweithredwr busnes bwyd yn gwneud cais am adolygiad barnwrol neu'n dewis sefyll ei brawf yn hytrach na derbyn yr Hysbysiad Cosb Benodedig.

Mae'r Atodlen i'r Ddeddf yn nodi'r weithdrefn Hysbysiad Cosb Benodedig berthnasol. Yn gryno, mae'n rhaid i Hysbysiad Cosb Benodedig:

- roi manylion am yr amgylchiad yr honnir ei fod yn ffurfio'r drosedd
- datgan enw a chyfeiriad yr awdurdod yr oedd y swyddog awdurdodedig yn gweithredu ar ei ran pan roddodd y swyddog yr hysbysiad
- datgan swm y gosb a'r cyfnod ar gyfer talu'r gosb
- datgan swm y gosb ostyngol a'r cyfnod y mae'r gostyngiad yn gymwys iddo;
- datgan canlyniadau peidio â thalu'r gosb cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r gosb
- datgan y person y caniateir i'r gosb neu'r gosb ostyngol gael ei thalu iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir ei thalu
- datgan drwy ba ddull y caniateir talu
- y person y caniateir i unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r hysbysiad gael eu cyflwyno iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir eu cyflwyno

Mae'n rhaid i Hysbysiad Cosb Benodedig hefyd hysbysu'r person y mae wedi'i roi iddo am ei hawl i sefyll prawf am y drosedd honedig, ac esbonio sut y caniateir i'r hawl honno gael ei harfer.

Bydd cyfanswm llawn y gosb benodedig fel y'i nodir yn yr hysbysiad yn daladwy, ac mae'n rhaid ei dalu o fewn 28 diwrnod, gan ddechrau ar ddiwrnod cyhoeddi'r hysbysiad. Fodd bynnag, mae swm gostyngol yn daladwy yn hytrach na'r swm llawn os telir y gosb cyn diwedd y cyfnod 14 diwrnod, gan ddechrau ar ddiwrnod

cyhoeddi'r hysbysiad. Ystyrir bod y taliad wedi'i wneud ar yr adeg pan fyddai'r llythyr wedi'i ddosbarthu fel rhan o'r system bost arferol.

Mae'r bocs isod yn nodi'r symiau cyfredol ar gyfer pob un o'r troseddau:

| **Troseddau Adran 9 sy'n gallu arwain at Hysbysiad Cosb Benodedig** | **Swm llawn** | **Swm gostyngol** |
|---|---|---|
| Mae gweithredwr sefydliad busnes bwyd yn cyflawni trosedd os yw, heb esgus rhesymol:<br>• yn methu ag arddangos sticer sgôr hylendid bwyd dilys yn y man a'r modd a ragnodir<br>• yn arddangos sticer sgôr hylendid bwyd annilys<br>• yn methu â chadw sticer sgôr hylendid bwyd dilys<br>• yn ildio ei feddiant ar sticer sgôr hylendid bwyd i unrhyw berson heblaw am swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd | £200 | £150 |
| Mae gweithredwr sefydliad busnes bwyd hefyd yn euog o drosedd, os, heb esgus rhesymol:<br>• gwrthodir cais person i gael ei hysbysu ar lafar am sgôr hylendid bwyd, neu<br>• rhoddir gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i berson sy'n gwneud cais o'r fath am sgôr hylendid bwyd y sefydliad | £200 | £150 |
| Mae person yn cyflawni trosedd os yw:<br>• yn fwriadol yn newid, yn difwyno neu fel arall yn ymyrryd â sticer sgôr hylendid bwyd<br>• yn gwneud hynny heblaw er mwyn ei dynnu o'r man lle y mae'n cael ei arddangos, neu er mwyn ei ddistrywio, yn unol ag adran 7(6) | £200 | £150 |

Os yw person sydd wedi derbyn Hysbysiad Cosb Benodedig yn methu â thalu'r gosb benodedig erbyn diwedd y cyfnod 28 diwrnod, gall yr awdurdod bwyd ddwyn achos yn erbyn y person am y drosedd y mae'r hysbysiad cosb yn berthnasol iddi. Ni ellir dwyn achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r gosb. Os yw'r gosb (neu'r swm gostyngol fel sy'n briodol) yn cael ei thalu yn unol â'r hysbysiad cosb cyn diwedd y cyfnod talu perthnasol, ni ellir dwyn achos yn erbyn y person am y drosedd y mae'r hysbysiad cosb yn berthnasol iddi.

Gall y sawl sy'n derbyn yr hysbysiad cosb ofyn i sefyll ei brawf am y drosedd honedig. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n derbyn yr hysbysiad wneud cais i'r awdurdod bwyd i sefyll ei brawf cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r gosb, yn unol â'r drefn a nodir gan yr awdurdod bwyd yn yr hysbysiad cosb. Ni all yr awdurdod bwyd ddwyn achos cyn diwedd y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad cosb. Nid oes hawl apelio yn erbyn hysbysiad cosb, ac eithrio'r hawl i sefyll prawf am y drosedd honedig. Fodd bynnag, os yw awdurdod bwyd yn credu na ddylai hysbysiad cosb a gyhoeddwyd gan swyddog awdurdodedig fod wedi'i roi, mae'n gallu hysbysu'r sawl a dderbyniodd yr hysbysiad ei fod am ei ddileu. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i'r awdurdod ad-dalu unrhyw swm sydd wedi'i dalu fel cosb, ac ni ellir dwyn neu barhau ag achos yn erbyn y sawl a dderbyniodd yr hysbysiad am y drosedd dan sylw.

## 15.6 **Troseddau Lluosog**

Gan ddibynnu ar ffeithiau'r achos, yn ddamcaniaethol gall gweithredwr busnes bwyd dderbyn sawl Hysbysiad Cosb Benodedig neu gael ei gyhuddo o droseddau lluosog o dan adran 9 o'r Ddeddf. Er enghraifft, pe bai gweithredwr busnes bwyd yn derbyn sticer newydd yn dangos sgôr is na'r sticer blaenorol, gallai'r gweithredwr busnes bwyd ddewis parhau i arddangos yr hen sticer yn hytrach na'r sticer newydd. Mewn achos o'r fath, byddai'n cyflawni trosedd o dan adran 9(a) (methu ag arddangos sticer dilys) ac adran 9(b) (arddangos sticer annilys). Pe bai'r gweithredwr busnes bwyd yn taflu'r sticer, byddai hefyd yn cyflawni trosedd o dan adran 9(c) (methu ag arddangos sticer dilys). Fodd bynnag, byddai synnwyr cyffredin, tegwch ac arfer da, ochr yn ochr ag egwyddor y gyfraith gyffredin yn erbyn "dyblygedd" yn golygu na ddylai gweithredwr busnes bwyd wynebu cyhuddiad am fwy nag un drosedd lle bo ffeithiau'r drosedd yr un fath yn union ac mae "drygau" y drosedd yr un fath. Yn y pen draw, y llys sy'n penderfynu a yw cyhuddiadau wedi'u dyblygu.

Mewn rhai achosion, gallai gweithredwr busnes bwyd dderbyn Hysbysiadau Cosb Benodedig lluosog neu gael ei gyhuddo o droseddau lluosog o dan adran 9 o'r Ddeddf heb dorri'r rheol yn erbyn dyblygedd. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod ffeithiau pob trosedd a'r "drygau" cysylltiedig yn wahanol. Ym mhob achos, yr awdurdod bwyd (yn gweithredu drwy ei swyddog awdurdodedig) sy'n penderfynu pa Hysbysiadau Cosb Benodedig i'w cyhoeddi neu ba gyhuddiadau i'w dwyn. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw, mae'n rhaid i'r swyddogion weithredu'n rhesymol yn unol ag egwyddorion arferol y gyfraith gyhoeddus a'u polisi gorfodi eu hunain.

## 15.7 **Gorfodi mewn sefydliadau awdurdodau lleol**

Dylai bod gan yr awdurdod bwyd bolisi sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth mewn sefydliadau lle mai'r awdurdod bwyd ei hun yw'r gweithredwr busnes bwyd, gan sicrhau nad yw penderfyniadau gorfodi yn arwain at unrhyw wrthdaro buddiannau. Dylid hysbysu'r Prif Weithredwr yn ddi-oed am unrhyw achosion difrifol o dorri'r rheolau.


## 15.8 **Cod Cydymffurfiaeth y Rheoleiddwyr**

Cyhoeddwyd Cod Cydymffurfiaeth y Rheoleiddwyr yn 2008 yn unol ag adran 23 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006. Mae'n god ymarfer statudol sy'n rheoli dulliau gorfodi ac yn datblygu egwyddorion rheoleiddio da. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr ystyried sut y gallant gefnogi twf economaidd, mabwysiadu dull gorfodi ar sail risg, darparu cyngor ac arweiniad i helpu busnesau a chyrff eraill sy'n cael eu rheoleiddio i ddeall eu cyfrifoldebau, a gwneud penderfyniadau gorfodi cymesur. Yng Nghymru, mae'r Cod yn berthnasol i swyddogaethau rheoleiddio penodol a gyflawnir gan awdurdodau lleol Cymru yn ymwneud â materion y DU nad ydynt wedi'u datganoli a rheoleiddwyr penodol y DU sy'n gweithredu yng Nghymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU God Rheoleiddwyr diwygiedig ym mis Gorffennaf 2013 yn dilyn ymgynghoriad. Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd am safbwyntiau ar y posibilrwydd o ymestyn y Cod yng Nghymru fel ei fod yr un mor berthnasol ag yn Lloegr. Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i adolygu ac asesu perthnasedd y Cod yng Nghymru.

## 15.8 Siart llif yn crynhoi'r broses Hysbysiad Cosb Benodedig

Mae gan swyddog awdurdodedig reswm i gredu bod trosedd wedi'i chyflawni o dan adran 9 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, ac mae'n arfer disgresiwn i ymdrin â'r drosedd drwy gyhoeddi Hysbysiad Cosb Benodedig i weithredwr sefydliad busnes bwyd neu'r person perthnasol.



## 15.9 Troseddau Eraill

Pan fo busnesau bwyd yn cael eu harolygu a'u hymchwilio, disgwylir y bydd y rhan fwyaf o weithredwyr busnesau bwyd yn cydweithredu â'r swyddog awdurdodedig. Fodd bynnag, os yw'r swyddog awdurdodedig yn cael ei atal drwy weithgaredd rhwystrol rhag cyflawni'r tasgau gofynnol i gwblhau'r arolygiad neu'r ymchwiliad, mae'r person sy'n ei rwystro yn cyflawni trosedd o dan y Ddeddf, oni bai bod ganddo esgus rhesymol am ei ymddygiad. Nid oes unrhyw ddiffiniad penodol o 'esgus rhesymol', a gall yr hyn sy'n rhesymol amrywio rhwng person i berson a dibynnu ar amgylchiadau penodol yr achos.

Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi bod 'corff corfforaethol' yn gallu cyflawni trosedd. Mae corff corfforaethol yn sefydliad neu'n grŵp o bersonau sy'n hysbys drwy enw penodol ac sy'n gweithredu, neu'n gallu gweithredu, fel endid cydnabyddedig neu berson cyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys cwmnïau, cymdeithasau, sefydliadau, mentrau dielw a chyrff cyhoeddus. O dan y Ddeddf, gall uwch-swyddogion cwmnïau a sefydliadau, fel cyfarwyddwyr, ysgrifenyddion cwmnïau ac uwch-reolwyr o'r corff corfforaethol gael eu dwyn i gyfrif os yw'r corff corfforaethol wedi'i gael yn euog o gyflawni trosedd. Mae hyn yn berthnasol lle mae modd dangos bod y drosedd wedi'i chyflawni drwy eu cydsyniad, eu hymoddefiad neu eu hesgeulustod.

**ATODIAD 1**

## ADRODDIAD AROLYGIAD HYLENDID BWYD

## ATODLEN A – GOFYNION CYFREITHIOL

Mae'n ofynnol i chi ddatrys yr achosion canlynol o ymddwyn yn groes i'r gyfraith diogelwch bwyd a chynnal safonau cyn bod modd rhoi'r sgôr uchaf:–
[Ni ddylid defnyddio'r paragraff hwn ar gyfer busnesau sy'n cael sgôr o 5]

| Gweithdrefnau Hylendid a Diogelwch | |
|---|---|
| *(Dilëwch fel sy'n briodol)* | |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant: yn cydymffurfio ag arferion da a dderbynnir yn y diwydiant. [Sgôr Risg = 0]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant, ambell enghraifft fach o dorri rheoliadau hylendid bwyd. Mân achosion o ddiffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant. [Sgôr Risg = 5]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Peth diffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant. Safonau'n cael eu cynnal neu eu gwella. [Sgôr Risg = 10]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Diffyg cydymffurfio sylweddol â rhwymedigaethau statudol – angen mwy o ymdrech i atal safonau rhag gostwng. [Sgôr Risg = 15]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Methiant cyffredinol i fodloni rhwymedigaethau statudol – safonau yn gyffredinol isel. [Sgôr Risg = 20]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Braidd dim cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol. [Sgôr Risg = 25]. |

| Materion strwythurol/glanhau | |
|---|---|
| *(Dilëwch fel sy'n briodol)* | |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant: yn cydymffurfio ag arferion da a |

| | |
|---|---|
| | dderbynnir yn y diwydiant. [Sgôr Risg = 0]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant, ambell enghraifft fach o dorri rheoliadau hylendid bwyd. Mân achosion o ddiffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant. [Sgôr Risg = 5]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Peth diffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant. Safonau'n cael eu cynnal neu eu gwella. [Sgôr Risg = 10]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Diffyg cydymffurfio sylweddol â rhwymedigaethau statudol – angen mwy o ymdrech i atal safonau rhag gostwng. [Sgôr Risg = 15]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Methiant cyffredinol i fodloni rhwymedigaethau statudol – safonau yn gyffredinol isel. [Sgôr Risg = 20]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Braidd dim cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol. [Sgôr Risg = 25]. |

| **Hyder mewn Gweithdrefnau Rheoli** | |
|---|---|
| | |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Hanes da o gydymffurfio. Cyngor technegol ar gael o fewn y sefydliad. Bydd ganddynt weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol wedi'u dogfennu sy'n seiliedig ar HACCP a all fod yn destun archwiliad allanol. Archwiliad gan yr Awdurdod Bwyd yn cadarnhau bod cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau wedi'u dogfennu, gydag ychydig/mân achosion o ddiffyg cydymffurfio nas nodwyd yn y system fel pwyntiau rheoli critigol. [Sgôr Risg = 0]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Hanes rhesymol o ran cydymffurfio. Cyngor technegol ar gael yn fewnol a mynediad i, a'r defnydd o gyngor technegol gan gymdeithasau masnach a/neu mewn Canllawiau Arfer Da. Mae ganddynt weithdrefnau boddhaol wedi'u dogfennu. Yn gallu arddangos rheolaeth effeithiol o beryglon. Bydd ganddynt weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol wedi'u dogfennu. Archwiliad gan yr Awdurdod Bwyd yn cadarnhau bod cydymffurfiaeth gyffredinol â gweithdrefnau. [Sgôr Risg = 5]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Hanes boddhaol o gydymffurfio. Cyngor technegol ar gael naill ai'n fewnol, neu gan gymdeithasau masnach a/neu mewn Canllawiau |

| | |
|---|---|
| | Arfer Da ac yn cael ei ddilyn. Dealltwriaeth o beryglon sylweddol a mesurau rheoli ar waith. Gwneud cynnydd boddhaol tuag at system/gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd wedi'u dogfennu sy'n gymesur â'r math o fusnes. [Sgôr Risg = 10]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Hanes amrywiol o ran cydymffurfio. Gwerthfawrogiad gwael o beryglon a mesurau rheoli. Dim system rheoli diogelwch bwyd. [Sgôr Risg = 20]. |
| Lefel o Gydymffurfiaeth | Hanes gwael o gydymffurfio. Fawr ddim gwybodaeth dechnegol os o gwbl. Fawr ddim gwerthfawrogiad o beryglon na rheoli ansawdd os o gwbl. Dim gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd. [Sgôr Risg = 30]. |

## **ATODLEN B – ARGYMHELLION**

Mae'r argymhellion hyn yn darparu cyngor ar arfer da.

**ATODIAD 2**

SGÔR HYLENDID BWYD
FOOD HYGIENE RATING

**Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Atodlen 2**

# Ffurflen ar gyfer gwneud apêl

**Nodiadau ar gyfer busnesau**

- Fel gweithredwr busnes bwyd mae gennych hawl, o dan adran 5 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, i apelio yn erbyn y sgôr hylendid bwyd a roddwyd i'r sefydliad:

  a) os nad ydych yn cytuno bod y sgôr yn adlewyrchiad priodol o'r safonau hylendid a ganfuwyd ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolygiad
  b) os credwch nad oedd y meini prawf sgorio wedi eu cymhwyso'n gywir wrth gynhyrchu eich sgôr hylendid bwyd

- **Mae gennych 21 diwrnod (gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc) i gyflwyno apêl, o'r dyddiad y cawsoch y llythyr hysbysu.**

- Os gwelwch yn dda, defnyddiwch y ffurflen isod a dychwelwch hi i'ch awdurdod lleol – anfonwyd y manylion cyswllt atoch gyda'r hysbysiad ysgrifenedig o'ch sgôr hylendid bwyd. Bydd eich apêl yn cael ei phenderfynu gan swyddog awdurdodedig, a hysbysir chi o ganlyniad eich apêl o fewn 21 diwrnod o'r dyddiad y derbyniwyd yr apêl.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y gweithredwr busnes bwyd | | | |
| Enw'r busnes | | | |
| Cyfeiriadau busnes | | | |
| Rhif ffôn y busnes | | | |
| Cyfeiriad e-bost y busnes | | | |
| Dyddiad yr arolygiad | | Y sgôr hylendid bwyd a roddwyd | |
| Dyddiad yr hysbyswyd y sgôr | | | |
| Enw'r Swyddog Arolygu | | | |

| | |
|---|---|
| Enw'r person cyswllt (os yw'n wahanol i'r gweithredwr busnes bwyd) | |
| Cyfeiriad y brif swyddfa neu gyfeiriadau'r person cyswllt (os ydynt yn wahanol i gyfeiriadau'r gweithredwr busnes bwyd) | |
| Rhif ffôn y person cyswllt | |

Nid wyf yn cytuno â'r sgôr hylendid bwyd a roddwyd gan y swyddog diogelwch bwyd oherwydd:

☐ Rwyf yn credu nad oedd y meini prawf sgorio wedi'u cymhwyso'n gywir, neu

☐ Nid wyf yn cytuno bod y sgôr yn adlewyrchu'n briodol y safonau hylendid a ganfuwyd ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

(rhowch esboniad, o dan bob un o'r tri phennawd):

| | |
|---|---|
| Cydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | |
| Cydymffurfio â gofynion strwythurol | |
| Hyder yn y gweithdrefnau rheoli a rheolaethau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | | | |
| Enw mewn priflythrennau | | | |
| Swydd | | Dyddiad | |

**Dychwelwch y ffurflen hon yn awr i'ch awdurdod lleol**

**ATODIAD 3**

SGÔR HYLENDID BWYD
FOOD HYGIENE RATING

**Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013**

# 'Hawl i ymateb'

**Nodiadau ar gyfer busnesau**

- Fel gweithredwr busnes bwyd y sefydliad, mae gennych 'hawl i ymateb' o dan Adran 11 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, mewn perthynas â'r sgôr hylendid bwyd a roddwyd yn dilyn arolygiad eich sefydliad. Gallwch arfer yr hawl hon unrhyw amser pan fo'r sgôr yn ddilys.

- Diben yr hawl i ymateb yw'ch galluogi i roi esboniad o'r camau dilynol sydd wedi'u rhoi ar waith i wneud y gwelliannau gofynnol a nodwyd yn llythyr yr arolygiad, neu nodi'r amgylchiadau lliniarol adeg yr arolygiad. Nid bwriad yr hawl i ymateb yw rhoi cyfle i bobl gwyno neu feirniadu'r cynllun sgorio neu'r swyddog diogelwch bwyd a gynhaliodd yr arolygiad.

- Os hoffech fanteisio ar yr hawl i ymateb, dylech ddefnyddio'r ffurflen isod a'i dychwelyd at y swyddog diogelwch bwyd a gynhaliodd eich arolygiad – anfonwyd y manylion cyswllt gyda'r hysbysiad ysgrifenedig o'ch sgôr hylendid bwyd.

- Mae'n rhaid i chi gyflwyno'ch sylwadau ar ffurf ysgrifenedig, ond nid yw'n ofynnol i chi ddefnyddio'r ffurflen hon. Gallwch ddefnyddio fformat ysgrifenedig gwahanol i gyflwyno'ch sylwadau.

- Mae sylwadau tramgwyddus, difenwol, anghywir neu amherthnasol yn annerbyniol. Os ydych chi'n cyflwyno sylwadau o'r fath, gofynnir i chi ddiwygio'ch testun.

- Bydd eich sylwadau'n cael eu cyflwyno i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, eu cyhoeddi ar-lein a'u harddangos gyda'ch sgôr hylendid bwyd drwy food.gov.uk/ratings.

| | |
|---|---|
| Y gweithredwr busnes bwyd | |
| Enw'r busnes | |
| Cyfeiriadau busnes | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad | | Y sgôr hylendid bwyd a roddwyd | |

☐ Rwyf yn cytuno â chanfyddiadau'r arolygiad, ond ers hynny rwyf wedi gwneud y gwelliannau canlynol (ticiwch bob un sy'n berthnasol):

- ☐ Mae'r sefydliad wedi'i lanhau'n drylwyr ac mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau ei fod yn aros yn lân.
- ☐ Mae'r sefydliad wedi'i adnewyddu'n llawn, neu bydd yn cael ei adnewyddu'n llawn yn y dyfodol agos.
- ☐ Mae system reoli newydd wedi'i chyflwyno.
- ☐ Mae gan y sefydliad reolwr newydd a/neu staff newydd.
- ☐ Mae'r staff wedi'u hyfforddi/ail-hyfforddi/yn derbyn cyfarwyddiadau/o dan drefniadau goruchwylio diwygiedig.
- ☐ Arall – rhowch fwy o fanylion isod yn y gofod a ddarperir yn unig.

☐ Nid oedd yr amodau a ganfuwyd adeg yr arolygiad yn nodweddiadol o amodau arferol y sefydliad, ac roeddent wedi codi oherwydd (Esboniwch isod gan ddefnyddio'r gofod a ddarperir yn unig. Gallwch nodi unrhyw welliannau eraill a wnaed hefyd):

| Llofnod | |
|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw mewn priflythrennau | | | |
| Swydd | | Dyddiad | |

**Dychwelwch y ffurflen hon yn awr i'ch awdurdod lleol**

**ATODIAD 4**

SGÔR HYLENDID BWYD
FOOD HYGIENE RATING

**Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Atodlen 3**

# Ffurflen i wneud cais am arolygiad ailsgorio

**Nodiadau ar gyfer busnesau**

- Fel gweithredwr busnes bwyd mae gennych hawl, o dan adran 12 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, i wneud cais ar unrhyw adeg am arolygiad at y diben o ailsgorio, ar yr amod eich bod wedi talu costau rhesymol yr ailsgorio yn unol ag adran 13 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (oni fydd yr awdurdod bwyd wedi ymatal rhag gofyn am dalu'r costau hynny ymlaen llaw – fel y darperir ar ei gyfer yn adran 12(6) o'r Ddeddf, ac os felly, ceir talu'r costau ar ôl cwblhau'r arolygiad ailsgorio) ac os bodlonir hefyd yr amodau canlynol:

a) bod unrhyw apêl yn erbyn y sgôr hylendid bwyd bresennol wedi ei phenderfynu;
b) eich bod wedi hysbysu'r awdurdod bwyd y gwnaed gwelliannau yn safonau hylendid y sefydliad
c) bod yr awdurdod bwyd o'r farn y byddai'n rhesymol arolygu ac asesu'r sefydliad ymhellach oherwydd y gwelliannau yr honnir eu bod wedi'u gwneud
d) bod y sticer sgôr hylendid bwyd cyfredol yn cael ei arddangos yn eich sefydliad yn unol â gofynion adran 7 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a rheoliad 9 o Reoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
e) eich bod wedi cytuno i sicrhau y caniateir mynediad i'r awdurdod bwyd i gynnal arolygiad o'r sefydliad at y diben o ailsgorio

- Bydd swyddog yr awdurdod lleol yn rhoi ichi sgôr hylendid bwyd, ar sail y lefel o gydymffurfiaeth a ganfyddir ar adeg yr ailymweliad – dylech fod yn ymwybodol y gall eich sgôr naill ai godi neu ostwng, neu aros fel y mae ar hyn o bryd.

- I wneud cais am ailymweliad, defnyddiwch y ffurflen isod os gwelwch yn dda a dychwelwch y ffurflen at swyddog diogelwch bwyd eich awdurdod lleol – anfonwyd y manylion cyswllt gyda'r hysbysiad ysgrifenedig o'ch sgôr hylendid bwyd.

- Gwneir yr ailymweliad o fewn 3 mis ar ôl gwneud y cais, ac fel rheol ni roddir rhybudd ymlaen llaw.

| | |
|---|---|
| Y gweithredwr busnes bwyd | |
| Enw'r busnes | |
| Cyfeiriadau busnes | |
| Rhif ffôn y busnes | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad e-bost y busnes | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad | | Y sgôr hylendid bwyd a roddwyd | |

| | |
|---|---|
| Enw'r person cyswllt (os yw'n wahanol i'r gweithredwr busnes bwyd) | |
| Cyfeiriad y brif swyddfa neu gyfeiriadau'r person cyswllt (os ydynt yn wahanol i gyfeiriadau'r gweithredwr busnes bwyd) | |
| Rhif ffôn y person cyswllt | |

**Os gwelwch yn dda, disgrifiwch y gwelliannau a wnaed gennych, gan gyfeirio at y materion a nodwyd yn y llythyr/adroddiad arolygu a anfonwyd atoch gan eich awdurdod lleol ynghyd â'ch sgôr hylendid bwyd:**

| | |
|---|---|
| Cydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | |
| Cydymffurfio â gofynion strwythurol | |
| Hyder yn y gweithdrefnau rheoli a rheolaethau | |

Os gwelwch yn dda, darperwch unrhyw dystiolaeth atodol ychwanegol (e.e. ffotograffau, anfonebau, copïau o ddogfennau perthnasol ac ati).

| | |
|---|---|
| Llofnod | |
| Enw mewn priflythrennau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Swydd | | Dyddiad | |

**Dychwelwch y ffurflen hon yn awr i'ch awdurdod lleol**